



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 23 Mawrth 2011
Wednesday, 23 March 2011**

Cynnwys
Contents

- | | |
|-----|---|
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services |
| 19 | Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport |
| 40 | Cwestiwn Brys: Y Methiant Pŵer Mawr ar Rwydwaith Rheilffordd De Cymru
Urgent Question: The Major Power Failure on the South Wales Rail Network |
| 46 | Cynnig i Ddirymu Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011
Motion to Annul the Badger (Control Area) (Wales) Order 2011 |
| 67 | Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 'Dargedau Bioamrywiaeth'
The Sustainability Committee's Report 'Biodiversity Targets' |
| 82 | Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar 'Hyfforddiant a Sgiliau Dwyieithog yn y Gweithle a Rhyngwyneb Busnes â'r Cyhoedd'
The Enterprise and Learning Committee's Report 'Bilingual Training and Skills in the Workplace and Business' |
| 96 | Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol i Ddrafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: Gwersi a Ddysgwyd o'r Tair Blynedd Gyntaf
The Constitutional Affairs Committee's Inquiry into the Drafting of Welsh Government Measures: Lessons from the First Three Years |
| 115 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: 'Gofal gydag Urddas?'
Welsh Conservatives Debate: 'Dignified Care?' |
| 141 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |
| 147 | Dadl Fer: Yr Heddlu—Gadewch i Ni Fod yn Deg
Short Debate: The Police—Let's Be Fair |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister for Health and Social Services.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Archwiliadau Iechyd Blynyddol

1. David Melding: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am archwiliadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. OAQ(3)1911(HSS)*

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): The number of people with a learning disability having a health check is growing each year. In 2006-07, the first year of the scheme, some 31 per cent of eligible adults took up the offer of a free health check. This increased to some 44 per cent in 2009-10.

David Melding: I commend the Welsh Assembly Government's policy in this area, following Mencap's campaign, which I had the honour of supporting. You are right to say that the figures are growing, and they are impressive. However, we want to see performance evened out around Wales. I am concerned that different practices are followed, and the percentage of people who are written to with an offer of an annual health check differs from location to location. Furthermore, those actually presenting for the health check varies considerably around Wales. The latest figures that I have—and you may be able to update these—is that, of the seven new health boards, only five currently operate according to best practice in presenting data and have consistent policies on annual health checks for people with learning disabilities. We need to get beyond 50 per cent, way up towards 75 or 80 per cent, if possible, which is probably as high as you will get in any voluntary scheme. It would have a wonderful impact on the health outcomes of people with learning disabilities.

Annual Health Checks

1. David Melding: *Will the Minister make a statement on annual health checks for people with learning disabilities. OAQ(3)1911(HSS)*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Mae nifer y bobl ag anabledd dysgu sy'n cael archwiliad iechyd yn cynyddu bob blwyddyn. Yn 2006-07, sef blwyddyn gyntaf y cynllun, manteisiodd tua 31 y cant o oedolion cymwys ar y cynnig i gael archwiliad iechyd am ddim. Cynyddodd hyn i tua 44 y cant yn 2009-10.

David Melding: Yr wyf yn canmol polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn, yn dilyn ymgyrch Mencap, y cefais y fraint o'i chefnogi. Yr ydych yn gywir i ddweud bod y ffigurau'n cynyddu, ac maent yn drawiadol. Fodd bynnag, yr ydym am weld perfformiad cyfartal ledled Cymru. Mae'n fy mhryderu bod arferion gwahanol yn cael eu dilyn, ac mae canran y bobl sy'n cael cynnig archwiliad iechyd blynyddol drwy lythyr yn wahanol o le i le. Ar ben hynny, mae nifer y rhai sy'n mynd i'r archwiliad iechyd yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd gennyf—ac efallai y byddwch yn gallu diweddarau'r rhain—yn dangos, o'r saith bwrdd iechyd newydd, mai dim ond pump sy'n gweithredu yn unol â'r arfer gorau ar hyn o bryd o ran cyflwyno data ac sydd â pholisïau cyson ar archwiliadau iechyd blynyddol i bobl ag anableddau dysgu. Mae angen inni wella ar 50 y cant, hyd at ganrannau mor uchel â 75 neu 80 y cant, os yw'n bosibl, sef y lefel uchaf y gallwch ei chyrraedd drwy gyfrwng unrhyw gynllun gwirfoddol, mae'n debyg. Byddai'n cael effaith wych ar ganlyniadau iechyd pobl sydd ag anableddau dysgu.

Edwina Hart: Participation in the scheme is voluntary, which has been an issue. If you recall, I believe that we funded Mencap to provide a DVD, to show what is happening with the health check, and how it is useful for individuals. We could look at further work with the voluntary sector charities on this to see whether they could help us to increase the numbers of people who attend annual health checks. I am more than happy for my officials to take that work forward.

Edwina Hart: Cynllun gwirfoddol yw hwn, sydd wedi bod yn broblem. Os cofiwch, credaf inni roi arian i Mencap i ddarparu DVD, er mwyn dangos beth sy'n digwydd o ran yr archwiliad iechyd, a sut y mae'n ddefnyddiol i unigolion. Gallem ystyried gwaith pellach gydag elusennau'r sector gwirfoddol yn hyn o beth i weld a allent ein helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n mynd i archwiliadau iechyd blynyddol. Rwy'n fodlon iawn i'm swyddogion ddatblygu'r gwaith hwnnw.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 2, OAQ(3)1949(HSS), yn ôl.

The Presiding Officer: Question 2, OAQ(3)1949(HSS), is withdrawn.

Lefelau Iechyd y Cyhoedd

Public Health Levels

3. Mohammad Asghar: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella lefelau iechyd y cyhoedd yn Nwyrain De Cymru. OAQ(3)1913(HSS)*

3. Mohammad Asghar: *What steps is the Welsh Assembly Government taking to improve public health levels in South Wales East. OAQ(3)1913(HSS)*

Edwina Hart: Our Healthy Future focuses on tackling the causes of ill health and promotes the factors that contribute to good health and wellbeing. The director of public health at Aneurin Bevan Local Health Board is leading efforts to deliver Our Healthy Future in South Wales East.

Edwina Hart: Mae Ein Dyfodol Iach yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion iechyd gwael ac yn hyrwyddo'r ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd a lles da. Mae cyfarwyddwr iechyd cyhoeddus Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn arwain yr ymdrechion i ddarparu Ein Dyfodol Iach yn Nwyrain De Cymru.

Mohammad Asghar: Several weeks ago, I raised with you the issue of dental hygiene in Wales. Stuart Geddes, the chairman of the British Dental Association, has now highlighted the fact that instances of gum disease and tooth decay are higher in Wales than in any other part of the United Kingdom. Although we have initiatives such as Designed to Smile in place, Mr Geddes has also said that he feels that improvements in oral health in Wales have not happened fast enough. This is particularly important given evidence that suggests links between oral health and numerous other diseases and conditions. How do you respond to that, and are you confident that the Assembly Government has done enough to raise awareness of the importance of good oral health in Wales?

Mohammad Asghar: Sawl wythnos yn ôl, soniais wrthy ch am hylendid deintyddol yng Nghymru. Mae Stuart Geddes, cadeirydd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, bellach wedi tynnu sylw at y ffaith bod achosion o glefyd y deintgig a phydredd dannedd yn uwch yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Er ein bod wedi rhoi mentrau fel Cynllun Gwên ar waith, mae Mr Geddes hefyd wedi dweud ei fod yn teimlo nad yw gwelliannau o ran iechyd y geg yng Nghymru wedi'u gwneud yn ddigon cyflym. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y dystiolaeth sy'n awgrymu bod cysylltiadau rhwng iechyd y geg a nifer o glefydau a chyflyrau eraill. Beth yw eich ymateb i hynny, ac a ydych yn hyderus fod Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud digon i godi ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd iechyd da o ran y geg?

Edwina Hart: It would be an unwise

Edwina Hart: Byddai Gweinidog

Government Minister who would always say that we have done enough, because there is always much to do, particularly in the area that you have raised today. I believe that what we have done in terms of Designed to Smile is right. I was fortunate to be at the launch of some Designed to Smile initiatives a few weeks ago. It is amazing that, in some households, there are no toothbrushes. If a child is given a toothbrush and some toothpaste, it is wonderful for them to be able to take that home. Other children say that they use their mother's toothbrush. I do not believe that we realise that, across Wales, there are still significant pockets of children in that situation. If you do not develop those good habits at an early age, you will not continue them into adult life. Therefore, I assure you that this is high on the agenda, and will continue to be so. It is important that we get the messages out on good oral hygiene, and I welcome working with the professions on this.

Gwasanaethau Canser

4. Lorraine Barrett: *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau canser yng Nghymru. OAQ(3)1943(HSS)*

Edwina Hart: Through 'Designed to Tackle Cancer in Wales', we have set formal goals to achieve, by 2015, incidence and survival rates for cancer that are comparable with the best in Europe.

Lorraine Barrett: As I believe you know, I hosted a seminar recently to hear about the research that has been conducted by Roche into human papilloma virus testing as a primary screen for cervical cancer. During that presentation, it said that Wales is leading the way in the world in its cervical screening programme, but felt that that screening programme could be enhanced by this routine test for HPV when abnormal cells are found. Will you take a look at this research to see whether it could be implemented in Wales?

Llywodraeth yn annoeth pe bai bob amser yn dweud ein bod wedi gwneud digon, oherwydd mae llawer i'w wneud drwy'r amser, yn enwedig yn y maes yr ydych wedi sôn amdano heddiw. Credaf ein bod wedi gwneud y peth iawn yng nghyswllt Cynllun Gwên. Yr oeddwn yn ffodus i fod yn lansiad rhai o fentrau Cynllun Gwên ychydig wythnosau yn ôl. Mae'n rhyfeddol, mewn rhai cartrefi, nad oes brwsys dannedd. Os caiff plentyn frws a phast dannedd, mae'n wych iddo allu mynd â hwy adref. Mae plant eraill yn dweud eu bod yn defnyddio brws dannedd eu mam. Credaf nad ydym yn sylweddoli bod grwpiau sylweddol o blant yn y sefyllfa honno, ledled Cymru. Os na fyddwch yn datblygu'r arferion da hynny yn ifanc, ni fyddwch yn eu cynnal wrth ichi ddod yn oedolyn. Felly, gallaf eich sicrhau bod safle uchel i hyn ar yr agenda, a bydd hynny'n parhau. Mae'n bwysig ein bod yn cyfleu'r negeseuon am hylendid da o ran y geg, a byddwn yn falch o weithio gyda'r bobl broffesiynol ar hyn.

Cancer Services

4. Lorraine Barrett: *What is the Welsh Assembly Government doing to improve cancer services in Wales. OAQ(3)1943(HSS)*

Edwina Hart: Drwy 'Cynllun i Fynd i'r Afael â Chanser yng Nghymru', yr ydym wedi pennu nodau ffurfiol i sicrhau, erbyn 2015, fod cyfraddau o ran nifer yr achosion o ganser a goroesi canser gyda'r gorau yn Ewrop.

Lorraine Barrett: Credaf eich bod yn gwybod imi gynnal seminar yn ddiweddar i glywed am waith ymchwil Roche ynghylch gallu'r profion a wneir i ganfod y feirws papiloma dynol i fod yn ddull sylfaenol o sgrinio yng nghyswllt canser serfigol. Yn ystod y cyflwyniad, dywedodd fod Cymru ar flaen y gad yn y byd o ran ei rhaglen sgrinio serfigol, ond teimlai y gellid gwella'r rhaglen sgrinio honno drwy gynnwys y prawf cyffredin a wneir i ganfod y feirws papiloma dynol pan fydd celloedd annormal yn cael eu canfod. A wnewch chi edrych ar y gwaith ymchwil hwn i weld a ellid ei roi ar waith yng Nghymru?

Edwina Hart: Screening services are available in Wales, and we have been very successful in terms of the way in which we have dealt with some of the screening issues. However, in Wales, as in the rest of the UK, everything is based on the expert advice that we receive from the National Screening Committee, and should the NSC change its recommendations, Ministers would consider any changes it wishes to undertake. However, I can indicate that we are well aware of the points made by Roche, and my officials will consider them.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): You will know that I have longstanding concerns about access to cancer treatments for people living in rural areas, and the significant distances that many of my constituents have to travel to receive chemotherapy and radiotherapy services. Will you outline what steps and guidance you are giving to rural local health boards to ensure that, where at all possible, chemotherapy services are delivered within community settings, or even in mobile settings? Will you also give us an update on how much further forward we are with regard to the establishment of a new radiotherapy unit, which I understand is planned for either Merthyr Tydfil or Abergavenny, and which would cut down the travelling time for many of my constituents who currently have to go to Cardiff to receive their radiotherapy?

Edwina Hart: I discussed the rural health plan with the rural implementation board and the importance of accessibility, which is one of the key issues of concern that it identified. It is particularly keen on the use of technology and taking services out to people, so there will be developments in that area. I will check with officials about the radiotherapy issues.

David Lloyd: A fyddech yn cytuno, er mwyn gwella gwasanaethau canser yn gyffredinol ac edrych ar holl agweddau gofal y claf sydd â chanser, bod angen mwy o gydweithio agos rhwng y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol?

Edwina Hart: Mae gwasanaethau sgrinio ar gael yng Nghymru, ac yr ydym wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran y ffordd yr ydym wedi ymdrin â rhai o'r materion sy'n ymwneud â sgrinio. Fodd bynnag, yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae popeth yn seiliedig ar y cyngor arbenigol a gawn gan y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol, a phe bai'r Pwyllgor yn newid ei argymhellion, byddai Gweinidogion yn ystyried unrhyw newidiadau y byddai am ymgymryd â hwy. Fodd bynnag, gallaf nodi ein bod yn gyfarwydd â'r pwyntiau a wnaed gan Roche, a bydd fy swyddogion yn eu hystyried.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Gwyddoch fod gennyf bryderon ers tro ynghylch mynediad at driniaethau canser i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, a'r pellteroedd mawr y mae llawer o fy etholwyr yn gorfod teithio i gael gwasanaethau cemotherapi a radiotherapi. A wnewch chi amlinellu pa gamau gweithredu a chanllawiau yr ydych yn eu cyflwyno i fyrddau iechyd lleol gwledig i sicrhau, ble bynnag y bo modd, fod gwasanaethau cemotherapi yn cael eu darparu mewn lleoliadau cymunedol, neu hyd yn oed mewn lleoliadau symudol? A wnewch chi hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd o ran sefydlu uned radiotherapi newydd, y bwriedir ei lleoli naill ai ym Merthyr Tudful neu yn y Fenni, yn ôl a ddeallaf, ac a fyddai'n lleihau'r amser teithio i nifer o'm hetholwyr sydd ar hyn o bryd yn gorfod teithio i Gaerdydd i gael eu radiotherapi?

Edwina Hart: Trafodais y cynllun iechyd gwledig â'r bwrdd gweithredu gwledig a phwysigrwydd hygrychedd, sef un o'r prif bryderon a nododd. Mae'n arbennig o awyddus i ddefnyddio technoleg a mynd â gwasanaethau at bobl, felly bydd datblygiadau yn y maes hwnnw. Byddaf yn holi fy swyddogion am y materion o ran radiotherapi.

David Lloyd: Would you agree that, in order to improve cancer services in general and to consider all aspects of the care of cancer patients, the health service and social services need to work far more closely together?

Edwina Hart: The straightforward answer is 'yes'. We are currently developing the requirements of the NHS in terms of achieving our policy aims. I recognise that effective information and support for cancer patients is absolutely essential. I hope that the cancer key worker can also play a role in this, but you are absolutely correct that there must be a seamless link between services provided by health and those provided by local government via social services departments.

Gwasanaethau Iechyd

5. Nick Ramsay: *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yng Nghymru. OAQ(3)1938(HSS)*

Edwina Hart: The Welsh Assembly Government is committed to the development of safe, integrated and sustainable health care services in Wales that meet the healthcare needs of our residents as close to their homes as possible.

Nick Ramsay: I know that you are aware of the 'Dignified Care?' report, which was published in the last couple of weeks. There are some extraordinarily concerning aspects to it. Will you tell us how the Assembly Government intends to respond to some of the issues raised in this, and what strategies you will put in place to ensure that, over the next decade, these issues can be addressed?

Edwina Hart: We have the opportunity to debate some of these issues later this afternoon. However, I have been considering how I will respond to the report published by the Commissioner for Older People in Wales to which you refer. I will probably set up a reference group of external experts to advise me before I respond to the report, so that I can bring together all the strands of current Government policy to see where we should be taking policy in the future.

Nick Ramsay: I am grateful to the Minister for her answer. This report has raised issues

Edwina Hart: Yr ateb syml yw 'byddwn'. Yr ydym wrthi'n datblygu gofynion y GIG o ran cyflawni ein hamcanion polisi. Rwy'n cydnabod bod cymorth a gwybodaeth effeithiol i gleifion canser yn gwbl hanfodol. Rwy'n gobeithio y gall y gweithiwr allweddol canser hefyd chwarae rôl yn hyn o beth, ond yr ydych yn llygad eich lle ei bod yn rhaid cael cysylltiad di-dor rhwng gwasanaethau a ddarperir gan wasanaethau iechyd a'r rhai a ddarperir gan lywodraeth leol drwy adrannau gwasanaethau cymdeithasol.

Health Services

5. Nick Ramsay: *What is the Welsh Assembly Government doing to improve health services in Wales. OAQ(3)1938(HSS)*

Edwina Hart: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau gofal iechyd diogel, integredig a chynaliadwy yng Nghymru sy'n diwallu anghenion gofal iechyd ein trigolion mor agos at eu cartrefi ag y bo modd.

Nick Ramsay: Gwn eich bod yn ymwybodol o'r adroddiad 'Gofal gydag Urddas?', a gyhoeddwyd yn yr wythnosau diwethaf. Mae rhai agweddau arno sy'n peri pryder difrifol. A wnewch chi ddweud wrthym sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu ymateb i rai o'r materion a godwyd ynddo, a pha strategaethau y byddwch yn eu rhoi ar waith i sicrhau, dros y degawd nesaf, y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn?

Edwina Hart: Bydd gennym gyfle i drafod rhai o'r materion hyn yn nes ymlaen y prynhawn yma. Fodd bynnag, yr wyf wedi bod yn ystyried sut y byddaf yn ymateb i'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yr ydych yn cyfeirio ato. Mae'n debyg y byddaf yn sefydlu grŵp cyfeirio sy'n cynnwys arbenigwyr allanol i'm cynghori cyn imi ymateb i'r adroddiad, fel y gallaf ddwyn ynghyd holl feysydd polisi cyfredol y Llywodraeth i weld ym mha gyfeiriad y dylem ddatblygu polisi yn y dyfodol.

Nick Ramsay: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hateb. Mae'r adroddiad

which were maybe always there and needed to be discussed, but which certainly have not been aired in the same way, and I pay tribute to the valuable work of the commissioner for older people in highlighting this. We now know that these issues exist, Minister, and I am very pleased to hear about the action that you are taking. I think people in Wales expect that. On certain issues, such as continence care and ward management, it does not take a rocket scientist to put a strategy in place to ensure that these issues improve. Thank you for that. In terms of the group that you will put together, when will that first be meeting and when do you expect it to make recommendations?

Edwina Hart: I will be expecting official paperwork from my officials next week, and I will then set up the group. It will be probably be chaired by a member of my ministerial advisory board because I think that is quite appropriate. We must have a diverse group and involve everyone possible. The report is damning in places, but it also includes some good points. I pay tribute to the Commissioner for Older People in Wales and Dame Deirdre Hine for the balanced nature of the report. However, it is obviously the unfortunate and dreadful incidents that stick in our minds when we read things like this.

Lynne Neagle: Minister, I was reassured when we met last week and you told me that you hoped to make an announcement on the critical care centre for Cwmbran before the end of this Assembly. As I know that you understand, those of us who have campaigned long and hard for the new hospital are deeply worried about the impact of the brutal cuts to the Assembly's capital budget that have been imposed by the Tory-led coalition in Westminster. If it goes ahead, the project would represent the biggest investment in the NHS that Torfaen and Gwent have seen for a generation and it would transform the delivery of healthcare for local patients for decades to come. Minister, are you able to offer any further assurances today that the project will go ahead?

hwn wedi codi materion a oedd wastad yn bodoli o bosibl ac yr oedd angen eu trafod, ond yn sicr nid ydynt wedi cael sylw yn yr un ffordd, a hoffwn dalu teyrnged i waith gwerthfawr y comisiynydd pobl hŷn wrth dynnu sylw at hyn. Yr ydym bellach yn gwybod bod y materion hyn yn bodoli, Weinidog, ac yr wyf yn falch iawn o glywed am y camau yr ydych yn eu cymryd. Credaf fod pobl yng Nghymru yn disgwyl hynny. O ran materion penodol, fel gofal ymatal a rheoli wardiau, nid yw'n eithriadol o gymhleth rhoi strategaeth ar waith i sicrhau bod y materion hyn yn gwella. Diolch ichi am hynny. O ran y grŵp y byddwch yn ei roi at ei gilydd, pryd y cynhelir ei gyfarfod cyntaf a phryd yr ydych yn disgwyl iddo wneud argymhellion?

Edwina Hart: Byddaf yn disgwyl gwaith papur swyddogol gan fy swyddogion yr wythnos nesaf, ac yna byddaf yn sefydlu'r grŵp. Mae'n debyg y bydd yn cael ei gadeirio gan aelod o fy mwrdd cynghori gweinidogol oherwydd credaf fod hynny'n briodol. Rhaid i'r grŵp fod yn un amrywiol a rhaid inni gynnwys pawb y mae modd eu cynnwys. Mae'r adroddiad yn ddamniol mewn manau, ond mae hefyd yn cynnwys rhai pwyntiau da. Talaf deyrnged i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Fonesig Deirdre Hine am natur gytbwys yr adroddiad. Fodd bynnag, yn amlwg y digwyddiadau anffodus ac ofnadwy sy'n aros yn y cof wrth inni ddarllen pethau fel hyn.

Lynne Neagle: Weinidog, yr oeddwn yn dawelach fy meddwl ar ôl inni gwrdd yr wythnos ddiwethaf pan ddywedasoeh wrthyf eich bod yn gobeithio gwneud cyhoeddiad am y ganolfan gofal critigol yng Nghwmbrian cyn diwedd y Cynulliad hwn. Fel yr wyf yn gwybod eich bod yn deall, mae'r rhai ohonom sydd wedi ymgyrchu ers cryn amser ac yn ddiwyd dros gael ysbyty newydd yn pryderu'n ddirfawr am effaith y toriadau creulon i gyllideb cyfalaf y Cynulliad a osodwyd gan y glymblaid sy'n cael ei harwain gan y Toriaid yn San Steffan. Os bydd yn mynd yn ei flaen, y prosiect hwn fydd y buddsoddiad mwyaf yn y GIG a welwyd yn Nhorfaen ac yng Ngwent ers cenhedlaeth a byddai'n trawsnewid y ddarpariaeth gofal iechyd i gleifion lleol am ddegawdau i ddod. Weinidog, a allwch roi

sicrwydd pellach heddiw y bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen?

Edwina Hart: I am about to write to Assembly Members to confirm that the project in respect of the critical care centre in the Aneurin Bevan Local Health Board area will go ahead. As you are aware, it is a multimillion pound development and the board was originally looking for £300 million. However, the board has worked very hard to reduce the estimated costs, which I am very happy about. In terms of the Llanfrecfa Grange project, that is a runner. There are also issues that we will have to deal with in terms of what we can do about a new local hospital for Newport and the upgrading of Nevill Hall Hospital. Information on all of that will be included in my letter. I am happy to confirm, Lynne, that the project has had the go-ahead.

Peter Black: Minister, although there have been some improvements to the health service, particularly in relation to the time that patients have to wait, we still have incidents brought to our attention of patients facing unacceptable delays. A constituent recently came to see me who had been told when he was diagnosed with leukaemia in February that he was on the urgent list. However, he has now been told that he will have to wait 26 weeks to see a clinical specialist and possibly even longer for treatment once that appointment has taken place. I am sure that you understand that that is very worrying for those patients, particularly when you are talking about a disease like leukaemia. What are you doing to try to drive out such incidents and to try to reassure patients that they will not have to wait excessive periods of time when they are critically ill?

Edwina Hart: We have to recognise that, in the main, we are achieving reductions in the cancer waiting times very successfully, but, in other areas, there are problems. I want to say to patients that they must immediately contact someone if such incidents occur. They have to be weeded out because patients cannot put up with such unnecessary worry. There are people that the system does fail, but we have to recognise that the majority of

Edwina Hart: Yr wyf ar fin ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad i gadarnhau y bydd prosiect y ganolfan gofal critigol yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn mynd yn ei flaen. Fel y gwyddoch, mae'n ddatblygiad sy'n werth miliynau o bunnoedd ac yr oedd y bwrdd yn chwilio am £300 miliwn yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae'r bwrdd wedi gweithio'n galed iawn i leihau'r amcangyfrif o'r costau, ac yr wyf yn hapus iawn ynghylch hynny. O ran prosiect Llanfrecfa Grange, mae'n cael ei ystyried. Bydd yn rhaid inni hefyd ymdrin â materion o ran yr hyn y gallwn ei wneud ynghylch cael ysbyty lleol newydd i Gasnewydd ac uwchraddio Ysbyty Nevill Hall. Bydd gwybodaeth am y materion hynny i gyd yn fy llythyr. Mae'n bleser cadarnhau, Lynne, fod y prosiect wedi cael sêl bendith.

Peter Black: Weinidog, er y bu rhai gwelliannau i'r gwasanaeth iechyd, yn enwedig o ran amserau aros cleifion, yr ydym yn dal i glywed am gleifion sy'n wynebu oedi annerbyniol. Daeth etholwr i'm gweld yn ddiweddar ar ôl cael diagnosis o lewcemia ym mis Chwefror, a dywedwyd wrtho ei fod ar y rhestr frys. Fodd bynnag, mae bellach wedi cael gwybod y bydd yn rhaid iddo aros 26 wythnos i weld arbenigwr clinigol ac efallai hyd yn oed yn hwy am driniaeth ar ôl yr apwyntiad hwnnw. Yr wyf yn siŵr eich bod yn deall bod hynny'n peri pryder mawr i'r cleifion hynny, yn enwedig yn achos clefyd fel lewcemia. Beth yr ydych yn ei wneud i geisio cael gwared ar achosion o'r fath ac i dawelu meddyliau cleifion na fydd yn rhaid iddynt aros am gyfnodau gormodol o amser pan fyddant yn ddifrifol wael?

Edwina Hart: Rhaid inni gydnabod, ar y cyfan, ein bod yn llwyddiannus iawn o ran gostwng yr amseroedd aros i gleifion sy'n dioddef o ganser, ond, mewn meysydd eraill, mae problemau. Hoffwn ddweud wrth gleifion fod rhaid iddynt gysylltu â rhywun ar unwaith os bydd achosion o'r fath yn codi. Rhaid cael gwared ar yr achosion hynny oherwydd ni all cleifion ddioddef pryder diangen o'r fath. Mae'r system yn methu â

people are not failed by the system.

Leanne Wood: Minister, I would like to commend you on your recent announcement that you will invest more than £1.5 million in extra funding for child and adolescent mental health services and learning disability services. Many people will experience a mental health problem at some point during their life and we all know that mental illness can affect anyone from any walk of life. Any reduction in provision, particularly in the provision of preventive treatment and early intervention, would be a false economy because it risks leading eventually to a mental health time bomb. It is likely that the incidence of mental health problems will increase as economic circumstances become more difficult. Minister, will you undertake to continue to give priority support to mental health provision during these difficult economic times?

Edwina Hart: Yes, you can have my guarantee on that. Currently, as you know, we ring-fence mental health funding and it is important that it is ring-fenced properly. Incidents were reported to me of certain moneys not being used for mental health projects as some of the LHBs were minded to move the funding into other areas. That will not occur again. The funding will stay within the mental health area. It is important to recognise that when there are economic problems, people are unhappy with their lives, they cannot move on and do things and, therefore, they get depressed and sometimes they require formal mental health interventions.

Lefelau Staffio

6. Brian Gibbons: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau staffio gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru. OAQ(3)1916(HSS)*

The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas): A report published by the Care Council for Wales on its website

chyflawni i rai pobl, ond rhaid inni gydnabod nad yw hynny'n wir yn achos y mwyafrif o bobl.

Leanne Wood: Weinidog, hoffwn eich canmol am eich cyhoeddiad diweddar y byddwch yn buddsoddi mwy na £1.5 miliwn o gyllid ychwanegol mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc a gwasanaethau anabledau dysgu. Bydd nifer o bobl yn profi problem iechyd meddwl ar ryw adeg yn ystod eu bywyd a gwyddom oll y gall salwch meddwl effeithio ar unrhyw un, o unrhyw gefndir. Ni fyddai unrhyw leihad yn y ddarpariaeth, yn enwedig o ran darparu triniaeth ataliol ac ymyrraeth gynnar, yn ddull gwirioneddol o arbed, oherwydd bod perygl iddo arwain yn y pen draw at ymddangosiad sefyllfa ddifrifol o ran iechyd meddwl. Mae'n debyg y bydd nifer yr achosion o broblemau iechyd meddwl yn cynyddu wrth i amgylchiadau economaidd ddod yn fwy anodd. Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i barhau i flaenoriaethu cymorth ar gyfer darpariaethau iechyd meddwl yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn?

Edwina Hart: Gwnaf; gallaf roi sicrwydd i chi yn hynny o beth. Ar hyn o bryd, fel y gwyddoch, yr ydym yn neilltuo cyllid iechyd meddwl ac mae'n bwysig ei fod yn cael ei neilltuo'n briodol. Rhoddwyd gwybod imi am achosion o beidio â gwario arian penodol ar brosiectau iechyd meddwl gan fod rhai o'r byrddau iechyd lleol yn bwriadu symud y cyllid i feysydd eraill. Ni fydd hynny'n digwydd eto. Bydd yr arian yn aros o fewn maes iechyd meddwl. Mae'n bwysig cydnabod, pan fydd problemau economaidd, fod pobl yn anhapus gyda'u bywydau, na allant symud ymlaen a gwneud pethau ac, felly, eu bod yn mynd i deimlo'n isel, ac weithiau mae angen ymyriadau iechyd meddwl ffurfiol arnynt.

Staffing Levels

6. Brian Gibbons: *Will the Minister make a statement on social worker staffing levels in Wales. OAQ(3)1916(HSS)*

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Gyngor Gofal

states that, at 31 March 2010, there were 3,265 whole-time equivalent social workers in the statutory sector. This was an increase of 143 WTE on 2008-09 and is projected to increase by 6 per cent, to 3,448, in 2014-15.

1.45 p.m.

Brian Gibbons: I will declare an interest as a number of my close family members are professionally involved in social work. That is excellent news. I have done a quick calculation and that represents almost a 50 per cent increase in the number of social workers since the beginning of 2000, which is a tribute to our substantial investment in social workers in Wales. In your report, 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action', you highlighted concerns about the overly bureaucratic nature of the assessment process, which means that social workers spend many demoralising hours in front of their computers, inputting data or being involved in fruitless paper chases, instead of working with clients. How is the Assembly Government going to give effect to that desirable policy statement?

Gwenda Thomas: I know that you have given the paper a lot of attention, Brian. In the paper, we commit to further professionalisation of the social care workforce. We are committed to sustainable social services integrated within local government. We are also committed to moving towards a uniform assessment process and the common eligibility criteria. All of this brought together will make more sense for social workers and will release their time. It is now up to local government to bring forward their blueprint for the delivery of that paper and I am looking forward to discussing their thoughts on that with them.

Andrew R.T. Davies: Deputy Minister, as we come towards the end of the Assembly, one of the things that comes up time and again in relation to the casework of social workers and the retention of social workers is the importance of being able to offer them

Cymru ar ei wefan yn nodi, ar 31 Mawrth 2010, fod 3,265 o weithwyr cymdeithasol cyfwerth ag amser llawn yn y sector statudol. Yr oedd hynny'n gynnydd o 143 swydd gyfwerth ag amser llawn ers 2008-09 ac mae disgwyl i'r nifer gynyddu 6 y cant, i 3,448, yn 2014-15.

Brian Gibbons: Yr wyf am ddatgan diddordeb gan fod nifer o aelodau o'm teulu agos yn ymwneud â gwaith cymdeithasol yn broffesiynol. Mae hynny'n newyddion ardderchog. Yr wyf wedi cyfrifo'n gyflym ac mae hynny'n gynnydd o bron 50 y cant yn nifer y gweithwyr cymdeithasol ers dechrau 2000, sy'n deyrnged i'n buddsoddiad sylweddol mewn gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Yn eich adroddiad, 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu', gwnaethoch amlygu pryderon am natur orfiwrocraidd y broses asesu, sy'n peri bod gweithwyr cymdeithasol yn treulio llawer o oriau torcalonnus o flaen eu cyfrifiaduron, yn mewnbynnu data neu'n chwilio am waith papur yn ofer, yn hytrach na gweithio gyda chleientiaid. Sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu'r datganiad polisi manteisiol hwnnw?

Gwenda Thomas: Gwn eich bod wedi rhoi llawer o sylw i'r papur, Brian. Yn y papur, yr ydym yn ymrwymo i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol ymhellach. Yr ydym wedi ymrwymo i wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy sydd wedi'u hintegreiddio o fewn llywodraeth leol. Yr ydym hefyd wedi ymrwymo i symud tuag at broses asesu unffurf a'r meini prawf cymhwyster cyffredin. Bydd hyn oll gyda'i gilydd yn gwneud mwy o synnwyr i weithwyr cymdeithasol a bydd yn rhyddhau eu hamser. Mae angen yn awr i lywodraeth leol gyflwyno'u cynlluniau ar gyfer cyflawni'r hyn sydd yn y papur ac rwy'n edrych ymlaen at drafod eu syniadau â hwy yn hynny o beth.

Andrew R.T. Davies: Ddirprwy Weinidog, wrth inni gyrraedd diwedd y Cynulliad, un o'r pethau sy'n codi dro ar ôl tro mewn perthynas â gwaith achos gweithwyr cymdeithasol a chadw gweithwyr cymdeithasol yw pwysigrwydd gallu cynnig

good training and career development opportunities in the workplace. Are you confident that in your time as Deputy Minister you have been able to address the concerns that the profession has put to you, and that the social workers of today have better career and training development opportunities than they did when you became Deputy Minister in 2007?

Gwenda Thomas: I am confident that there has been a significant improvement in training and the development of the workforce. I know that you will want to celebrate with me the fact that the view of the task group that I set up on workforce management and policy said that the workforce is not in crisis, and that significant progress has been made since the establishment of the National Assembly for Wales over a decade ago. That was reiterated by the independent commission on social services, which pointed to the beneficial effects of workforce regulation and the considerable strides that professional development has made. I think that we have achieved a lot, but there is more to do and 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' points to a clear pathway to achieving more.

Rhodri Glyn Thomas: Ddirprwy Weinidog, a fydddech yn cytuno bod temtasiwn i awdurdodau edrych tuag allan i ddarparu'r gwasanaethau hyn, yn hytrach na chadw'r gwasanaethau o fewn yr awdurdodau, er mwyn sicrhau budd tymor byr? I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cydweithredu ag awdurdodau lleol i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cadw o fewn yr awdurdodau a'u bod yn cael eu cyflwyno i'r safon uchaf posibl?

Gwenda Thomas: Yr ydym wedi ymrwymo i wasanaethau integredig o fewn llywodraeth leol. Mae fy safbwynt i wedi ei nodi yn y papur ar wasanaethau cymdeithasol a gyhoeddais ym mis Chwefror. Rhaid i ni gydnabod bod y sector annibynnol yn darparu 80 y cant o wasanaethau gofal. Mater i lywodraeth leol yw ffurfio'i marchnad leol a rhanbarthol, yn ôl anghenion ei phoblogaeth, ond mae'n hollbwysig bod gan bob darparwr le wrth y bwrdd partneriaeth. O fewn ethos

cyfleoedd da yn y gweithle i gael hyfforddiant a datblygu gyrfa. A ydych yn ffyddiog, yn eich amser fel Ddirprwy Weinidog, eich bod wedi gallu mynd i'r afael â'r pryderon y mae'r proffesiwn wedi'u cyflwyno ichi, a bod gan weithwyr cymdeithasol y dyddiau sydd ohoni well cyfleoedd datblygu o ran eu gyrfa a hyfforddiant nag a oedd ganddynt pan ddaethoch yn Ddirprwy Weinidog yn 2007?

Gwenda Thomas: Yr wyf yn hyderus y bu gwelliant sylweddol o ran hyfforddi a datblygu'r gweithlu. Gwn y byddwch am ddathlu gyda mi fod y grŵp gorchwyl a sefydlais ar bolisi a rheoli'r gweithlu wedi dweud nad yw'r gweithlu mewn argyfwng, a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros ddegawd yn ôl. Ategwyd hynny gan y comisiwn annibynnol ar wasanaethau cymdeithasol, a dynnodd sylw at effeithiau buddiol rheoleiddio'r gweithlu a'r camau sylweddol y mae datblygiad proffesiynol wedi'u cyflawni. Credaf ein bod wedi cyflawni llawer, ond mae rhagor i'w wneud ac mae 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' yn amlygu llwybr clir ar gyfer cyflawni rhagor.

Rhodri Glyn Thomas: Deputy Minister, would you agree that there is a temptation for authorities to look outwards for the provision of these services, instead of keeping the services in-house, in order to ensure short-term gains? To what extent is the Government of Wales trying to work with local authorities to ensure that these services are kept within those authorities and are provided to the highest possible standards?

Gwenda Thomas: We are committed to integrated services in local government. My viewpoint is noted in the paper on social services that I published in February. We must acknowledge that the independent sector provides 80 per cent of care services. It is a matter for local government to form its local and regional market, according to the needs of its population, but it is crucial that every provider has a place at the table of the partnership board. While maintaining a

cryf o wasanaethau cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod y sector annibynnol yn gallu chwarae rhan lawn yn y broses, ond ni allwn barhau i wneud popeth 22 o weithiau. Byddwn yn erfyn bod rhai gwasanaethau yn cael eu darparu yn rhanbarthol neu yn genedlaethol, neu, os yw'n angenrheidiol, byddwn yn gorfodi hynny, ond mae'n bwysig inni wneud y mwyaf o'n gallu i brynu yng Nghymru wrth weithredu gyda'n gilydd i wella gwasanaethau.

Gwasanaethau Cancer

7. Chris Franks: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau cancer yng Nghanol De Cymru. OAQ(3)1921(HSS)*

Edwina Hart: As I said to Lorraine, cancer remains one of our priorities. Based on the latest 2008-09 figures, South Wales Central has benefited from the £75 million spent on cancer services in Cardiff, the Vale, Rhondda Cynon Taf and Merthyr.

Chris Franks: Would you comment on the recent Macmillan Cancer Support report that warns that the number of people living with or after cancer in Wales is set to double over the next 20 years? It describes the current system as ill-equipped to deal with this increase. This clearly highlights the need for a national cancer plan. What support can be given to people suffering from cancer after they leave hospital?

Edwina Hart: I have had the opportunity to discuss this report at first hand with Macmillan. I am already implementing the majority of the report's suggestions. I am working with Macmillan on a care plan, because I know that the charity is looking forward to funding an all-Wales cancer information post that will help to address some of the concerns that you have raised. I also think that the cancer key worker will play a valuable role in supporting individual patients and meeting their information and support needs. Times have changed: cancer was once a life sentence; it is now about the management of a chronic disease.

strong ethos that services are public services, we will ensure that the independent sector can play a full part in the process, but we cannot continue to do everything 22 times. I would urge some services to be provided regionally or nationally, or, if necessary, I would compel that to happen, but it is important that we make the most of our buying power in Wales as we work together to improve services.

Cancer Services

7. Chris Franks: *Will the Minister provide an update on cancer services in South Wales Central. OAQ(3)1921(HSS)*

Edwina Hart: Fel y dywedais wrth Lorraine, mae cancer yn un o'n blaenoriaethau o hyd. Yn seiliedig ar ffigurau diweddaraf 2008-09, mae Canol De Cymru wedi elwa oherwydd y £75 miliwn a wariwyd ar wasanaethau cancer yng Nghaerdydd, y Fro, Rhondda Cynon Taf a Merthyr.

Chris Franks: A wnewch chi sylw ar adroddiad diweddar Cymorth Cancer Macmillan sy'n rhybuddio y bydd nifer y bobl sy'n byw gyda chanser neu ar ôl cael cancer yng Nghymru yn dyblu dros yr 20 mlynedd nesaf? Mae'n dweud nad yw'r system bresennol yn ddigonol i ymdrin â'r cynnydd hwn. Mae hyn yn amlygu'r angen am gynllun cancer cenedlaethol. Pa gymorth y gellir ei roi i bobl sy'n dioddef o ganser ar ôl iddynt adael yr ysbyty?

Edwina Hart: Yr wyf wedi cael cyfle i drafod yr adroddiad hwn yn uniongyrchol â Macmillan. Yr wyf eisoes yn gweithredu mwyafrif yr awgrymiadau yn yr adroddiad. Rwy'n gweithio gyda Macmillan ar gynllun gofal, oherwydd gwn fod yr elusen yn edrych ymlaen at ariannu swydd gwybodaeth am ganser Cymru gyfan a fydd yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon y gwnaethoch eu crybwyll. Credaf hefyd y bydd y gweithiwr cancer allweddol yn chwarae rôl werthfawr wrth gefnogi cleifion unigol a bodloni eu hanghenion o ran gwybodaeth a chymorth. Mae'r oes wedi newid: yr oedd cancer yn ddedfryd oes ar un adeg; bellach mae'n ymwneud â rheoli clefyd cronig.

David Melding: Prostate cancer is the most common cancer in men and it is currently prostate cancer awareness month. I am sure that you would want to commend the work to raise awareness of this very common condition, especially in middle-aged and older men. Have you been impressed, as I have, with the recent scientific advances in blood testing for prostate cancer? It is now feasible to offer screening for prostate cancer to men over the age of 50. Is the Government likely to move in that direction?

Edwina Hart: As I have indicated to you, if we were to move nationally on screening, we would definitely move. I am aware of the research and the representations that have been made to me, and I will be asking officials to look at this issue.

Rhodri Morgan: During a visit to see the new PET scanner at the University Hospital of Wales earlier this week, I was struck by the extraordinary difficulties faced by the Minister, and Ministers for health elsewhere, in trying to estimate the true demand for a new advance in scientifically based health treatments for cancer. At the time of its original commissioning, the estimate for the PET scanner was about 1,000 referrals a year, because that was the number of patients from south and mid Wales who used the charity-run PET scanner in Cheltenham. However, once the PET scanner in Wales was in situ, referrers realised that there was a wonderful treatment available here, avoiding unnecessary intervention by way of chemotherapy and radium therapy, so many more referrals were made. So, even though only 1,000 patients a year went from south and mid Wales to Cheltenham, it is now estimated that 2,000 patients a year will wish to use the PET scanner that is now available in Cardiff. I sympathise with the Minister, but, somehow or other, she has to cope with the difference between expressed demand, when it was outside Wales, and latent demand now that it is available in Wales. The PET scanner can lead to avoiding unnecessary treatment, and can pinpoint the treatment that is necessary by way of radium

David Melding: Canser y prostad yw'r cancer mwyaf cyffredin ymhlith dynion ac mae'n fis ymwybyddiaeth canser y prostad ar hyn o bryd. Rwy'n siŵr y byddech am ganmol y gwaith i godi ymwybyddiaeth am y cyflwr cyffredin iawn hwn, yn enwedig ymhlith dynion canol oed neu'n hŷn. A yw'r datblygiadau gwyddonol diweddar o ran cynnal profion gwaed i ganfod canser y prostad wedi creu argraff arnoch, fel y gwnaethant arnaf i? Mae modd bellach cynnig gwasanaeth sgrinio i ddynion dros 50 oed i ganfod canser y prostad. A yw'r Llywodraeth yn debygol o symud i'r cyfeiriad hwnnw?

Edwina Hart: Fel y dywedais wrthyich, pe baem yn symud yn genedlaethol yng nghyswllt sgrinio, byddem yn bendant yn symud. Gwn am y gwaith ymchwil ac am y sylwadau a wnaed imi, a byddaf yn gofyn i swyddogion ystyried y mater hwn.

Rhodri Morgan: Yn ystod ymweliad i weld y sganiwr PET newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn gynharach yr wythnos hon, sylweddolais fod anawsterau rhyfeddol yn wynebu'r Gweinidog, a Gweinidogion iechyd mewn manau eraill, wrth geisio amcangyfrif y gwir alw am ddatblygiad newydd mewn triniaethau iechyd sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ar gyfer canser. Pan gafodd ei gomisiynu'n wreiddiol, amcangyfrifwyd y byddai tua 1,000 o atgyfeiriadau y flwyddyn i'r sganiwr PET, oherwydd dyna oedd nifer y cleifion o dde a chanolbarth Cymru a oedd yn defnyddio'r sganiwr PET sy'n cael ei redeg gan elusen yn Cheltenham. Fodd bynnag, ar ôl gosod y sganiwr PET yng Nghymru, sylweddolodd y bobl sy'n trefnu'r atgyfeiriadau bod triniaeth wych ar gael yma, gan osgoi ymyrraeth ddiangen drwy gyfrwng cemotherapi a therapi radiwm; felly, gwnaed llawer mwy o atgyfeiriadau. Felly, er mai dim ond 1,000 o gleifion y flwyddyn oedd yn mynd o dde a chanolbarth Cymru i Cheltenham, amcangyfrifir bellach y bydd 2,000 o gleifion y flwyddyn yn dymuno defnyddio'r sganiwr PET sydd ar gael yng Nghaerdydd erbyn hyn. Yr wyf yn cydymdeimlo â'r Gweinidog, ond, rywsut neu'i gilydd, rhaid iddi ymdopi â'r gwahaniaeth rhwng y galw a fynegwyd, pan oedd y sganiwr y tu allan i Gymru, a'r galw

therapy or chemotherapy.

Edwina Hart: I am glad that you enjoyed your visit to the PET scanner; I am sure that you were heavily lobbied about its use by the clinicians who were there, judging by the nature of your question. It is a catch-22 situation. Officials give advice on why you should make an investment and how many patients are likely to use it, but I do not think that the health service is necessarily good at horizon scanning. Once something is available, it creates demand and more people will want to take advantage of it. We have to do more work in that area. At the end of the day, it is a very successful investment that has been very well received. It is important that we have the most up-to-date equipment available in Wales. The saddest thing for me sometimes as Minister is that when I go to open a new facility with new equipment, the clinicians tell me that newer models are already on the market. We are always playing catch-up with equipment in this field.

Jenny Randerson: Minister, a constituent came to me recently concerned about how long she had to wait for her cancer treatment. I looked at the statistics in detail and the latest statistics show that for patients newly diagnosed with cancer via the urgent suspected cancer route, for whom the target is that they should be seen and start treatment within two months, only 82 per cent of those with head and neck cancers are seen within that time, and, under the other category in the statistics, rare cancers, only 74 per cent are seen within that time. Your target is that 95 per cent should be seen within that time. Do you agree that there is considerable room for improvement on this throughout Wales and do you also agree with the recent Macmillan report that more efficient use of resources would enable more co-ordinated and more effective treatment of cancer throughout Wales?

cudd, o ystyried ei fod ar gael bellach yng Nghymru. Gall y sganiwr PET arwain at osgoi triniaeth ddiangen, a gall ddod o hyd i'r driniaeth y mae ei hangen drwy gyfrwng therapi radiwm neu gemotherapi.

Edwina Hart: Yr wyf yn falch eich bod wedi mwynhau eich ymweliad â'r sganiwr PET; yr wyf yn siŵr bod y clinigwyr a oedd yno wedi eich llobio gryn dipyn ynghylch ei ddefnyddio, a barnu yn ôl eich cwestiwn. Mae'n sefyllfa *catch-22*. Mae swyddogion yn rhoi cyngor ynghylch pam y dylech fuddsoddi a faint o gleifion sy'n debygol o'i ddefnyddio, ond nid wyf yn credu bod y gwasanaeth iechyd o reidrwydd yn rhagamcanu'n dda. Unwaith y bydd rhywbeth ar gael, mae'n creu galw a bydd mwy o bobl am gymryd mantais ohono. Mae'n rhaid inni wneud mwy o waith yn y maes hwnnw. Yn y pen draw, mae'n fuddsoddiad llwyddiannus iawn sydd wedi cael ymateb da iawn. Mae'n bwysig bod gennym y cyfarpar mwyaf diweddar sydd ar gael yng Nghymru. Yr hyn sy'n peri'r tristwch mwyaf i mi weithiau fel Gweinidog yw mynd i agor cyfleuster newydd sydd ag offer newydd a chlywed gan y clinigwyr fod modelau mwy newydd eisoes ar gael. Yr ydym wastad mewn sefyllfa o geisio bod ar yr un lefel â'r offer yn y maes hwn.

Jenny Randerson: Weinidog, daeth etholwr ataf yn ddiweddar a oedd yn bryderus ynghylch pa mor hir y bu'n rhaid iddi aros am ei thriniaeth canser. Edrychais ar yr ystadegau'n fanwl ac mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos, yn achos cleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser drwy'r llwybr brys i gleifion y credir bod ganddynt ganser—y dylid eu gweld a dechrau eu triniaeth o fewn deufis, yn ôl y targed—mai dim ond 82 y cant o'r rhai sydd â chanser y pen a'r gwddf sy'n cael eu gweld o fewn y cyfnod hwnnw, ac, yn y dosbarth arall yn yr ystadegau, sef canser prin, dim ond 74 y cant sy'n cael eu gweld o fewn y cyfnod hwnnw. Eich targed chi yw y dylai 95 y cant gael eu gweld o fewn y cyfnod hwnnw. A ydych yn cytuno bod cryn le i wella yn y maes hwn ledled Cymru ac a ydych yn cytuno hefyd ag adroddiad diweddar Macmillan y byddai defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon yn ei gwneud yn bosibl trin canser mewn modd mwy cydlynol ac effeithiol ledled Cymru?

Edwina Hart: I very much agree with some of the comments made in the Macmillan report. With regard to performance data, performance on the 31-day target continues to be way above 95 per cent at 98 per cent. Performance on the 62-day target is variable, and is around 91 per cent. It is sometimes a very small number of patients that causes that variation. However, I accept that that is not an acceptable answer if you are a patient, and it is my aim to strive to achieve the target, particularly for rare cancers and the cancers that you alluded to.

Edwina Hart: Yr wyf yn cytuno'n fawr â rhai o'r sylwadau a wnaed yn adroddiad Macmillan. O ran data am berfformiad, mae'r perfformiad yn ôl y targed 31 diwrnod yn parhau i fod yn llawer uwch na 95 y cant; 98 y cant ydyw. Mae'r perfformiad yn ôl y targed 62 diwrnod yn amrywio; tua 91 y cant ydyw. Weithiau, nifer fach iawn o gleifion sy'n achosi'r amrywiad hwnnw. Fodd bynnag, rwy'n derbyn nad yw hynny'n ateb derbyniol os ydych yn glaf, a fy nod yw ymdrechu i gyrraedd y targed, yn enwedig yn achos canser prin a'r canserau y cyfeiriasoch atynt.

Gwasanaethau GIG yn Aberconwy

NHS Services in Aberconwy

8. Gareth Jones: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae ymrwymadau Cymru'n Un wedi gwella gwasanaethau'r GIG yn Aberconwy. OAQ(3)1922(HSS)*

8. Gareth Jones: *Will the Minister make a statement on how the One Wales commitments have improved NHS services in Aberconwy. OAQ(3)1922(HSS)*

Edwina Hart: The commitments of the One Wales Government have benefited all the people of Wales, including your constituents in Aberconwy. You only have to look at such initiatives as free prescriptions, the development of the rural health plan, which will come to fruition in the next few years, and our work on child poverty and improved services for stroke and diabetes to see that. They will all make a real difference to the health of people in Wales and their long-term futures.

Edwina Hart: Mae ymrwymadau Llywodraeth Cymru'n Un wedi bod o fudd i holl bobl Cymru, gan gynnwys eich etholwyr yn Aberconwy. Edrychwch ar fentrau fel presgripsiynau am ddim, datblygiad y cynllun iechyd gwledig, a fydd yn dwyn ffrwyth yn y blynyddoedd nesaf, a'n gwaith ar dlodi plant a gwasanaethau gwell ar gyfer cleifion strôc a diabetes, ac fe welwch hynny. Byddant oll yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i iechyd pobl yng Nghymru a'u dyfodol hirdymor.

Gareth Jones: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Croesawaf yn fawr y newyddion a gyhoeddwyd wythnos diwethaf fod Llywodraeth Cymru'n rhyddhau'r cyfalaf angenrheidiol—tua £49 miliwn—i symud ymlaen i ystyried yr achos busnes penodol dros ailddatblygu ysbyty Llandudno. Mae'n achos sy'n agos iawn at fy nghalon, yn fuddugoliaeth i bobl Llandudno a'r ardal ehangach ac yn fuddsoddiad hynod o bwysig mewn gwasanaethau meddygol. Bydd hefyd yn creu swyddi newydd ac yn darparu hwb i'r economi leol. Ni fyddaf yn y Cynulliad nesaf i swnian mwy arnoch, nac ar bwy bynnag a allai eich olynu fel Gweinidog dros iechyd, am y prosiect hwn. Felly, a fedrwch roi syniad i ni o'r amserlen debygol ar gyfer cwblhau'r prosiect hwn yn llwyddiannus?

Gareth Jones: Thank you for that answer, Minister. I very much welcome the news announced last week that the Government of Wales is releasing the necessary capital—about £49 million—to move on to consider the specific business case for the redevelopment of Llandudno hospital. It is a matter that is close to my heart, a victory for the people of Llandudno and the surrounding area and an extremely important investment in medical services. It will also create new jobs and boost the local economy. I will not be in the next Assembly to keep on at you, or whoever might succeed you as Minister for health, about this project. Therefore, can you give us an indication of the likely timetable for the successful completion of this project?

Edwina Hart: We are all aware of how you

Edwina Hart: Gwyddom oll eich bod wedi

have championed the cause of Llandudno hospital and the need for the appropriate resources to be put in place there. I am pleased to say that the Betsi Cadwaladr University Local Health Board is currently developing the strategic outline case, looking at the capital, revenue and timescale implications with regard to the development of the hospital. The full business case will then be submitted and the aim is to start work on the site in 2013, which is good news for your constituents.

Mark Isherwood: Many stroke patients in Aberconwy will have received in-patient and out-patient treatment at HM Stanley Hospital, which, as we know, is closing. The health board tells us that this is because the fabric of the building is not good enough and that the services are being moved to a more appropriate facility. How would you respond to concerns raised with me by a constituent who cares for his wife, a stroke survivor, that, apparently, the only people who are moving to new premises are those in the finance department and that the stroke in-patient ward, which, in HM Stanley Hospital, was specifically constructed as a stroke unit in 1983, is being moved to a ward in Glan Clwyd Hospital that, in his words—which are perhaps a bit extreme—is more akin to a prison than to a place for people recovering from a traumatic experience, in that they cannot even see out of the windows, and will not provide the tranquil atmosphere of the building currently used, which is of a newer construction?

2.00 p.m.

Edwina Hart: I can assure you that we are making great strides in the development of stroke services, and I am very pleased with the progress made in the majority of areas. I would hate for anything in the national health service to be described as a prison, and I have to say that I do not believe that that remark can in any shape or form be acceptable. Let me make it clear that some of these are operational matters for the LHB, but, at the end of the day, we want the best for our stroke victims. We want them to have the best treatment available within the timescales, and the best follow-up treatment. That is what we are aiming for as a

hyrwyddo achos ysbyty Llandudno a'r angen i roi adnoddau priodol ar waith yno. Rwy'n falch o ddweud bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wrthi'n datblygu'r achos amlinellol strategol, gan edrych ar y goblygiadau o ran yr amserlen, referniw a chyfalaf yng nghyswllt datblygu'r ysbyty. Yna, bydd yr achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno a'r nod yw dechrau gwaith ar y safle yn 2013, sy'n newyddion da i'ch etholwyr.

Mark Isherwood: Bydd llawer o gleifion strôc yn Aberconwy wedi cael triniaeth ar gyfer cleifion mewnol a chleifion allanol yn Ysbyty HM Stanley, sydd, fel y gwyddom, yn cau. Dywed y bwrdd iechyd mai'r rheswm am hyn yw nad yw adeiladwaith yr adeilad yn ddigon da a bod y gwasanaethau'n cael eu symud i gyfleuster mwy priodol. Sut y byddech yn ymateb i bryderon y bu etholwr sy'n gofalu am ei wraig, a orosodd strôc, yn eu crybwyll wrthyf, sef ei bod yn ymddangos mai'r unig bobl sy'n symud i safle newydd yw'r rhai yn yr adran gyllid, a bod y ward strôc i gleifion mewnol, a adeiladwyd yn Ysbyty HM Stanley ym 1983 yn benodol i fod yn uned strôc, yn cael ei symud i ward yn Ysbyty Glan Clwyd sydd, yn ei eiriau ef—sydd efallai ychydig yn eithafol—yn debycach i garchar nag i le ar gyfer pobl sy'n gwella ar ôl profiad trawmatig, gan na allant hyd yn oed edrych allan drwy'r ffenestri, ac na fydd yn darparu'r awyrgylch tawel a geir yn yr adeilad a ddefnyddir ar hyn o bryd, sy'n adeilad mwy newydd?

Edwina Hart: Gallaf eich sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd mawr yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau strôc, ac yr wyf yn falch iawn o'r cynnydd a wnaed yn y mwyafrif o feysydd. Byddai'n gas gennyf pe bai unrhyw beth yn y gwasanaeth iechyd gwladol yn cael ei debygu i garchar, ac mae'n rhaid imi ddweud nad wyf yn credu y gall y sylw hwnnw fod yn dderbyniol o gwbl. Gadewch imi ei gwneud yn glir bod rhai o'r rhain yn faterion gweithredol ar gyfer y BILL, ond, yn y pen draw, mae arnom eisiau'r gorau i bobl sy'n dioddef strôc. Rydym am iddynt gael y driniaeth orau sydd ar gael o fewn y terfynau amser, a'r ôl-driniaeth orau.

Government.

I have taken criticism in committee on what we have and have not done with regard to stroke. We have started to make the necessary improvements, and I am pleased that we as a Government have done so.

Amseroedd Ymateb Ambiwylansys

9. William Graham: *A wnaiiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yn Nwyrain De Cymru. OAQ(3)1960(HSS)*

Edwina Hart: Ambulance response times in the south-east, and across Wales, must be considered in the context of the pressure that services were under during the winter period. As a result of their efforts, services were maintained in very difficult circumstances. We are working with the Welsh Ambulance Services NHS Trust to ensure that performance is improving. It is gradually improving in some areas now.

William Graham: Clearly, one appreciates the enormous efforts made by the staff during the persistent inclement weather. I acknowledge that the figures are getting slightly better, but I know that they have been a great cause of concern for you in the past. Could you give us the outline of a timescale for improvement, because this matter creates an awful lot of concern for people throughout south-east Wales?

Edwina Hart: We have looked at the management data to February, and they show that the trust has achieved results in excess of 65 per cent against the eight-minute target, but not even that is good enough. We will have to work a lot harder to deal with the issues. Of course, we have a campaign to help people to understand when they should and should not ring for an ambulance. Having said that, the major problems for the ambulance service still lie with the management of accident and emergency departments. You are concerned about the situation in the Royal Gwent Hospital, and

Dyna yr ydym yn anelu ato fel Llywodraeth.

Cyflwynwyd beirniadaeth imi mewn cyfarfod pwyllgor ynglŷn â'r hyn yr ydym wedi ei wneud a'r hyn nad ydym wedi ei wneud mewn perthynas â strôc. Rydym wedi dechrau gwneud y gwelliannau angenrheidiol, ac yr wyf yn falch ein bod ni fel Llywodraeth wedi gwneud hynny.

Ambulance Response Times

9. William Graham: *Will the Minister make a statement on ambulance response times in South Wales East. OAQ(3)1960(HSS)*

Edwina Hart: Rhaid ystyried amseroedd ymateb ambiwlansys yn y de-ddwyrain, a ledled Cymru, yng nghyd-destun y pwysau a oedd ar wasanaethau dros y gaeaf. O ganlyniad i'w hymdrechion, cafodd gwasanaethau eu cynnal mewn amgylchiadau anodd iawn. Rydym yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i sicrhau bod perfformiad yn gwella. Mae'n cael ei wella'n raddol mewn rhai ardaloedd yn awr.

William Graham: Yn amlwg, gwerthfawrogir yr ymdrechion enfawr a wneir gan y staff yn ystod y tywydd garw parhaus. Rwy'n cydnabod bod y ffigurau yn gwella ychydig, ond yr wyf yn gwybod eu bod wedi bod yn destun pryder mawr ichi yn y gorffennol. A allech roi amlinelliad inni o amserlen ar gyfer gwella, gan fod y mater hwn yn creu llawer iawn o bryder i bobl ledled de-ddwyrain Cymru?

Edwina Hart: Yr ydym wedi edrych ar y data rheoli hyd at fis Chwefror, ac maent yn dangos bod yr ymddiriedolaeth wedi cyrraedd y targed wyth munud mewn dros 65 y cant o achosion, ond nid yw hyd yn oed hynny yn ddigon da. Byddwn yn gorfod gweithio'n llawer caletach i fynd i'r afael â'r materion. Wrth gwrs, mae gennym ymgyrch i helpu pobl i ddeall pryd y dylent ffonio am ambiwlans a phryd na ddylent. Wedi dweud hynny, mae'r problemau mawr o safbwynt y gwasanaeth ambiwlans yn parhau i ymwneud â'r modd y rheolir adrannau damweiniau ac achosion brys. Yr ydych yn pryderu am y

Members will be aware that I have written about the position with regard to Morrision Hospital. I am pleased to advise Members that we now have a very senior nurse—we could probably call her a modern matron—and a senior clinician going into Morrision Hospital to manage that part of the hospital to ensure that we see improvements. I expect to see the Royal Gwent Hospital looking at the same type of arrangements to ensure the necessary improvements there.

sefyllfa yn Ysbyty Brenhinol Gwent, a bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi ysgrifennu am y sefyllfa o ran Ysbyty Treforys. Yr wyf yn falch o hysbysu'r Aelodau bod nyrs sydd mewn swydd uchel iawn—gallem yn ôl pob tebyg ei galw'n fetron yr oes fodern—ac uwch-glinigydd yn mynd i Ysbyty Treforys i reoli'r rhan honno o'r ysbyty i sicrhau ein bod yn gweld gwelliannau. Yr wyf yn disgwyl gweld Ysbyty Brenhinol Gwent yn ystyried yr un math o drefniadau i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud yno.

The Presiding Officer: Thank you, Minister. **Y Llywydd:** Diolch ichi, Weinidog.

Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport

Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

1. Eleanor Burnham: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithlonrwydd rhwydwaith rheilffyrdd Cymru. OAQ(3)1869(ECT)*

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): We are working with Network Rail to improve the efficiency of the railway network in Wales, including plans to redouble the line between Wrexham and Chester and between Gowerton and Loughor.

Eleanor Burnham: This may well be my last chance to ask a question on the railways during this Assembly—who knows what will happen beyond May?

I realise that the last decade saw an enormous amount of money invested in the railways, but I have to tell you, Deputy First Minister, that my concern, as a Member who represents the whole of North Wales, is about the lack of value for money. The class 158 trains remind me of Thomas the Tank Engine as they hobble into the station, and I have constantly bored everybody about the state of the lavatories. Nonetheless, I was on a train journey from Holyhead to Chester recently, and it was obviously the train that links up to

The Railway Network

1. Eleanor Burnham: *Will the Minister make a statement on the efficiency of Wales' railway network. OAQ(3)1869(ECT)*

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Yr ydym yn gweithio gyda Network Rail i wella effeithlonrwydd y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys cynlluniau i ddyblu'r rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer a rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchwr.

Eleanor Burnham: Mae'n bosibl mai hwn fydd fy nghyfle olaf i ofyn cwestiwn am y rheilffyrdd yn ystod y Cynulliad hwn—pwy a w'yr beth fydd yn digwydd ar ôl mis Mai?

Yr wyf yn sylweddoli bod swm enfawr o arian wedi cael ei fuddsoddi yn y rheilffyrdd yn y degawd diwethaf, ond rhaid imi ddweud wrthy ch, Ddirprwy Brif Weinidog, fod fy mhryder i, Aelod sy'n cynrychioli pob rhan o Ogledd Cymru, yn ymwneud â diffyg gwerth am arian. Mae'r trenau dosbarth 158 yn fy atgoffa o Tomos y Tanc wrth iddynt hercian i mewn i'r orsaf, ac yr wyf wedi diflasu pawb yn gyson wrth sôn am gyflwr y toiledau. Serch hynny, yr oeddwn ar daith trên o Gaergybi i Gaer yn ddiweddar, ac yr oedd yn

the ferry from Ireland. I think that it was a class 175 train, so you would expect a bit better, but they do not have a lot of room for people coming over from Ireland to store a lot of luggage, particularly large pieces of luggage. Quite frankly, I was ashamed. I spoke to somebody I knew, who told me that it was always the same in that particular train. It was shameful. I wonder, Deputy First Minister, whether you really have had best value for money for the rolling stock. I understand that you have done your best, and I understand your sincerity in the matter, but I question the strategy. Quite frankly, I hope that the next Assembly takes this matter a little bit more seriously than it has done during our time here. For the long-suffering long-distance traveller, the journey from north to south Wales is still perilous. Quite frankly, I cannot say that yesterday's power failure was your problem, but that was a travesty for people coming to Cardiff. The strike is another travesty—

The Presiding Officer: Order. I have allowed an urgent question on this matter. It might be helpful if you allowed the Deputy First Minister to respond to your question.

Eleanor Burnham: This might be my last chance.

The Presiding Officer: Order. There is no such thing as a last chance here.

Galwaf ar y Dirprwy Brif Weinidog.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Wel—*[Torri ar draws.]*

Eleanor Burnham: Presiding Officer, I hope that you are a little more magnanimous towards me than you were yesterday. *[ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']*

Deputy First Minister, my question is: what will you claim to be your legacy, in relation to the improvements that we do not see, particularly on north-south links? Quite frankly, I think that this is a complete

amlwg mai'r trê'n sy'n cysylltu â'r fferi o Iwerddon ydoedd. Rwy'n credu mai trê'n dosbarth 175 ydoedd, felly byddech yn disgwyl ychydig yn well, ond nid oes ganddynt lawer o le i bobl sy'n dod drosodd o Iwerddon gadw llawer o fagiau, yn enwedig bagiau mawr. A dweud y gwir, yr oedd gen i gywilydd. Siaradais â rhywun yr oeddwn i'n ei adnabod, a ddywedodd wrthyf fod pethau bob amser yr un fath yn y trê'n penodol hwnnw. Yr oedd yn gywilyddus. Tybed a ydych mewn gwirionedd wedi cael y gwerth gorau am arian yn achos y cerbydau, Ddirprwy Brif Weinidog. Deallaf eich bod wedi gwneud eich gorau, ac yr wyf yn deall eich didwylledd yn y mater, ond yr wyf yn amau'r strategaeth. A dweud y gwir, yr wyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad nesaf yn cymryd y mater hwn ychydig yn fwy o ddifrif nag y mae wedi ei wneud yn ystod ein hamser yma. I'r teithiwr hiramyneddgar sy'n teithio dros bellteroedd hir, mae'r daith o'r gogledd i'r de yn dal yn un enbyd. A dweud y gwir, ni allaf ddweud mai eich problem chi oedd y methiant pŵer ddoe, ond yr oedd yn warth i bobl a oedd yn teithio i Gaerdydd. Mae'r streic yn warth arall—

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf wedi caniatáu cwestiwn brys ar y mater hwn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe baech yn caniatáu i'r Dirprwy Brif Weinidog ymateb i'ch cwestiwn.

Eleanor Burnham: Efallai mai dyma fydd fy nghyfle olaf.

Y Llywydd: Trefn. Nid oes y fath beth â chyfle olaf yma.

I call on the Deputy First Minister.

The Deputy First Minister: Well—*[Interruption.]*

Eleanor Burnham: Lywydd, yr wyf yn gobeithio y byddwch ychydig yn fwy hael tuag ataf nag yr oeddech ddoe. *[AELODAU'R CYNULLIAD: 'O'.]*

Ddirprwy Brif Weinidog, fy nghwestiwn yw: beth y byddwch yn honni yw eich gwaddol, mewn perthynas â'r gwelliannau nad ydym yn eu gweld, yn enwedig o ran cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de? A dweud y gwir,

shambles, which does not help people. When you consider that we want to encourage people to travel on our trains across Wales—

The Presiding Officer: Order. Neither I nor anyone else who sits in this chair are here to be magnanimous. We are here to be fair to every Assembly Member and each party. I hope that that will continue. I call on the Deputy First Minister.

The Deputy First Minister: I understand that Eleanor wanted to make a number of points in asking what she said might be her final question. I am afraid that I do not recognise the kind of service that she recognises from north to south Wales. Eleanor failed to point out that this Minister has been able to introduce, for the first time, express services between north and south Wales—and not just one service, but two. The new service, which she did not even acknowledge, will stop in Wrexham.

I want to make another point. During this Government's time in office, not only has rail transport in north Wales improved, but passenger numbers have also increased substantially in the last four years, which means that we must be doing something right. Therefore, would passengers recognise Eleanor Burnham's description of our train services or the description given by the Deputy First Minister? I can tell Eleanor that not only have we improved the service, but, given that we will be investing in dualling the track between Wrexham and Chester, express services will be even better. That is the legacy that we will be leaving the people of Wales.

Chris Franks: Thank you for that excellent answer, Deputy First Minister. *[Interruption.]*

Deputy First Minister, could I ask you about yesterday's power surge, which brought the south Wales rail network to a standstill? What discussions have you had regarding the stoppage, which, according to business leaders, could have cost the economy millions? What advice—

credaf fod hyn yn llanastr llwyr, nad yw'n helpu pobl. Pan ystyriwch ein bod am annog pobl i deithio ar ein trenau ar draws Cymru—

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf fi na neb arall sy'n eistedd yn y gadair hon yma i fod yn hael. Rydym yma i fod yn deg i bob Aelod o'r Cynulliad a phob plaid. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n parhau. Galwaf ar y Dirprwy Brif Weinidog.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn deall bod Eleanor yn awyddus i wneud nifer o bwyntiau wrth ofyn yr hyn y dywedodd y gallai fod ei chwestiwn olaf. Mae arnaf ofn nad wyf yn gyfarwydd â'r math o wasanaeth y mae hi'n gyfarwydd ag ef o'r gogledd i'r de. Methodd Eleanor â nodi bod y Gweinidog hwn wedi gallu cyflwyno, am y tro cyntaf, wasanaethau cyflym rhwng y gogledd a'r de—ac nid un gwasanaeth yn unig, ond dau. Bydd y gwasanaeth newydd—ac ni wnaeth hyd yn oed cydnabod hyn—yn galw yn Wrecsam.

Hoffwn wneud pwynt arall. Yn ystod y cyfnod y bu'r Llywodraeth hon mewn grym, nid yn unig y mae trafnidiaeth rheilffyrdd yng ngogledd Cymru wedi gwella, ond mae nifer y teithwyr wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pedair blynedd diwethaf, felly mae'n rhaid ein bod yn gwneud rhywbeth yn iawn. Felly, a fyddai teithwyr yn cytuno â disgrifiad Eleanor Burnham o'n gwasanaethau trên neu'r disgrifiad a roddwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog? Gallaf ddweud wrth Eleanor nid yn unig ein bod wedi gwella'r gwasanaeth, ond, o gofio y byddwn yn buddsoddi mewn gwaith i ddeuoli'r trac rhwng Wrecsam a Chaer, y bydd y gwasanaethau cyflym hyd yn oed yn well. Dyna'r gwaddol y byddwn yn ei adael i bobl Cymru.

Chris Franks: Diolch ichi am yr ateb ardderchog hwnnw, Ddirprwy Brif Weinidog. *[Torri ar draws.]*

Ddirprwy Brif Weinidog, a gaf ofyn ichi am ymchwydd pŵer ddoe, a barodd i drenau rhwydwaith rheilffyrdd de Cymru stopio'n stond? Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ynghylch y ffaith i drenau stopio, a allai fod wedi costio miliynau i'r economi, yn ôl arweinwyr busnes? Pa gyngor—

The Presiding Officer: Order. An urgent question has been allowed on this matter, on which I will call you.

Mark Isherwood: Deputy First Minister, you referred earlier to the two fast north-south train links. When the first one was launched, Wrexham County Borough Council proposed to you that the stop in Wrexham should be accommodated, and I was told that you did not respond to that proposal. I welcome the fact that you have accommodated Wrexham in the second fast north-south rail link. However, concern has been expressed that this has resulted in the 7.15 a.m. service from Holyhead to Birmingham being rerouted via Crewe instead of Wrexham, meaning that people in Rhiwabon, Chirk and Gobowen are no longer able to access that service. Meanwhile, the first fast service will continue to go via Crewe instead of Wrexham. How do you respond to the information that has been given to me that Taith submitted a proposal to you that would have accommodated Wrexham in a way that was not at the expense of the Rhiwabon, Chirk and Gobowen services, and that the service could have accommodated both trains calling at north-east Wales stations?

The Deputy First Minister: The point that I need to make is this: in order to provide a good express service, those services have to be in addition to existing timetabled services. The problem with providing these services is that you must find slots for them. Moreover, you must recognise the massive constraint imposed by the fact that the track between Wrexham and Chester—a key part of the journey—is a single track. Therefore, you cannot run trains both ways at particular times of the day. You have to find a slot.

I recognise that there have been many people lobbying for these services to go via Wrexham, so I wanted to ensure that the second service did just that. Rather than welcoming it, everyone seems to be suggesting that we have done it at the

Y Llywydd: Trefn. Mae cwestiwn brys wedi cael ei ganiatáu ar y mater hwn, ac fe'ch galwaf i siarad arno.

Mark Isherwood: Ddirprwy Brif Weinidog, cyfeiriasoch yn gynharach at y ddau gysylltiad trên cyflym o'r gogledd i'r de. Pan lanswyd yr un cyntaf, cynigiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i chi y dylid cynnwys yr orsaf yn Wrecsam, a dywedwyd wrthyf nad oeddech wedi ymateb i'r cynnig hwnnw. Croesawaf y ffaith eich bod wedi cynnwys Wrecsam yn yr ail gysylltiad rheilffordd cyflym rhwng y gogledd a'r de. Fodd bynnag, mynegwyd pryder bod hyn wedi arwain at ailgyfeirio'r gwasanaeth am 7.15 y bore sy'n mynd o Gaergybi i Birmingham drwy Crewe yn hytrach na Wrecsam, sy'n golygu nad yw pobl yn Rhiwabon, y Waun a Gobowen bellach yn gallu defnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Yn y cyfamser, bydd y gwasanaeth cyflym cyntaf yn parhau i fynd drwy Crewe yn hytrach na Wrecsam. Sut yr ydych yn ymateb i'r wybodaeth a roddwyd i mi fod Taith wedi cyflwyno cynnig i chi a fyddai wedi cynnwys Wrecsam mewn modd nad oedd ar draul gwasanaethau Rhiwabon, y Waun a Gobowen, ac y gallai'r gwasanaeth fod wedi cynnwys y ddau drên yn galw yng ngorsafydd gogledd-ddwyrain Cymru?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Y pwynt y mae'n rhaid imi ei wneud yw: er mwyn darparu gwasanaeth cyflym da, rhaid i'r gwasanaethau hynny fod yn ychwanegol at y gwasanaethau sydd ar yr amserlen bresennol. Y broblem o ran darparu'r gwasanaethau hyn yw bod rhaid ichi ddod o hyd i slotiau ar eu cyfer. Ar ben hynny, mae'n rhaid ichi gydnabod y cyfyngiad enfawr a osodir gan y ffaith bod y trac rhwng Wrecsam a Chaer—sef rhan allweddol o'r daith—yn drac sengl. Felly, ni allwch redeg trenau y ddwy ffordd ar adegau penodol o'r dydd. Mae'n rhaid ichi ddod o hyd i slot.

Yr wyf yn cydnabod bod llawer o bobl wedi llobio ynghylch trefnu i'r gwasanaethau hyn alw yn Wrecsam, felly yr oeddwn am sicrhau bod yr ail wasanaeth yn gwneud hynny. Yn hytrach na'i groesawu, ymddengys fod pawb yn awgrymu ein bod wedi gwneud hynny ar

expense of something else. Well, you cannot have everything in life. There are hard decisions that have to be made. Would you have preferred it had the service not gone via Wrexham, thereby rerouting the other train? You cannot have both. Unfortunately, that is a fact of life. However, I can say that, due to the foresight of this Government, when the track from Wrexham to Chester is doubled, none of these problems will arise.

draul rhywbeth arall. Wel, ni allwch gael popeth mewn bywyd. Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd. A fyddai'n well gennych pe na bai'r gwasanaeth wedi mynd drwy Wrecsam, a thrwy hynny ailgyfeirio'r trê'n arall? Ni allwch gael y ddau. Yn anffodus, mae hynny'n un o wirioneddau bywyd. Fodd bynnag, gallaf ddweud, oherwydd rhagddarbodaeth y Llywodraeth hon, pan fydd y trac o Wrecsam i Gaer yn cael ei ddyblu, ni fydd yr un o'r problemau hyn yn codi.

Cysylltiadau Trafnidiaeth

2. Alun Davies: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gysylltiadau trafnidiaeth yng Nghymru. OAQ(3)1886(ECT)*

The Deputy First Minister: The national transport plan sets out our plans to improve transport links in Wales. These include investment plans for developing sustainable transport networks, as well as setting out solutions along the main movement corridors.

Alun Davies: Throughout the whole period of this Assembly, we have discussed the way in which decisions are reached in your department and the priorities that you have given to different schemes. A Wales Audit Office report was published last month, on which officials from your department gave evidence to the Public Accounts Committee this morning. Will you outline how you have changed the way in which you take decisions over the priority given to road and rail schemes in your department to ensure that the decision making is more transparent than perhaps the Finance Committee felt it was in its report two years ago? Will you also outline how you came to the decisions on capital spend that you announced last week? They disappointed some communities in different parts of Wales and led to some delays in projects. How did you reach those decisions over the past weeks and months?

Transport Links

2. Alun Davies: *Will the Minister provide an update on transport links in Wales. OAQ(3)1886(ECT)*

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn nodi ein cynlluniau i wella cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau buddsoddi ar gyfer datblygu rhwydweithiau trafnidiaeth cynaliadwy, yn ogystal â nodi atebion ar hyd y prif goridoriau symud.

Alun Davies: Drwy gydol y Cynulliad hwn, yr ydym wedi trafod y modd y gwneir penderfyniadau yn eich adran a'r blaenoriaethau yr ydych wedi'u rhoi i gynlluniau gwahanol. Cyhoeddwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fis diwethaf, a rhoddodd swyddogion o'ch adran dystiolaeth yn ei gylch i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y bore yma. A wnewch chi amlinellu sut yr ydych wedi newid y modd yr ydych yn gwneud penderfyniadau o ran y flaenoriaeth a roddir i gynlluniau rheilffordd a ffyrdd yn eich adran i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn fwy tryloyw nag yr oedd y Pwyllgor Cyllid efallai'n teimlo ei bod yn ei adroddiad ddwy flynedd yn ôl? A wnewch chi hefyd amlinellu sut y gwnaethoch y penderfyniadau ar wariant cyfalaf a gyhoeddwyd gennych yr wythnos diwethaf? Gwnaethant siomi rhai cymunedau mewn gwahanol rannau o Gymru ac arwain at ryw faint o oedi i brosiectau. Sut y gwnaethoch y penderfyniadau hynny yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf?

The Deputy First Minister: The Public Accounts Committee report showed that there was a cost overrun on some schemes from the time that they were announced to the time that they were delivered. I think that the Wales Audit Office report is quite fair in understanding that there were various issues outside the Assembly Government's control that led to those cost overruns. Where matters were inside our control, and where they continue to be, we tightened up the procedures immediately. The first thing that we have done is remove what we call 'optimism bias' in the original setting of the programme, by being more realistic about the cost of the scheme at the beginning. The second thing that we have done is to have what we call 'early contractor involvement', so that we can work with the contractor at an earlier stage in order to understand the cost of the scheme. The third thing that we had to do was to change the nature of the financing arrangement that we had with local authorities. If you look at the report, you will see that the highest cost increases were in relation to local-authority-delivered projects. We have tightened up that scheme so that it now has to be delivered within a clear financial envelope. Cost overruns would then not fall to the Welsh Assembly Government. That is the way that we have dealt with those matters.

In relation to the decisions that I jointly announced with the Minister for Business and Budget and the First Minister last week, we looked at the national transport plan programme, we looked at the 'One Wales' commitments and understood that there were key priorities that we had to deliver. That is why we made the announcement. The problem was that, if you face a 40 per cent cut in your budget as a result of Westminster Government decisions, you obviously cannot deliver everything.

Mick Bates: Minister, you know that I have campaigned for years for a Newtown bypass, which is vital to the people of Montgomeryshire and mid Wales. From reading many of your letters, I am delighted to see that progress is being made, as the current traffic chaos in Newtown is reducing

Y Dirprwy Brif Weinidog: Dangosodd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod gorwario wedi bod ar rai cynlluniau o'r adeg y cawsant eu cyhoeddi hyd at yr amser y cawsant eu darparu. Credaf fod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn deg o ran deall bod amryw o faterion y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth y Cynulliad wedi arwain at yr achosion hynny o orwario. Os oedd materion yn rhai yr oedd modd inni eu rheoli, ac yn parhau felly, gwnaethom dynhau'r gweithdrefnau ar unwaith. Y peth cyntaf yr ydym wedi'i wneud yw dileu'r hyn a alwn yn 'duedd optimistaeth' yn y broses wreiddiol o bennu'r rhaglen, drwy fod yn fwy realistig ynglŷn â chost y cynllun ar y dechrau. Yr ail beth yr ydym wedi'i wneud yw defnyddio'r hyn a alwn yn 'ymwneud cynnar gan gontractwr', fel y gallwn weithio gyda'r contractwr yn gynharach yn y broses er mwyn deall cost y cynllun. Y trydydd peth yr oedd yn rhaid inni ei wneud oedd newid natur y trefniant ariannu a oedd gennym gydag awdurdodau lleol. Os edrychwch ar yr adroddiad, byddwch yn gweld bod y cynnydd mwyaf mewn costau yn ymwneud â phrosiectau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol. Yr ydym wedi tynhau'r cynllun hwnnw fel bod rhaid bellach ei gyflawni o fewn terfyn ariannol clir. Ni fyddai costau gor-redeg wedyn yn dod i ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dyna'r modd yr ydym wedi ymdrin â'r materion hynny.

O ran y penderfyniadau a gyhoeddais ar y cyd â'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb a'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, buom yn edrych ar raglen y cynllun trafndiaeth cenedlaethol, buom yn edrych ar ymrwymadau 'Cymru'n Un' ac yr oeddem yn deall bod blaenoriaethau allweddol yr oedd yn rhaid inni eu cyflawni. Dyna pam y gwnaethom y cyhoeddiad. Y broblem oedd: os ydych yn wynebu toriad o 40 y cant yn eich cyllideb o ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth San Steffan, mae'n amlwg na allwch gyflawni popeth.

Mick Bates: Weinidog, yr ydych yn gwybod fy mod wedi ymgyrchu ers blynnyddoedd dros gael ffordd osgoi ar gyfer y Drenewydd, sy'n hanfodol i bobl Sir Drefaldwyn a chanolbarth Cymru. O ddarllen llawer o'ch llythyrau, yr wyf wrth fy modd o weld bod cynnydd yn cael ei wneud, gan fod yr anhrefn traffig a

trade and choking tourism. In recent correspondence to me you said that tenders would be invited later this year for a contractor to be part of the design scheme, as you just outlined to Alun Davies, and that the work is to commence in accordance with the national transport plan timetable. I read the recent statement on capital spending plans, but there was no mention of the plans for 2014 or the Newtown bypass. Can you take this opportunity to reassure the people of Newtown, Montgomeryshire and the whole of mid Wales, that this vital road scheme remains a top priority for the Assembly Government and will not be subject to any capital spending cuts?

geir yn y Drenwydd ar hyn o bryd yn amharu ar fasnachu ac yn llesteirio twristiaeth. Mewn gohebiaeth ddiweddar i mi, dywedasoch y byddai tendrau yn cael eu gwahodd yn ddiweddarach eleni i gontractwr fod yn rhan o'r cynllun dylunio, fel yr ydych newydd ei amlinellu i Alun Davies, ac y bwriedir i'r gwaith gychwyn yn unol ag amserlen y cynllun trafndiaeth cenedlaethol. Darllenais y datganiad diweddar am gynlluniau gwariant cyfalaf, ond nid oedd unrhyw sôn am y cynlluniau ar gyfer 2014 nac am ffordd osgoi'r Drenwydd. A allwch fanteisio ar y cyfle hwn i dawelu meddyliau pobl y Drenwydd, Sir Drefaldwyn a chanolbarth Cymru i gyd fod y cynllun ffordd hanfodol hwn yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad ac na fydd yn destun unrhyw doriadau gwariant cyfalaf?

2.15 p.m.

The Deputy First Minister: I think that there is a little bit of a misunderstanding about what we announced. We made an announcement about only those schemes that were planned to start in 2011 and 2012; schemes that were due to start after then were not part of the statement. What I can tell you is that the intention remains, as I think you are aware from the trunk road forward programme and the national transport plan, that the work is programmed to be ready to start between April 2011 and April 2014. There has been no change to that timetable.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Credaf fod ychydig bach o gamddealltwriaeth ynghylch yr hyn y gwnaethom ei gyhoeddi. Dim ond am y cynlluniau hynny y bwriedid iddynt ddechrau yn 2011 a 2012 y gwnaethom gyhoeddiad; nid oedd cynlluniau y bwriedid iddynt ddechrau ar ôl hynny yn rhan o'r datganiad. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthyhch yw mai'r bwriad sy'n parhau, fel y credaf y gwyddoch o'r flaenraglen gefnffyrdd a'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol, yw trefnu i'r gwaith fod yn barod i ddechrau rhwng mis Ebrill 2011 a mis Ebrill 2014. Ni fu unrhyw newid i'r amserlen honno.

Brian Gibbons: Deputy First Minister, has any consideration been given to making representations to the UK Government or Network Rail on the possible use of convergence funding for electrification of rail track west of Cardiff?

Brian Gibbons: Ddirprwy Brif Weinidog, a ystyriwyd cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU neu Network Rail ynghylch defnyddio cyllid cydgyfeirio o bosibl ar gyfer trydaneiddio'r rheilffordd i'r gorllewin o Gaerdydd?

The Deputy First Minister: No. No discussion has been held with Network Rail or the Department for Transport on electrification. Frankly, the priority for us is to ensure that the funding should be allocated in total and in full by the Department for Transport in London. Any scheme that needs to be financed in Wales, as things currently stand, is the responsibility of the UK Government and the UK department. If,

Y Dirprwy Brif Weinidog: Na. Ni chafwyd unrhyw drafodaeth â Network Rail na'r Adran Drafndiaeth ynghylch trydaneiddio. A dweud y gwir, y flaenoriaeth i ni yw sicrhau y dylai'r arian gael ei ddyrannu yn ei gyfanrwydd gan yr Adran Drafndiaeth yn Llundain. Llywodraeth y DU ac adran y DU sy'n gyfrifol am unrhyw gynllun y mae angen ei ariannu yng Nghymru, yn ôl y sefyllfa ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os

however, there is a decision to transfer responsibility for the funding of Network Rail to Wales, as well as responsibility for the business unit, the proposal that you make would come into play.

Rhodri Glyn Thomas: Ddirprwy Brif Weinidog, gan ein bod yn dod at derfyn y Cynulliad hwn, yr wyf yn eich llongyfarch ar y ffaith eich bod, dros y pedair blynedd diwethaf, wedi newid y pwyslais o fod ar drafndiaeth breifat a phersonol i fod ar drafndiaeth gyhoeddus. Credaf fod hynny wedi bod yn newid eithriadol o bwysig, a'ch bod wedi gwneud popeth o fewn eich gallu yng Nghymru i sicrhau hynny. Wrth reswm, mae penderfyniadau nad ydynt yn cael eu gwneud yn y lle hwn ac sydd tu hwnt i'ch rheolaeth, fel trydaneiddio'r rheilffordd o Lundain i Gymru. A wnewch gytuno—yr oeddwn yn trafod hyn gyda'r diwydianwyr nos Lun diwethaf yng Nghaerdydd—bod y ffaith na fydd y rheilffordd yn cael ei trydaneiddio hyd at Abertawe yn creu problem enfawr o ran economi de-orllewin Cymru, a bod pobl yn teimlo bod cyfleoedd o ran buddsoddi economaidd yn dod i ben yng Nghaerdydd oherwydd penderfyniad y glymblaid Ceidwadol a Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Diolch yn fawr am y cwestiwn, Rhodri. O safbwynt rhan gyntaf y cwestiwn, mae'r ganran a werir ar drafndiaeth integredig a'r ganran a werir ar ffyrdd wedi newid yn sylweddol yn ystod cyfnod y Llywodraeth hon. Mae'r ganran ar werir ar drafndiaeth integredig bellach yn 60 y cant, wrth gymharu â'r 40 y cant a werir ar ffyrdd. Mae hynny'n newid sylweddol. Yr ydych yn iawn i ddweud byddai trydaneiddio'r rheilffordd hyd at Abertawe yn symudiad sylweddol iawn o ran hybu economi de-orllewin Cymru, a byddem yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Drafndiaeth yn Llundain i sicrhau ei bod yn ailedrych ar yr achos busnes dros trydaneiddio hyd at Abertawe.

Trafndiaeth Gyhoeddus

3. Irene James: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drafndiaeth gyhoeddus yn Nwyrain De Cymru. OAQ(3)1856(ECT)*

gwneir penderfyniad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ariannu Network Rail i Gymru, yn ogystal â chyfrifoldeb dros yr uned fusnes, byddai'r cynnig a wnewch yn dod yn rhan o'r drafodaeth.

Rhodri Glyn Thomas: Deputy First Minister, as we are drawing to the close of this Assembly, I congratulate you on the fact that, over the past four years, you have shifted the emphasis from private personal transport to public transport. I think that that has been an exceptionally important shift, and that you have done everything within your ability in Wales to ensure that. Naturally, there are decisions that are not made in this place and that are outwith your control, such as electrification of the railway line from London to Wales. Do you agree—I was discussing this with industrialists last Monday evening in Cardiff—that the fact that the railway line will not be electrified to Swansea creates a huge problem with regard to the economy of south-west Wales and that people feel that opportunities for economic investment finish in Cardiff because of the decision of the Conservative and Liberal Democrat coalition in Westminster?

The Deputy First Minister: Thank you very much for that question, Rhodri. With regard to the first part of your question, the percentage spent on integrated transport and that spent on roads has shifted significantly during the term of the Government. The percentage spent on integrated transport is now 60 per cent, while 40 per cent is spent on roads. That is a significant shift. You are right in saying that electrification of the railway to Swansea would be a very important move in terms of promoting the economy of south-west Wales, and we will continue to work with the Department for Transport in London to ensure that it looks again at the business case for electrification to Swansea.

Public Transport

3. Irene James: *Will the Minister make a statement on public transport in South East Wales. OAQ(3)1856(ECT)*

The Deputy First Minister: We have delivered a number of schemes to improve public transport links, including the reopening of the Ebbw Vale to Cardiff service. Also, I welcome the recently announced plans to electrify the Great Western main line to Cardiff, which will provide significant benefits to south-east Wales.

Irene James: Thank you for that response, Minister. Residents in my constituency are campaigning for the reinstatement of bus services from the top end of the Ebbw Valley to Cardiff, calling at Newbridge, Abercarn and Cwmcarn. Minister, what can we do to help these residents reinstate this valuable service?

The Deputy First Minister: I am sorry that I am not aware of the details of that particular service. However, we provide support to local authorities to assist in the development of services. If you would like to write to me, I will ensure that I raise the matter with the appropriate local authority.

William Graham: Deputy First Minister, I am sure that you will join me in welcoming the finding of the economic impact assessment of the Ryder Cup at Celtic Manor that the tournament was worth some £80 million to Wales. You will know, Deputy First Minister, that the way to build on that tournament's success is by ensuring good transport links. How will you engage with Monmouthshire County Council and with the residents and businesses in Chepstow in south Monmouthshire to ensure that they fully utilise the additional train services that will stop at the rail station on 24 May as part of a trial run of providing an additional 14 cross-country trains?

The Deputy First Minister: I also welcome the fact that we have been able to publish the economic impact of the Ryder Cup, which was of enormous benefit, not just to south-east Wales and Newport, but to much wider afield. People will now see Wales in a different light as a result. As part of the investment for the Ryder Cup, we invested, with Network Rail, a substantial sum of

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr ydym wedi rhoi nifer o gynlluniau ar waith i wella cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus, gan gynnwys ailagor y gwasanaeth o Lynebwy i Gaerdydd. Hefyd, yr wyf yn croesawu'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i drydaneiddio prif reilffordd Great Western i Gaerdydd, a fydd yn dod â manteision sylweddol i dde-ddwyrain Cymru.

Irene James: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Mae trigolion yn fy etholaeth yn ymgyrchu dros adfer y gwasanaethau bws o ben uchaf Cwm Ebwy i Gaerdydd, gan alw yn Nhrecelyn, Abercarn a Chwmcarn. Weinidog, beth y gallwn ni ei wneud i helpu'r trigolion hyn adfer y gwasanaeth gwerthfawr hwn?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae'n ddrwg gennyf nad wyf yn gwybod am fanylion y gwasanaeth penodol hwnnw. Fodd bynnag, yr ydym yn darparu cymorth i awdurdodau lleol i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau. Os hoffech ysgrifennu ataf, byddaf yn sicrhau fy mod yn crybwyll y mater wrth yr awdurdod lleol priodol.

William Graham: Ddirprwy Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu'r hyn a ganfu'r asesiad o effaith Cwpan Ryder yn Celtic Manor ar yr economi, sef bod y twrnaint yn werth tua £80 miliwn i Gymru. Byddwch yn gwybod, Ddirprwy Brif Weinidog, mai'r dull o ddatblygu llwyddiant y twrnaint hwnnw yw sicrhau cysylltiadau trafndiaeth da. Sut y byddwch yn ymgysylltu â Chyngor Sir Fynwy a thrigolion a busnesau yng Nghasgwent yn ne Sir Fynwy i sicrhau eu bod yn manteisio'n llawn ar y gwasanaethau trên ychwanegol a fydd yn galw yn yr orsaf reilffordd ar 24 Mai, fel rhan o gyfnod i dreialu gwasanaeth â 14 o drenau traws-gwlad ychwanegol?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf innau'n croesawu'r ffaith ein bod wedi gallu cyhoeddi effaith economaidd Cwpan Ryder, a oedd o fudd enfawr, nid yn unig i dde-ddwyrain Cymru a Chasnewydd, ond i ardal lawer ehangach. Bydd gan bobl argraff wahanol o Gymru o ganlyniad. Fel rhan o'r buddsoddiad ar gyfer Cwpan Ryder, gwnaethom fuddsoddi, gyda Network Rail,

money in Newport station, which was quite significant. You rightly point out that there are opportunities for us to improve rail services in south-east Wales, as in other parts of Wales. I would be happy to look at your proposal with Arriva Trains Wales.

Veronica German: I have been told that the contractual specification for the Newport area re-signalling, signed off by the last Labour Government, was not based—unlike the re-signalling work in Cardiff—on the possibility of electrification. I understand that Network Rail has stated that the equipment itself is compatible with electrification, but I have been informed that the way that the equipment is installed is not compatible with electrification. Can you confirm whether that is the case? If so, how much would it cost to change it, and does it indicate a lack of joined-up thinking?

The Deputy First Minister: I cannot give a direct response to such a detailed question in the Chamber, but I will write to you on that. A decision was made by the previous Government in Westminster to electrify the main line to Swansea. The current decision is to electrify it only to Cardiff. We want to see electrification continue to Swansea. We will be engaging with the Department for Transport on electrification of the Valleys lines. We would like to see all Valleys lines included in the business case and we can then understand how we can deliver that particular project.

Blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth

4. Mohammad Asghar: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth dros weddill diwrnodau'r Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1847(ECT)*

The Deputy First Minister: My priorities for transport are outlined in the joint written Cabinet statement that I made with the First Minister and the Minister for Business and Budget last week on capital spending plans for 2011-12.

swm sylweddol o arian yng ngorsaf Casnewydd, a oedd yn eithaf arwyddocaol. Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod cyfleoedd inni wella gwasanaethau rheilffyrdd yn ne-ddwyrain Cymru, yn ogystal ag mewn rhannau eraill o Gymru. Byddwn yn hapus i edrych ar eich cynnig gyda Threnau Arriva Cymru.

Veronica German: Yr wyf wedi cael gwybod nad oedd y fanyleb gytundebol ar gyfer y gwaith o ailosod signalau yn ardal Casnewydd, a lofnodwyd gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, yn seiliedig—yn wahanol i'r gwaith o ailosod signalau yng Nghaerdydd—ar y posibilrwydd o drydaneiddio. Caf ar ddeall fod Network Rail wedi datgan bod y cyfarpar ei hun yn gydnaws â thrydaneiddio, ond cefais wybod nad yw'r ffordd y cafodd yr offer ei osod yn gydnaws â thrydaneiddio. A allwch gadarnhau a yw hynny'n wir? Os felly, faint y byddai'n ei gostio i'w newid, ac a yw'n dangos diffyg meddwl cydgysylltiedig?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ni allaf roi ymateb uniongyrchol i gwestiwn mor fanwl yn y Siambr, ond byddaf yn ysgrifennu atoch ynglŷn â hynny. Gwnaeth y Llywodraeth flaenorol yn San Steffan benderfyniad i drydaneiddio'r brif reilffordd i Abertawe. Y penderfyniad ar hyn o bryd yw trydaneiddio i Gaerdydd yn unig. Yr ydym am weld trydaneiddio'n parhau i Abertawe. Byddwn yn trafod â'r Adran Drafndiaeth ynghylch trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Hoffem weld holl reilffyrdd y Cymoedd yn cael eu cynnwys yn yr achos busnes ac yna gallwn ddeall sut y gallwn gyflawni'r prosiect penodol hwnnw.

Priorities for Transport

4. Mohammad Asghar: *Will the Minister make a statement on his priorities for transport for the remaining days of the Third Assembly. OAQ(3)1847(ECT)*

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth wedi'u hamlinellu yn y datganiad Cabinet ysgrifenedig a wneuthum ar y cyd â'r Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yr wythnos diwethaf ar gynlluniau

gwariant cyfalaf ar gyfer 2011-12.

Mohammad Asghar: I was disappointed that, during the debate on the national transport plan, you did not respond to issues that I raised regarding blind and partially-sighted passengers. I have regularly highlighted the benefit of cost-effective audible announcements on Welsh buses, which would make journeys easier and less stressful for blind and partially sighted passengers. Last year, you said that your officials were looking closely at this. In November, you said that a best practice guide for passengers with sight problems would be published in December, and, in February, you said that it would be published in the spring. While the responsibility for this ultimately lies with service providers, it is imperative that the Assembly Government use its position to emphasise the importance of this issue. Can you provide an update, Deputy First Minister, particularly on the best practice guide to which you have previously referred?

The Deputy First Minister: I agree that this is an important issue, particularly for partially sighted people. Having proper information about bus services is important. I recognise the fact that you have raised the issue on a number of occasions. I am not sure that it is possible in every debate to cover every point raised by every Member. I apologise if I did not deal with your point, but, as you have raised it with me again, I will send you a detailed reply in a letter.

Chris Franks: Improvements to rail infrastructure on the Cardiff and Valleys network and the Cardiff Central new platform are to be welcomed. However, do you agree that businesses and local communities will be disappointed that the improvement of Cardiff Queen Street Station and the new platform at Pontypridd will not go ahead because of the Westminster cuts to our capital budget? How could additional investment in infrastructure be made available in the future to help build a better Welsh economy?

The Deputy First Minister: There is

Mohammad Asghar: Yr oeddwn yn siomedig na wnaethoch ymateb yn ystod y ddadl ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol i broblemau a grybwyllais am deithwyr dall a rhannol ddall. Yr wyf wedi tynnu sylw'n rheolaidd at fanteision cyhoeddiadau clywadwy costeffeithiol ar fysiau Cymru, a fyddai'n gwneud teithiau'n haws ac yn llai o straen i deithwyr dall a rhannol ddall. Y llynedd, dywedasoch fod eich swyddogion yn edrych yn ofalus ar hyn. Ym mis Tachwedd, dywedasoch y byddai canllaw arfer gorau i deithwyr sydd â phroblemau o ran eu golwg yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, ac, ym mis Chwefror, dywedasoch y byddai'n cael ei gyhoeddi yn y gwanwyn. Er mai'r darparwyr gwasanaeth sy'n gyfrifol am hyn yn y pen draw, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio'i safle i bwysleisio pwysigrwydd y mater hwn. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf, Ddirprwy Brif Weinidog, yn arbennig ynghylch y canllaw arfer gorau yr ydych wedi cyfeirio ato o'r blaen?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn cytuno bod hwn yn fater pwysig, yn enwedig i bobl rhannol ddall. Mae cael gwybodaeth briodol am wasanaethau bysiau yn bwysig. Rwy'n cydnabod y ffaith eich bod wedi codi'r mater sawl gwaith. Nid wyf yn siŵr ei bod yn bosibl ym mhob dadl i ymdrin â phob pwynt y mae pob Aelod yn ei grybwyll. Ymddiheuraf os na wneuthum ymdrin â'ch pwynt, ond, gan eich bod wedi ei grybwyll wrthyf eto, byddaf yn anfon ateb manwl atoch mewn llythyr.

Chris Franks: Mae gwelliannau i seilwaith y rheilffyrdd ar rwydwaith Caerdydd a'r Cymoedd a phlatfform newydd Caerdydd Canolog i'w croesawu. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno y bydd busnesau a chymunedau lleol yn siomedig na fydd y gwaith i wella gorsaf Heol y Frenhines yng Nghaerdydd a'r platfform newydd ym Mhontypridd yn mynd yn eu blaen oherwydd toriadau San Steffan i'n cyllideb gyfalaf? Sut y gellid sicrhau bod buddsoddiad ychwanegol ar gael yn y dyfodol i helpu i greu economi well yng Nghymru?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae siom

disappointment that certain schemes cannot go ahead, but you are right that, when you face a 40 per cent cut in your budget, some schemes will have to go. The cuts are very significant in the first year, because around 25 per cent of the cuts will be in that year, and that is why we had to make it clear that certain schemes would not be able to go ahead. The next Assembly Government will have to look at innovative ways of raising finance for capital projects, and I am sure that the parties will set out their programmes in the next few weeks.

Kirsty Williams: Minister, in looking at your transport priorities for the remaining weeks of this Assembly, I am sure that you will be looking at your economic development priorities alongside them. You will be aware that I have written to you on many occasions in recent months about the future of the Kaye Presteigne factory in my constituency and the 100 precious manufacturing jobs within that institution. Could you outline what assistance your Government has been able to give to that important manufacturing plant and what you are doing to safeguard those 100 jobs in a small rural community?

The Deputy First Minister: I am not able to give you full details of what my officials have been doing in relation to that, although I understand the point that you make about it being such an important employer in a rural area. I assure you that my officials will do everything possible to work with the company to protect those jobs, because we understand that jobs in such companies are vital in rural parts of Wales.

Yr Economi

6. David Lloyd: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu'r economi yn Ne Orllewin Cymru. OAQ(3)1853(ECT)*

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr ydym yn helpu i wella ein perfformiad economaidd ar draws Cymru drwy roi 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' ar waith. Bydd y

oherwydd na all rhai cynlluniau fynd yn eu blaen, ond yr ydych yn llygad eich lle, pan fyddwch yn wynebu toriad o 40 y cant yn eich cyllideb, fod rhaid rhoi'r gorau i rai cynlluniau. Mae'r toriadau'n sylweddol iawn yn y flwyddyn gyntaf, gan y bydd tua 25 y cant o'r toriadau yn y flwyddyn honno, a dyna pam y bu'n rhaid inni ei gwneud yn glir na fyddai modd i rai cynlluniau fynd yn eu blaen. Bydd yn rhaid i Lywodraeth nesaf y Cynulliad ystyried dulliau arloesol o godi arian ar gyfer prosiectau cyfalaf, ac rwy'n siŵr y bydd y pleidiau'n amlinellu eu rhaglenni yn ystod yr wythnosau nesaf.

Kirsty Williams: Weinidog, wrth edrych ar eich blaenoriaethau ym maes trafniadaeth ar gyfer yr wythnosau sy'n weddill o'r Cynulliad hwn, yr wyf yn sicr y byddwch yn edrych ar eich blaenoriaethau ym maes datblygu economaidd ochr yn ochr â hwy. Gwyddoch fy mod wedi ysgrifennu atoch droeon yn ystod y misoedd diwethaf am ddyfodol ffatri Kaye Presteigne yn fy etholaeth a'r 100 o swyddi gweithgynhyrchu gwerthfawr yn y sefydliad hwnnw. A allwch amlinellu pa gymorth y mae eich Llywodraeth wedi gallu ei roi i'r ffatri weithgynhyrchu bwysig honno a'r hyn yr ydych yn ei wneud i ddiogelu'r 100 o swyddi hynny mewn cymuned wledig fach?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ni allaf roi manylion llawn ichi am yr hyn y bu fy swyddogion yn ei wneud yng nghyswllt hynny, er fy mod yn deall y pwynt a wnewch ynghylch y ffaith ei fod yn gyflogwr mor bwysig mewn ardal wledig. Gallaf eich sicrhau y bydd fy swyddogion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i weithio gyda'r cwmni i ddiogelu'r swyddi hynny, oherwydd ein bod yn deall bod swyddi mewn cwmnïau o'r fath yn hanfodol mewn rhannau gwledig o Gymru.

The Economy

6. David Lloyd: *Will the Minister make a statement about developing the economy in South West Wales. OAQ(3)1853(ECT)*

The Deputy First Minister: We are helping to improve our economic performance across Wales through the implementation of 'Economic Renewal: a new direction'. South-

de-orllewin yn elwa ar ein buddsoddiadau a fydd yn cael blaenoriaeth, fel llywio'r amgylchedd busnes, darparu seilwaith, meithrin sgiliau, cefnogi ymchwil a thargedu cymorth busnes lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf.

David Lloyd: Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, Weinidog. Dioddefodd yr economi yn ne-orllewin Cymru ergyd fawr yn ddiweddar yn sgîl y penderfyniad i beidio â thrydaneiddio'r rheilffordd rhwng Llundain ac Abertawe. A fydddech yn cytuno y byddai trydaneiddio'r rheilffordd yr holl ffordd o Lundain i Abertawe yn gwneud gwahaniaeth mawr i economi a thwristiaeth yn y rhan honno o Gymru? A ydych yn gresynu at ddiystyrwch Llywodraeth San Steffan tuag at yr ardaloedd hyn yng Nghymru ac yn cytuno ei bod yn warthus?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Fel y gwyddoch, Dai, yr oeddem yn hynod siomedig yn y penderfyniad i drydaneiddio'r rheilffordd hyd at Gaerdydd yn unig. Yr ydym yn croesawu'r ffaith y bydd hynny yn help i economi Caerdydd a de-ddwyrain Cymru, ond byddai trydaneiddio bob cam i Abertawe yn hwb sylweddol i economi de-orllewin Cymru. Mae bob ystadegyn yn dangos bod trydaneiddio rheilffordd yn hwb i'r economi ac yn gwneud yr ardal yn atyniadol ar gyfer sefydlu busnesau. Bydd y Lywodraeth hon, tra byddwn yn parhau, a, gobeithio, y Llywodraeth nesaf, yn parhau i weithio i sicrhau bod y cynllun yn mynd yn ei flaen bob cam i Abertawe.

Arloesedd ac Entrepreneuriaeth Gymreig

7. Bethan Jenkins: A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut mae arloesedd ac entrepreneuriaeth Gymreig yn cael eu hyrwyddo i weddill y byd. OAQ(3)1879(ECT)

The Deputy Minister for Science, Innovation and Skills (Lesley Griffiths): Welsh innovation and entrepreneurship are fundamental parts of our policies. We participate in the European Union's enterprise Europe network and showcase recent developments through our 'Advances' publication, which is distributed globally. When we receive business delegations from overseas, we ensure that Welsh innovation

west Wales will benefit from our prioritised investment in shaping the business environment, providing infrastructure, developing skills, supporting research and targeting business support where we can add most value.

David Lloyd: Thank you for that answer, Minister. The economy of south-west Wales suffered a major blow recently as a result of the decision not to electrify the railway between London and Swansea. Do you agree that electrifying the railway all the way from London to Swansea would make a big difference to the economy and tourism in that part of Wales? Do you regret the disdain shown by the Westminster Government towards these areas of Wales and agree that it is disgraceful?

The Deputy First Minister: As you know, Dai, we were very disappointed by the decision to electrify the railway only as far as to Cardiff. We welcome the fact that that will help the economy of Cardiff and south-east Wales, but electrification all the way to Swansea would provide a major boost to the economy of south-east Wales. Every statistic shows that electrification of railways boosts the economy and makes the area attractive for establishing businesses. This Government, for as long as it continues, and, hopefully, the next Government, will continue to work to ensure that the scheme goes ahead all the way to Swansea.

Welsh Innovation and Entrepreneurialism

7. Bethan Jenkins: Will the Minister outline how Welsh innovation and entrepreneurialism is being promoted to the rest of the world. OAQ(3)1879(ECT)

Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths): Mae arloesi ac entrepreneuriaeth yng Nghymru yn rhannau sylfaenol o'n polisiau. Yr ydym yn cymryd rhan yn rhwydwaith menter Ewrop yr Undeb Ewropeaidd ac yn arddangos datblygiadau diweddar drwy ein cyhoeddiad 'Advances', sy'n cael ei ddosbarthu'n fyd-eang. Pan ddaw dirprwyaethau busnes atom o dramor, yr ydym yn sicrhau bod arloesedd ac

and entrepreneurial spirit are actively promoted.

Bethan Jenkins: The Deputy Minister may know that, from my office in Neath, I can see three great inventions that continue to shape the modern world, namely the Siemens Brothers regenerative furnace, which helped us to defeat the Nazis, the world's first globalised industry, namely the copper industry in Swansea, and William Grove's hydrogen cell, which provides the basis for clean car technology in Wales. These are incredible inventions, and although there are only two weeks left until the end of the third Assembly, could we produce a legacy report to the future Assembly Government on having a marketing strategy to promote these innovative creations that are part of our history?

2.30 p.m.

We could then perhaps incorporate entrepreneurial skills in developing this for the future, especially in areas such as south-west Wales.

Lesley Griffiths: Our international marketing activity already showcases current expertise, technology and innovation in Wales. We recently developed a pilot web portal, called Expertise Wales, to promote higher education and further education expertise, within and outside Wales. I have already referred to the 'Advances' publication in relation to our STEM engagement. That publication is primarily distributed in Wales, but, on occasion, there has been international promotional activity, so that may be somewhere where we could link in. However, we will continue to review our international marketing activity with the focus on that.

Rhodri Morgan: Following yesterday's news that Fujitsu had won the £15 million contract at the heart of the £40 million high-performance computing centre for Wales, which will now be able to proceed, do you agree that this is an ideal opportunity for high-tech businesses to access high-

ysbryd entrepreneuriaid Cymru yn cael eu hyrwyddo'n ddiwyd.

Bethan Jenkins: Efallai y bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod y gallaf weld, o'm swyddfa yng Nghastell-nedd, dri o ddyfeisiadau gwych sy'n parhau i ddylanwadu ar y byd modern, sef ffwrnais atgynhyrchiol y Brodyr Siemens, a wnaeth ein helpu i drechu'r Natsïaid, y diwydiant byd-eang cyntaf, sef y diwydiant copr yn Abertawe, a chell hydrogen William Grove, sy'n sail i dechnoleg lân yng Nghymru ar gyfer ceir. Mae'r rhain yn ddyfeisiadau anhygoel, ac, er mai dim ond pythefnos sydd ar ôl tan ddiwedd y trydydd Cynulliad, a allem lunio adroddiad etifeddiaeth i'r Llywodraeth Cynulliad sydd i ddod ynghylch cael strategaeth farchnata i hyrwyddo'r creadigaethau arloesol hyn sy'n rhan o'n hanes?

Wedyn, gallem efallai ymgorffori sgiliau entrepreneuriaid wrth ddatblygu hyn ar gyfer y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd fel de-orllewin Cymru.

Lesley Griffiths: Mae ein gweithgarwch marchnata rhyngwladol eisoes yn arddangos yr arbenigedd, technoleg ac arloesedd a geir yng Nghymru ar hyn o bryd. Gwnaethom ddatblygu, drwy gynllun peilot, borthol ar y we yn ddiweddar o'r enw Arbenigedd Cymru, i hyrwyddo arbenigedd mewn addysg uwch ac addysg bellach, y tu mewn i Gymru a'r tu allan iddi. Cyfeiriais eisoes at gyhoeddiad 'Advances' mewn perthynas â'n gwaith yng nghyswllt STEM. Caiff y cyhoeddiad hwnnw ei ddsbarthu yng Nghymru yn bennaf, ond, ar adegau, bu gweithgarwch hyrwyddo rhyngwladol, felly efallai y gallem greu cyswllt yn hynny o beth. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu ein gweithgarwch marchnata rhyngwladol gan ganolbwyntio ar hynny.

Rhodri Morgan: Yn dilyn y newyddion ddod fod Fujitsu wedi ennill y contract £15 miliwn sydd wrth wraidd y ganolfan cyfrifiadura perfformiad uchel i Gymru, sy'n werth £40 miliwn ac a fydd bellach yn gallu mynd yn ei flaen, a ydych yn cytuno bod hwn yn gyfle delfrydol i fusnesau uwch-dechnoleg

performance computing, probably in a class better than in any other part of Europe, as well as being an opportunity for academic researchers, health service epidemiologists, and so on? However, the key point is that it is not just about the hardware, it is also about training academics and business people, so that they can use to the full the amazing computing capacity that will now be available in Wales, which is not available elsewhere.

Lesley Griffiths: We will focus on the skills aspect at our universities. HPC Wales will build on the investments that have already been made by the Welsh Assembly Government and the higher education sector in the all-Wales research institutes, and will build on the expertise and the facilities that we already have in Cardiff and Swansea universities. That is of strategic importance for the Welsh economy. Importantly, from my portfolio's point of view, I believe that it will support research and development, as well as the sectoral priorities of the Welsh Assembly Government.

Darren Millar: Do you agree that practical experience of entrepreneurship is important for our universities in helping to communicate an entrepreneurial spirit to young people in particular in Wales? The Enterprise and Learning Committee recently received evidence from Professor Andy Penaluna of Swansea Metropolitan University. He described himself to the committee as a 'pracademic', because he has had practical business experience. What are you doing to open up opportunities for those people who have been in business to get into the front line of classrooms, so that they can communicate their enthusiasm for entrepreneurship to our young people?

Lesley Griffiths: I am not sure about the classroom, but you will be aware that we are teaming up with Sir Terry Matthews to create a new graduate entrepreneurship programme, which is aimed at creating a new generation of high-calibre technology entrepreneurs. That is one thing that we are doing. Last week, I launched the global entrepreneurship

gael mynediad at gyfrifiadura perfformiad uchel, sydd yn ôl pob tebyg o safon well nag a geir mewn unrhyw ran arall o Ewrop, yn ogystal â bod yn gyfle i ymchwilwyr academiaidd, epidemiolegwyr y gwasanaeth iechyd, ac yn y blaen? Fodd bynnag, y pwynt allweddol yw nad yw'n ymwneud â'r galedwedd yn unig; mae hefyd yn ymwneud â hyfforddi academyddion a phobl fusnes, fel y gallant fanteisio i'r eithaf ar y gallu cyfrifiadurol anhygoel a fydd bellach ar gael yng Nghymru, nad yw ar gael mewn mannau eraill.

Lesley Griffiths: Byddwn yn canolbwyntio ar yr agwedd sgiliau yn ein prifysgolion. Bydd HPC Cymru yn datblygu ar sail y buddsoddiadau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector addysg uwch wedi'u gwneud eisoes yn y sefydliadau ymchwil Cymru gyfan, a bydd yn ychwanegu at yr arbenigedd a'r cyfleusterau sydd gennym eisoes ym mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe. Mae hynny'n bwysig yn strategol i economi Cymru. O safbwynt fy mhortffolio, mae'n bwysig nodi y bydd, yn fy marn i, yn cynorthwyo yng nghyswllt ymchwil a datblygu, yn ogystal â blaenoriaethau sectoraidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Darren Millar: A ydych yn cytuno bod profiad ymarferol o entrepreneuriaeth yn bwysig i'n prifysgolion o ran helpu i gyfleu ysbryd entrepreneuriaid i bobl ifanc yn benodol yng Nghymru? Cafodd y Pwyllgor Menter a Dysgu dystiolaeth yn ddiweddar gan yr Athro Andy Penaluna o Brifysgol Fetropolitan Abertawe. Dywedodd wrth y pwyllgor mai 'pracademic' ydoedd, oherwydd iddo gael profiad busnes ymarferol. Beth yr ydych chi'n ei wneud i greu cyfleoedd i'r bobl hynny sydd wedi bod mewn busnes i fynd o flaen ystafelloedd dosbarth, er mwyn iddynt allu cyfleu eu brwdfrydedd am entrepreneuriaeth i'n pobl ifanc?

Lesley Griffiths: Nid wyf yn siŵr am yr ystafell ddosbarth, ond byddwch yn gwybod ein bod yn cydweithio â Syr Terry Matthews i greu rhaglen entrepreneuriaeth newydd i raddedigion, sydd wedi'i hanelu at greu cenhedlaeth newydd o entrepreneuriaid technoleg o'r radd flaenaf. Dyna un peth yr ydym yn ei wneud. Yr wythnos diwethaf,

challenge at the Wales Millennium Centre, where groups of young people from across Wales—from most of our FE colleges in fact—faced a 24-hour challenge. Therefore, we are doing a lot to encourage a new generation of entrepreneurs.

Rhaglen Technium

8. Jenny Randerson: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am leihau'r Rhaglen Technium. OAQ(3)1876(ECT)*

Lesley Griffiths: Following the announcement on 18 November, we have engaged with stakeholders, partners and tenants to deliver an exit from the technium network by 31 March 2011 for those buildings where the Welsh Assembly Government has an interest. Where a building is not owned by the Welsh Assembly Government, it is a matter for the owner to decide on its future use.

Jenny Randerson: The Government's economic research programme report for this year in relation to the technium network states that there was no clear rationale, nor clear objectives and targets for the network. Furthermore, there was no documentary evidence to confirm that robust project appraisal or business planning had been carried out, few of the techniums had explicit objectives, and, where they were available, they tended to differ between techniums, and occupancy rates across the network averaged at 46 per cent, whereas best practice should be 85 per cent. This is a damning set of conclusions. I understand that the Government is now dealing with the issue, but why did it take three-and-a-half years of this Labour-Plaid Government to take action on this?

Lesley Griffiths: As you said Jenny, I made an announcement on 18 November, followed by an oral statement, in which I stated that I was very happy to defend any decisions that I made, but that I was not there to refer to any decisions made by previous Ministers. As I promised at that time, I will be issuing a further written statement, probably by the end

lansiais yr her entrepreneuriaeth fyd-eang yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, lle yr oedd grwpiau o bobl ifanc o bob cwr o Gymru—o fwyafrif ein colegau addysg bellach mewn gwirionedd—yn wynebu her 24 awr. Felly, rydym yn gwneud llawer i annog cenhedlaeth newydd o entrepreneuriaid.

Technium Programme

8. Jenny Randerson: *Will the Minister make a statement on the scaling back of the Technium Programme. OAQ(3)1876(ECT)*

Lesley Griffiths: Yn dilyn y cyhoeddiad ar 18 Tachwedd, yr ydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid, partneriaid a thenantiaid i ddarparu dull o adael rhwydwaith technium erbyn 31 Mawrth 2011 ar gyfer yr adeiladau hynny y mae a wnelont â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Os nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn berchen ar adeilad, mater i'r perchennog yw penderfynu ar y modd y defnyddir yr adeilad yn y dyfodol.

Jenny Randerson: Mae adroddiad rhaglen ymchwil economaidd y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn hon ynghylch rhwydwaith technium yn datgan nad oedd unrhyw sail resymegol glir, nac amcanion a thargedau clir ar gyfer y rhwydwaith. Ar ben hynny, nid oedd dim tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau bod prosesau cynllunio busnes neu werthusiadau prosiect cadarn wedi'u cynnal, prin oedd y canolfannau technium a oedd ag amcanion clir, ac, os oeddent ar gael, yr oeddent yn tueddu i amrywio o un canolfan technium i'r llall, a 46 y cant oedd cyfartaledd y cyfraddau ddefnyddio ar draws y rhwydwaith, er y dylai'r arfer gorau fod yn 85 y cant. Mae'r rhain yn gasgliadau damniol. Deallaf fod y Llywodraeth yn ymdrin â'r mater erbyn hyn, ond pam y cymerodd dair blynedd a hanner i'r Llywodraeth Lafur-Plaid hon weithredu yn hyn o beth?

Lesley Griffiths: Fel y dywedaso, Jenny, gwneuthum gyhoeddiad ar 18 Tachwedd, ac yna ddatganiad llafar, pan ddywedais fy mod yn hapus iawn i amddiffyn unrhyw benderfyniadau yr oeddwn i wedi'u gwneud, ond nad fy lle i oedd cyfeirio at unrhyw benderfyniadau a wnaed gan Weinidogion blaenorol. Fel yr addewais ar y pryd, byddaf

of this week.

Jenny Randerson: The occupancy figures themselves should have alerted any Government to the fact that there were problems there. However, let us look to the future. This morning, the Chancellor announced in the budget that 10 enterprise zones would be established across England. There will be a Barnett consequential for Wales as a result of this. Do you favour the establishment of enterprise zones in Wales in order to improve and develop our economy and to enable us to compete within the UK and globally?

Lesley Griffiths: It is too early to say; it is something that we are considering, but it will be a matter for the new Government.

Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru

9. Peter Black: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru. OAQ(3)1874(ECT)*

The Deputy First Minister: Gross domestic product data are not available for Wales. Gross value added, which is very similar to GDP, increased by 39 per cent per head in the 10 years to 2009. Over time, I believe that the economic renewal programme will greatly enhance the performance of the Welsh economy.

Peter Black: Thank you for that response, Deputy First Minister. You know, of course, that the GVA of Wales is just 85 per cent of the EU average, down from 86.9 in the 2007-08 figures. Given that we are falling back in terms of our GVA performance, what are you doing in terms of the European structural fund programme for future years to try to ensure that the mistakes that we have made in the past in using that money will be put right, and that we can actually use that money to generate proper economic growth?

The Deputy First Minister: We recognised

yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig pellach, erbyn diwedd yr wythnos hon mae'n debyg.

Jenny Randerson: Dylai'r ffigurau ynghylch y defnydd a wneir ynddynt eu hunain fod wedi rhybuddio unrhyw Lywodraeth fod problemau yno. Fodd bynnag, gadewch inni edrych tua'r dyfodol. Y bore yma, cyhoeddodd y Canghellor yn y gyllideb y byddai 10 parth menter yn cael eu sefydlu ar draws Lloegr. Bydd arian canlyniadol Barnett i Gymru yn deillio o hyn. A ydych o blaid sefydlu parthau menter yng Nghymru er mwyn gwella ein heconomi a'i datblygu, ac i'n galluogi i gystadlu o fewn y DU ac yn fyd-eang?

Lesley Griffiths: Mae'n rhy gynnar dweud; mae'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried, ond bydd hynny'n fater i'r Llywodraeth newydd.

Wales's Gross Domestic Product

9. Peter Black: *Will the Minister make a statement on Wales's GDP. OAQ(3)1874(ECT)*

Y Dirprwy Brif Weinidog: Nid yw data ynghylch cynnyrch mewnwladol crynswth ar gael yng nghyswllt Cymru. Cynyddodd gwerth ychwanegol crynswth, sy'n debyg iawn i gynnyrch mewnwladol crynswth, 39 y cant y pen yn y 10 mlynedd hyd at 2009. Dros amser, tybiaf y bydd y rhaglen adnewyddu economaidd yn gwella perfformiad economi Cymru yn sylweddol.

Peter Black: Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Ddirprwy Brif Weinidog. Gwyddoch, wrth gwrs, mai 85 y cant yn unig o gyfartaledd yr UE yw gwerth ychwanegol crynswth Cymru, sef gostyngiad o'r hyn a oedd yn ffigurau 2007-08, sef 86.9. O ystyried ein bod yn llithro'n ôl o ran ein perfformiad yng nghyswllt gwerth ychwanegol crynswth, beth yr ydych chi'n ei wneud o ran y rhaglen cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gyfer y dyfodol i geisio sicrhau y bydd y camgymeriadau a wnaethom yn y gorffennol wrth ddefnyddio'r arian hwnnw yn cael eu cywiro, ac y gallwn ddefnyddio'r arian i greu twf economaidd gwirioneddol?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Gwnaethom

in the economic renewal programme that we needed to up our game and that the GVA figures were too low. There was recognition of the fact that GVA is not the only figure and is not perhaps the best indicator of living standards. The gross disposable household income figure is perhaps a better indicator. Nevertheless, we felt that it was important for us to recognise that improvements were needed in our economic performance, and with the introduction of the economic renewal programme, we have now realigned the structural fund programme so that the new approach and the proposition to business will receive support from European funds in that particular direction. So, we have changed some of our European programmes to align them with the ERP.

Brian Gibbons: I very much agree with what the Deputy First Minister has said. If you look at the GVA figures, they do not offer a particularly encouraging picture in many instances. However, if you look at the gross disposable household income figures, we get a different picture. Indeed, the latest figures from the Office for National Statistics, up to 2008, show that the GDHI in Wales has increased by 36.4 per cent and by 35.5 per cent in west Wales and the Valleys, compared to 33.4 per cent in the United Kingdom and 32.6 per cent in England. While the GVA figures are not encouraging, there are other indices, as you have indicated in your answer, which would suggest that we are deriving benefit from European funds and the structural funds programme in Wales.

The Deputy First Minister: You are absolutely right, Brian. It is necessary to look at all of the indicators to understand the position. For example, it is important to look at the GVA figures, the GDHI figures and at the employment rate as well, as we have made significant progress in that regard. The economic renewal programme recognises that you need to look right across the indices to understand where you are and not to be too fixated on one of them. We recognise that in

gydnabod yn y rhaglen adnewyddu economaidd fod angen inni ymdrechu'n ddycnach a bod y ffigurau gwerth ychwanegol crynswth yn rhy isel. Roedd cydnabyddiaeth o'r ffaith nad gwerth ychwanegol crynswth yw'r unig ffigur ac nad hwn o bosibl yw'r dangosydd gorau o ran safonau byw. Mae'r ffigur ynghylch incwm aelwydydd crynswth i'w wario yn ddangosydd gwell o bosibl. Serch hynny, yr oeddem o'r farn ei bod yn bwysig inni gydnabod bod angen gwelliannau yn ein perfformiad economaidd, ac, o gyflwyno'r rhaglen adnewyddu economaidd, yr ydym bellach wedi addasu'r rhaglen cronfeydd strwythurol fel y bydd y dull newydd a'r cynnig i fusnesau yn cael cymorth o gyllid Ewropeaidd yn y cyfeiriad penodol hwnnw. Felly, yr ydym wedi newid rhai o'n rhaglenni Ewropeaidd er mwyn iddynt gyd-fynd â'r rhaglen adnewyddu economaidd.

Brian Gibbons: Yr wyf yn cytuno i raddau helaeth â'r hyn a ddywedodd y Dirprwy Brif Weinidog. Os edrychwch ar y ffigurau gwerth ychwanegol crynswth, nid ydynt yn cynnig darlun arbennig o galonogol mewn sawl achos. Fodd bynnag, os edrychwch ar y ffigurau ynghylch incwm aelwydydd crynswth i'w wario, cawn ddarlun gwahanol. Yn wir, mae'r ffigurau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, hyd at 2008, yn dangos bod incwm aelwydydd crynswth i'w wario wedi cynyddu 36.4 y cant yng Nghymru a 35.5 y cant yn y gorllewin a'r Cymoedd, o'i gymharu â 33.4 y cant yn y Deyrnas Unedig a 32.6 y cant yn Lloegr. Er nad yw'r ffigurau gwerth ychwanegol crynswth yn galonogol, mae mynegeion eraill, fel yr ydych wedi'i nodi yn eich ateb, a fyddai'n awgrymu ein bod yn cael budd o gronfeydd Ewropeaidd a'r rhaglen cronfeydd strwythurol yng Nghymru.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr ydych yn hollol gywir, Brian. Mae angen edrych ar yr holl ddangosyddion i ddeall y sefyllfa. Er enghraifft, mae'n bwysig edrych ar y ffigurau gwerth ychwanegol crynswth, y ffigurau ynghylch incwm aelwydydd crynswth i'w wario, a'r gyfradd gyflogaeth hefyd, oherwydd yr ydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn hynny o beth. Mae'r rhaglen adnewyddu economaidd yn cydnabod bod angen edrych ar draws y mynegeion i ddeall

the challenges we set ourselves in the 'One Wales' agreement.

Darren Millar: I am sure that you will join me in welcoming the cuts announced by the Chancellor of the Exchequer in the level of corporation tax and fuel duty and the announcement on the creation of enterprise zones across the UK, including hopefully here in Wales. One way to improve GDP in our country is of course to work to create highly paid, decent-quality jobs across this nation. What are you doing to create new jobs in Wales?

The Deputy First Minister: We recognised two things in the economic renewal programme. First, that we need to create high-value jobs, which is why we have concentrated on skills, research and development, infrastructure and both hard-wired and mobile technology. We also recognise that, in order to increase wealth in Wales, we need to increase the size of the private sector. Therefore, working with industry, we are determined to do that and will continue to do so. I hope that the next Government, since there was all-party support for that, will continue the good work that we have already started.

Darren Millar: You are right, Deputy First Minister, that there is all-party support for such an approach, but, unfortunately, the words that you are speaking do not match the actions that you and your officials are taking on this particular front. Only last week, for example, we heard about a businessman from south Wales, Michael Samuel, who wanted to create over 200 jobs in south Wales by establishing a company building eco-friendly modular homes. He desperately wants to create those jobs in Wales, but, unfortunately, he is drawn to Hull because of the lack of assistance that is being given by your department. After more than 50 calls, he was still no further down the line in terms of making progress. This is not only true in south Wales; in your constituency of Anglesey, Deputy First Minister, another company, the Lightning Car Company, wants

y sefyllfa a pheidio â chanolbwyntio gormod ar un ohonynt. Yr ydym yn cydnabod hynny yn yr heriau y gwnaethom bennu i ni ein hunain yng nghytundeb 'Cymru'n Un'.

Darren Millar: Yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu'r toriadau a gyhoeddodd Canghellor y Trysorlys i lefel y dreth gorfforaeth a'r dreth danwydd a'r cyhoeddiad ynghylch creu parthau menter ledled y DU, gan gynnwys yma yng Nghymru, gobeithio. Un ffordd o wella cynnyrch mewnwladol crynswth yn ein gwlad, wrth gwrs, yw gweithio i greu swyddi â chyflog uchel ac o safon ar draws y genedl hon. Beth yr ydych chi'n ei wneud i greu swyddi newydd yng Nghymru?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Gwnaethom gydnabod dau beth yn y rhaglen adnewyddu economaidd. Y peth cyntaf oedd bod angen inni greu swyddi o werth uchel, a dyna pam yr ydym wedi canolbwyntio ar sgiliau, ymchwil a datblygu, seilwaith a thechnoleg wifredig a symudol. Rydym hefyd yn cydnabod, er mwyn cynyddu cyfoeth yng Nghymru, fod angen inni gynyddu maint y sector preifat. Felly, gan weithio gyda diwydiant, rydym yn benderfynol o wneud hynny a byddwn yn parhau i wneud hynny. Gobeithio y bydd y Llywodraeth nesaf, gan fod cefnogaeth gan bob plaid i hynny, yn parhau â'r gwaith da yr ydym wedi ei ddechrau eisoes.

Darren Millar: Yr ydych yn llygad eich lle, Ddirprwy Brif Weinidog, fod cefnogaeth gan bob plaid i ddull o'r fath, ond, yn anffodus, nid yw'r geiriau yr ydych yn eu hynganu yn cyfateb i'r camau yr ydych chi a'ch swyddogion yn eu cymryd yn hyn o beth. Dim ond yr wythnos diwethaf, er enghraifft, clywsom am Michael Samuel, dyn busnes o dde Cymru, a oedd yn awyddus i greu dros 200 o swyddi yn ne Cymru drwy sefydlu cwmni i adeiladu tai modiwlwr ecogyfeillgar. Mae ar dân i greu'r swyddi hynny yng Nghymru, ond, yn anffodus, mae'n cael ei ddenu i Hull oherwydd y diffyg cymorth sy'n cael ei roi gan eich adran. Ar ôl mwy na 50 o alwadau, nid oedd fawr pellach o ran gwneud cynnydd. Nid yw hyn yn wir yn ne Cymru yn unig; yn eich etholaeth, Ynys Môn, Ddirprwy Brif Weinidog, mae cwmni arall, sef Lightning Car Company, yn awyddus i greu

to create around 400 jobs by setting up a business that develops green car technologies. I know that you have discussed that with your officials, but, again, there appears to be no real progress. How do you reconcile the glossy documents and the words with the reality on the ground in terms of action and the deliverability of these jobs, especially given that not a single penny has so far been paid to a business in Wales in financial support under the new economic renewal programme since it was announced in July last year?

The Deputy First Minister: To deal with the issue of Mr Samuel first, we have recognised with him the importance of developing a low-carbon economy and reaching our targets within the green jobs strategy. We have accepted that the proposal could bring new jobs to Wales. A lead contact was identified to assist Mr Samuel on 10 February and their first meeting took place on 16 February. Mr Samuel's business plan is receiving consideration. My officials remain in close contact with him and are providing support and assistance. I have also contacted the Lightning Car Company, which has told me that it is delighted with the support that it is getting from the Welsh Assembly Government. It fully understands the need to discuss its business plan fully. My officials stand ready to talk to that company and, if that proposed business plan has merits, it will be supported in the normal way.

Gareth Jones: A yw'r Gweinidog yn cydnabod buddion economaidd amlwg buddsoddi mewn gwasanaethau rheilffyrdd cyflym modern, ac mewn trydaneiddio rheilffyrdd fel sy'n cael eu dangos yn gyson gan yr Athro Stuart Cole o Ganolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru, buddsoddi a fyddai'n codi cynnyrch mewnwladol crynswth a gwerth ychwanegol crynswth? A ydych, fel minnau, yn gresynu nid yn unig fod y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwrthwynebu trydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe ac i ogledd Cymru, ond bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gwrthwynebu prosiect rheilffordd gyflym yr High Speed 2, oherwydd y byddai'n tarfu ar ei hetholaeth lewyrchus yn ne Lloegr, er

tua 400 o swyddi drwy sefydlu busnes sy'n datblygu technolegau gwyrdd i geir. Gwn eich bod wedi trafod hynny â'ch swyddogion, ond, unwaith eto, mae'n ymddangos nad oes unrhyw gynnydd gwirioneddol. Sut yr ydych yn cysoni'r dogfennau moethus a'r geiriau â'r realiti ar lawr gwlad o ran gweithredu ac ymarferoldeb darparu'r swyddi hyn, yn enwedig o gofio na chafodd yr un geiniog ei thalu hyd yma ar ffurf cymorth ariannol i fusnes yng Nghymru o dan y rhaglen adnewyddu economaidd newydd ers iddi gael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf y llynedd?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ac ymdrin â mater Mr Samuel yn gyntaf, yr ydym wedi cydnabod gydag ef bwysigrwydd datblygu economi carbon isel a chyrraedd ein targedau yn y strategaeth swyddi gwyrdd. Yr ydym wedi derbyn y gallai'r cynnig ddod â swyddi newydd i Gymru. Cafodd unigolyn cyswllt arweiniol ei bennu i gynorthwyo Mr Samuel ar 10 Chwefror a chawsant eu cyfarfod cyntaf ar 16 Chwefror. Mae cynllun busnes Mr Samuel yn cael ei ystyried. Mae fy swyddogion yn parhau i fod mewn cysylltiad agos ag ef ac yn darparu cefnogaeth a chymorth. Yr wyf hefyd wedi cysylltu â Lightning Car Company, sydd wedi dweud wrthyf ei fod yn fodlon iawn â'r cymorth y mae'n ei gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n deall yn llwyr fod angen trafod ei gynllun busnes yn llawn. Mae fy swyddogion yn barod i siarad â'r cwmni hwnnw, ac, os bydd rhinweddau yn y cynllun busnes arfaethedig, bydd yn cael ei gefnogi yn y ffordd arferol.

Gareth Jones: Does the Minister recognise the clear economic benefits of investment in modern high-speed railways and in the electrification of railways as demonstrated regularly by Professor Stuart Cole from the Wales Transport Research Centre, investment that would increase GDP and GVA? Do you, like me, regret not only the opposition of the Conservatives and Liberal Democrats to the electrification of the railway line to Swansea and to north Wales, but that of the Secretary of State for Wales to the High Speed 2 railway project, because it would disrupt her prosperous constituency in southern England, despite the fact that it will be an opportunity to give a boost to the prosperity of the people and communities of north Wales?

gwaethaf y ffaith y byddai'n gyfle i roi hwb i ffyniant pobl a chymunedau yng ngogledd Cymru?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr ydych yn tynnu sylw at bwysigrwydd buddsoddi mewn rheilffyrdd i sicrhau bod gennych yr isadeiledd cywir. Gwnaethoch y pwynt unwaith yn rhagor bod angen trydaneiddio'r gwasanaeth bob cam i Abertawe a bod yn rhaid edrych ar wneud hynny yng ngogledd Cymru hefyd. Gobeithiwn y cynhelir trafodaethau gyda Network Rail a'r Llywodraeth yn Llundain yn y Cynulliad nesaf ac y byddwn yn gallu trosglwyddo cyllideb Network Rail i Gymru er mwyn i ni allu penderfynu ar ein blaenoriaethau ein hunain. Mae'n bwysig iawn hefyd ein bod yn rhan o'r trafodaethau y bydd yn arwain at ddatblygu'r rhwydwaith cyflymder uchel, high speed 2, a byddwn yn parhau i bwysio ar y Llywodraeth yn Llundain i sicrhau bod ein swyddogion yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r prosiect hwnnw.

2.45 p.m.

Jeff Cuthbert: Deputy First Minister, do you agree that we should welcome the news that GE Aviation in Nantgarw recently announced 100 new high-tech jobs including apprenticeships? Furthermore, do you agree that the statement that the previous use made of structural funds has not worked cannot be accepted? Objective 1 money has provided about 40,000 new jobs and has safeguarded a similar number. The current rounds of funding ensured financial support for ProAct and ReAct, which have saved about 11,000 jobs, while financial instruments like JEREMIE and JESSICA will, even at these early stages, make an important difference.

The Deputy First Minister: I very much agree, Jeff, that we have been able to make good use of European funding. We were able to make good use of it in the recession, because we were able to protect skills in Wales and no other part of the United Kingdom did that. Wales can be proud of the fact that we introduced the ProAct scheme, and we have built on that with the skills growth programme that we are now pursuing.

The Deputy First Minister: You are drawing attention to the importance of investment in railways in order to ensure that you have the right infrastructure. You made the point once again that there is a need for the service to be electrified all the way to Swansea and that we must also look at doing that in north Wales. We hope that discussions will take place with Network Rail and the Government in London during the next Assembly and that we can transfer Network Rail's budget to Wales in order for us to be able to decide on our own priorities. It is also very important that we are part of the discussions that will lead to the development of the high speed network, high speed 2, and we will continue to press the Government in London to ensure that our officials are part of the development work for that project.

Jeff Cuthbert: Ddirprwy Brif Weinidog, a ydych yn cytuno y dylem groesawu'r newyddion diweddar bod GE Aviation yn Nantgarw wedi cyhoeddi 100 o swyddi uwch-dechnoleg newydd, gan gynnwys prentisiaethau? Ar ben hynny, a ydych yn cytuno na ellid derbyn y datganiad nad yw'r defnydd blaenorol a wnaed o gronfeydd strwythurol wedi gweithio? Mae arian Amcan 1 wedi creu tua 40,000 o swyddi newydd ac mae wedi diogelu nifer tebyg. Mae'r cylchoedd ariannu presennol wedi sicrhau cymorth ariannol i ProAct a ReAct, sydd wedi arbed tua 11,000 o swyddi, tra bydd offerynnau ariannol fel JEREMIE a JESSICA yn gwneud gwahaniaeth pwysig, hyd yn oed yn y dyddiau cynnar hyn.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn cytuno, Jeff, ein bod wedi gallu gwneud defnydd da o gyllid Ewropeaidd. Yr oeddem yn gallu gwneud defnydd da ohono yn y dirwasgiad, oherwydd yr oeddem yn gallu diogelu sgiliau yng Nghymru ac ni wnaeth unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig hynny. Gall Cymru fod yn falch o'r ffaith inni gyflwyno cynllun ProAct, ac rydym wedi datblygu ar sail hynny gyda'r rhaglen sgiliau

You are right that the jobs in Nantgarw that you refer to are the kind that we want to attract to Wales because they take us higher up the value chain so that we can benefit from higher gross value added figures in future. Alongside that, the use that we make of loans through the JEREMIE fund and of regeneration resources under JESSICA shows that we in Wales are at the forefront of making European funding work for us.

twf yr ydym yn bwrw ymlaen ag ef yn awr. Yr ydych yn llygad eich lle mai'r swyddi yn Nantgarw yr ydych yn cyfeirio atynt yw'r math yr ydym am eu denu i Gymru gan eu bod yn mynd â ni yn uwch i fyny'r gadwyn werth fel y gallwn gael budd o ffigurau gwerth ychwanegol crynswth uwch yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hynny, mae'r defnydd a wnawn o fenthyciadau drwy gronfa JEREMIE ac o adnoddau adfywio o dan JESSICA yn dangos ein bod ni yng Nghymru ar flaen y gad o ran gwneud i gyllid Ewropeaidd weithio i ni.

Y Llywydd: Diolch yn fawr am yr atebion hynny.

The Presiding Officer: Thank you very much for those answers.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Y Methiant Pŵer Mawr ar Rwydwaith Rheilffordd De Cymru The Major Power Failure on the South Wales Rail Network

Jenny Randerson: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith y methiant pŵer mawr ar rwydwaith rheilffordd De Cymru ar deithwyr a'r economi ehangach? EAQ(3)1891(ECT)*

Jenny Randerson: *Will the Minister make a statement on the impact of the major power failure on the South Wales rail network on passengers and the wider economy. EAQ(3)1891(ECT)*

Rhodri Glyn Thomas: Credaf fod gofyn inni, yn y lle cyntaf, ystyried beth yn union yw pwrpas y Gorchymyn y mae'r Gweinidog wedi'i osod ger ein bron ar gyfer difa moch daear mewn ardal ddaearyddol gyfyngedig yng ngogledd sir Benfro. Mae'r ardal honno wedi dioddef cynnydd eithriadol mewn achosion o'r diciâu mewn gwartheg. Nid ydym yn sôn am Orchymyn a gaiff ei weithredu drwy Gymru gyfan. Mae'n gywir i ddweud bod gostyngiad wedi bod yn y ffigurau drwy Gymru gyfan, ond mae'n llawer rhy gynnar i benderfynu a yw hynny'n dangos gostyngiad yn nhuedd y ffigurau hyn. Os edrychwn ar y ffigurau ar gyfer y 10 mlynedd diwethaf, gwelwn fod cynnydd

gostwng ers cyflwyno'r awgrym gwreiddiol, ac, fel y soniodd Lorraine, mae dros 40 y cant yn llai o wartheg wedi cael eu lladd—a hynny heb ddifa moch daear.

Rhodri Glyn Thomas: A wnewch chi ildio?

Christine Chapman: Nid wyf yn mynd i gymryd ymyriad, Rhodri Glyn. Gwyddom bod llawer o bobl yng Nghymru yn dal i fod yn chwyrn yn erbyn y cynlluniau ac na ellir eu perswadio fel arall. Fel llawer ohonoch, rwyf wedi cael ambell i e-bost angerddol iawn. Nid copiau yw'r rhain o'r un llythyr wedi'i lofnodi gan wahanol bobl, ond llythyrau gwahanol. Mae pobl yn anhapus iawn am hyn. Mae perygl mawr y gallai fod aflonyddwch mewn cymunedau. Credaf y byddai'n gamgymeriad anwybyddu cryfder y teimlad ynghylch hyn. Gwn hefyd ei fod eisoes wedi cael effaith negyddol ar dwristiaeth yn Sir Benfro. Rwy'n deall bod teuluoedd sy'n dod i aros yn y rhan hyfryd hwnnw o Gymru eisoes wedi canslo eu gwestai gwely-a-brecwast. Mae hynny'n drueni mawr.

Dros y 12 mlynedd o ddatganoli, rwyf wedi bod yn falch iawn o'r gwaith a wnaethom i hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Rwyf hefyd yn falch o'r dull sy'n bennaf seiliedig ar dystiolaeth a gymerwyd gennym wrth wneud polisi. Mae'r difa hwn yn hedfan yn wyneb hynny i gyd. Rwyf yn drist bod y Gweinidog wedi cymryd y camau hyn. Cyn ei bod yn rhy hwyr, rwyf yn annog cyd-Aelodau i bleidleisio o blaid y cynnig ac yn erbyn y difa.

Rhodri Glyn Thomas: I think that, first of all, we need to consider the exact purpose of the Order that the Minister has brought forward to cull badgers in a limited geographical area in north Pembrokeshire. That area has shown a huge increase in the cases of bovine TB. We are not talking about an all-Wales Order. It is right to say that there has been a reduction in the numbers on an all-Wales basis, but it is far too early to say whether that shows a reduction in the trend for these figures. If we look at the figures over the past 10 years, we see an incredible increase in the number of cases of bovine TB in Wales.

eithriadol wedi bod yn nifer yr achosion o'r diciâu mewn gwartheg yng Nghymru.

Mae'n rhaid inni nodi hefyd fod y cynllun hwn yng ngogledd sir Benfro yn rhan o strategaeth gyffredinol a chynhwysfawr i ddileu'r diciâu mewn gwartheg. Nid dyma yw'r strategaeth yn ei gyfanrwydd. Hoffwn annog pobl sydd wedi ymgyrchu yn erbyn y cam hwn i edrych mewn modd cyfannol ar y strategaeth a gyflwynwyd gan y Gweinidog. Mae rhai pobl yn sôn am y wyddoniaeth sydd y tu ôl i hyn i gyd. Yr wyf wedi derbyn gohebiaeth gan Gymdeithas Milfeddygon Prydain, a byddwn yn tybio bod Cymdeithas Milfeddygon Prydain yn deall materion sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid. Mae gan y gymdeithas honno farn gadarn bod y cynllun hwn yng ngogledd sir Benfro yn rhan hanfodol o strategaeth gyffredinol y Gweinidog i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn canmol y Gweinidog. Yr wyf wedi bod yma am 12 mlynedd, a hi yw'r Gweinidog sydd wedi wynebu'r sefyllfa hon a mynd i'r afael â hi. Mae'r broblem wedi cael ei hanwybyddu dros 12 mlynedd, ond mae hi wedi bod yn ddigon dewr i fynd i'r afael â hi. Mae wedi gweld bod modd i sicrhau y gallwn ddileu'r broblem hon, sydd wedi creu cymaint o broblemau nid yn unig ymhlith gwartheg ond ymhlith bywyd gwyllt yng Nghymru yn gyffredinol. Mae rhai pobl yn dadlau ein bod yn canolbwyntio ar ddifa moch daear, ond nid yw'r strategaeth yn ei chyfanrwydd yn canolbwyntio ar hynny. Mae'r cynllun hwn yng ngogledd sir Benfro yn rhan bwysig o'r strategaeth, ond rhan ohoni yn unig. Cyfeiriaf yr Aelodau yn ôl at y ffaith bod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig wedi edrych ar y mater hwn yn ei gyfanrwydd yn 2009. Wedi edrych ar y sefyllfa a derbyn y dystiolaeth i gyd, yr oedd yr is-bwyllgor yn gwbl gadarn yn ei argymhelliad bod yn rhaid cael y cynllun difa hwn fel rhan o'r strategaeth gyffredinol. Yr wyf yn pwyso ar yr Aelodau i edrych yn ôl at y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r is-bwyllgor hwnnw. Cafodd y dystiolaeth ei bwysio a mesur yn ofalus gan yr is-bwyllgor, ac yr oedd ei argymhelliad yn gwbl glir.

Mark Isherwood: You made reference to the British Veterinary Association, and I concur

We must also recognise that this scheme in north Pembrokeshire is part of a comprehensive and holistic strategy to eradicate bovine TB. This is not the whole strategy. I would urge those people who have been campaigning against this proposal to look in a holistic way at everything that the Minister has proposed. Some people talk about the science behind all of this. I have received correspondence from the British Veterinary Association, and one would expect that such an association would know what it was talking about in terms of animal health. The association is clear in its opinion that this scheme in north Pembrokeshire is crucial to the general strategy that the Minister has put in place to deal with this problem.

I believe that it is important that we praise this Minister. I have been here for 12 years, and she is the first to have got to grips with this issue. It has been ignored over a period of 12 years, but she has been brave enough to get to grips with this problem. She has identified a means of ensuring that we can eradicate this problem, which has created so many problems, not only in cattle but also in wildlife in Wales in general. Some people argue that we are focusing on a badger cull, but the strategy as a whole does not focus on that aspect. This scheme in north Pembrokeshire is an important part of the strategy, but it is only one part of it. I refer Members back to the fact that the Rural Development Sub-Committee looked at this in a comprehensive way back in 2009. Having looked at the situation and having gathered all the evidence, the sub-committee was firm in its recommendation that this cull had to be included as part of the general strategy. I urge Members to review the evidence presented to that sub-committee. It was considered by the sub-committee and the recommendation was unequivocal.

Mark Isherwood: Gwnaethoch gyfeirio at Gymdeithas Milfeddygon Prydain, ac rwyf

with your comments. Do you agree that its evidence is part of the best peer-reviewed science that we should be considering? The association states that the failure to tackle wildlife sources of infection has prolonged the presence of bovine TB in all affected species populations. Therefore, it supports targeted, managed and humane badger culling in carefully selected areas where badgers are regarded as a significant contributor to the persistent presence of bovine TB. It goes on to say that the independent scientific group report indicated that as many as 40 per cent of cattle breakdowns in such areas could be attributed to infection from the badger population.

Rhodri Glyn Thomas: I am grateful for your intervention, Mark. That is the science in relation to this issue. The British Veterinary Association understands the science of animal welfare. This is not about cattle welfare, but about animal and wildlife welfare in general. It is important that we respect and acknowledge that. I am happy to fully support the comprehensive strategy that the Minister has brought forward to eradicate TB in cattle, not only to ensure the welfare of cattle, but to ensure the welfare of wildlife in general in Wales.

Irene James: As I have stated previously in relation to this matter, I feel strongly that the Minister is taking a decision that flies in the face of the evidence, especially in the light of the increased evidence provided after the independent scientific group's trial. It concluded that culling badgers makes no meaningful contribution to controlling bovine TB. In fact, the head researcher at the Government's research centre was adamant that culling badgers would make bovine TB worse. The latest bovine TB statistics for Wales show a continuing reduction. During 2010, 2,743 cattle were slaughtered because they tested positive for bovine TB—5,353 fewer than in 2008, which is a reduction of over 40 per cent over two years. There are claims that these figures are notoriously cyclical. Had these reductions happened after a cull, however, I do not think that the

yn cytuno â'ch sylwadau. A ydych yn cytuno bod ei dystiolaeth yn rhan o'r wyddoniaeth orau a adolygwyd gan gyfoedion y dylem ei hystyried? Dywed y gymdeithas bod y methiant i fynd i'r afael â ffynonellau haint mewn bywyd gwyllt wedi ymestyn presenoldeb TB mewn gwartheg ymhlith poblogaethau'r holl rywogaethau yr effeithir arnynt. Felly, mae'n cefnogi difa moch daear pan fo wedi ei dargedu a'i reoli, a phan fo'n drugarog, mewn ardaloedd a ddewiswyd yn ofalus lle caiff moch daear eu hystyried fel cyfrannwr sylweddol i bresenoldeb parhaus TB mewn gwartheg. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod adroddiad y grŵp gwyddonol annibynnol wedi nodi y gellid priodoli cymaint â 40 y cant o salwch gwartheg mewn ardaloedd o'r fath i haint gan y boblogaeth moch daear.

Rhodri Glyn Thomas: Rwyf yn ddiolchgar am eich ymyriad, Mark. Dyna'r gwyddoniaeth o ran y mater hwn. Mae Cymdeithas Milfeddygon Prydain yn deall y wyddoniaeth o ran lles anifeiliaid. Nid yw hyn yn ymwneud â lles gwartheg, ond ag anifeiliaid a lles bywyd gwyllt yn gyffredinol. Mae'n bwysig ein bod yn parchu a chydnabod hynny. Rwyf yn hapus i gefnogi'n llawn y strategaeth gynhwysfawr y cyflwynodd y Gweinidog i ddileu TB mewn gwartheg, nid yn unig i sicrhau lles gwartheg, ond i sicrhau lles bywyd gwyllt yn gyffredinol yng Nghymru.

Irene James: Fel y dywedais o'r blaen am y mater hwn, teimlaf yn gryf bod y Gweinidog yn gwneud penderfyniad sy'n mynd yn groes i'r dystiolaeth, yn enwedig o ystyried y dystiolaeth gynyddol a gafwyd ar ôl treial y grŵp gwyddonol annibynnol. Daeth i'r casgliad nad oedd difa moch daear yn gwneud unrhyw gyfraniad ystyrion i reoli TB mewn gwartheg. Yn wir, roedd y prif ymchwilydd yng nghanolfan ymchwil y Llywodraeth yn bendant y byddai difa moch daear yn gwneud TB mewn gwartheg yn waeth. Dengys ystadegau diweddaraf TB mewn gwartheg ar gyfer Cymru ostyngiad parhaus. Yn ystod 2010, cafodd 2,743 o wartheg eu difa oherwydd eu bod wedi profi'n bositif am TB mewn gwartheg—5,353 yn llai nag yn 2008, sy'n ostyngiad o dros 40 y cant dros ddwy flynedd. Mae honiadau bod y ffigurau hyn yn enwog am

Minister and farmers would suggest that. Changes happened before the present package of cattle measures was introduced, which suggests that the cyclical phenomenon may not be a thing of the past. The measures that WAG has introduced are having an effect and, as I said earlier, had the previous cull Order been carried out, the Minister would no doubt claim these figures as evidence of its success. In light of these figures, will she now recognise the gamble that a cull would be, as many experts insist that it could make things worse? We all recognise that bovine TB is causing untold misery and suffering to farmers all over Wales. Therefore, if we annul this Order today, we could and should introduce a new Order to introduce a vaccination scheme. With an alternative option on the table, and many people questioning whether a cull can result in a clear conclusion, now is surely the time to stop and think.

Rhodri Glyn Thomas: Will you take an intervention?

Irene James: No. Sorry, Rhodri. You had your chance earlier. There seems to be serious doubt about whether, at the end of this time-consuming and expensive exercise, we will know what has happened as a result and what it means. We will not know which factors have caused any future fall in bovine TB. In my time as an Assembly Member, I have never received so much correspondence in such a short time on one single issue.

Rhodri Glyn Thomas: Not from Wales.

Irene James: I have to say, Rhodri Glyn, that the correspondence that I have received has all been from Wales. That demonstrates the huge amount of public concern and anger that exists over this—particularly among individuals living in the proposed cull area. I hope that no-one in this Chamber will be arrogant enough to simply dismiss this strongly felt concern. When the initial bovine TB Order was debated, I said to you all that, if you wished to be a good friend to the

fod yn gylchol. Pe bai'r gostyngiadau hyn wedi digwydd ar ôl difa, fodd bynnag, ni thbyiaf y byddai'r Gweinidog a ffermwyr yn awgrymu hynny. Digwyddodd y newidiadau cyn cyflwyno'r pecyn presennol o fesurau gwartheg, sy'n awgrymu efallai nad yw'r ffenomen cylchol yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol. Mae'r mesurau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael effaith ac, fel y dywedais yn gynharach, pe bai'r Gorchymyn difa blaenorol wedi'i weithredu, byddai'r Gweinidog yn sicr yn hawlio'r ffigurau hyn fel tystiolaeth o'i lwyddiant. Yng ngoleuni'r ffigurau hyn, a wnaiff hi bellach gydnabod y gambl o ddifa, gan fod llawer o arbenigwyr yn mynnu y gallai wneud pethau'n waeth? Rydym oll yn cydnabod bod TB mewn gwartheg yn achosi dioddefaint difesur i ffermwyr ledled Cymru. Felly, os ydym yn dirymu'r Gorchymyn hwn heddiw, gallem a dylem gyflwyno Gorchymyn newydd i gyflwyno cynllun brechu. Gyda dewis arall ar y bwrdd, a llawer o bobl yn amau a all difa arwain at gasgliad clir, nawr yw'r amser i aros a meddwl.

Rhodri Glyn Thomas: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Irene James: Na. Mae'n ddrwg gennyf, Rhodri. Cawsoch eich cyfle yn gynharach. Ymddengys bod amheuaeth ddifrifol ynghylch a fyddwn yn gwybod, ar ddiwedd yr ymarfer llafurus a drud hwn, beth a ddigwydd o ganlyniad a beth y mae'n ei olygu. Ni fyddwn yn gwybod pa ffactorau sydd wedi achosi unrhyw ostyngiad yn y dyfodol mewn TB mewn gwartheg. Yn ystod fy nghyfnod fel Aelod Cynulliad, ni chefais erioed gymaint o ohebiaeth mewn cyfnod mor fyr ar un mater.

Rhodri Glyn Thomas: Nid o Gymru.

Irene James: Rhaid i mi ddweud, Rhodri Glyn, bod yr ohebiaeth a gefais wedi dod i gyd o Gymru. Dengys hynny'r pryder a'r dicter sydd ymysg y cyhoedd am hyn—yn enwedig ymysg unigolion sy'n byw yn yr ardal ddifa arfaethedig. Gobeithio na fydd unrhyw un yn y Siambr hon yn ddigon trahaus i ddiystyru'r teimladau cryf hyn. Pan gafodd y Gorchymyn TB gwartheg cychwynol ei drafod, dywedais wrthoch i gyd, os ydych am fod yn gyfaill da i'r

farming community, you would have to be brave and tell farmers something that many of them do not wish to hear. That is what a good friend does for us all. I would like to repeat that statement here today and ask you all to vote against this very foolhardy cull.

Mick Bates: As the debate on the annulment Order progresses, it is becoming clear that everyone understands that there are two clear issues. There is the scientific evidence that has been presented, which is open to interpretation. Then there is the emotive issue that has given rise to so much interest in the Order today. I, for one, would like to put on the record my appreciation of all those people, including those who are here today to listen to the debate, for their communications. I hope that I have been able to respond fully to each one. With regard to the emotion, as a member of a farming business, I know too well the absolute devastation and the psychological and lasting impact of any disease. Those of you who watched as the foot and mouth disease outbreak happened will have seen great publicity of the impact on farming families.

In my opinion, TB is a more eroding disease, which has had a desperate impact on a great number of farming families. Many of us here met those families and understand the devastation. Farmers are not given to great emotional outbursts. Some of you will have lived through the era when the suicide rate was massively high in farming compared to other sectors of our workforce. Very quietly, the farmers have got on with what is a terrible psychological burden. I understand the emotion shared by those who oppose the Order for this limited and very restricted cull. However, I ask you to also think of those farms from which 71,000 cattle have been killed in the past 10 years because of TB. I also ask you to understand the work of the chief veterinary officer and the veterinary service in Wales. They have sifted the evidence to come up with a strategy that will eradicate this disease from wildlife and cattle. That must be the linchpin of the strategy being developed by the Minister and her staff. However, it is an integrated strategy, one where measures are taken for very strict cattle controls and for biosecurity. Of course,

gymuned ffermio, byddai'n rhaid i chi fod yn ddewr a dweud rhywbeth wrth ffermwyr nad yw llawer ohonynt yn dymuno ei glywed. Dyna beth mae ffrind da yn ei wneud i ni gyd. Dymunaf ddweud hynny eto yma heddiw a gofyn i chi i gyd bleidleisio yn erbyn y difa rhyfygus iawn hwn.

Mick Bates: Wrth i'r ddadl ar ddirymu'r Gorchymyn fynd yn ei blaen, daw yn amlwg bod pawb yn deall bod dau fater amlwg. Ceir y dystiolaeth wyddonol sydd wedi cael ei chyflwyno, sy'n agored i'w dehongli. Yna ceir y mater emosiynol a arweiniodd at gymaint o ddiddordeb yn y Gorchymyn heddiw. Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad o'r holl bobl hynny, gan gynnwys y rhai sydd yma heddiw i wrando ar y ddadl, am eu gohebiaeth. Gobeithio y gallaf ymateb yn llawn i bob un. O ran yr emosiwn, fel aelod o fusnes ffermio, gwn yn rhy dda am y dinistrllwyr ac effaith seicolegol a pharhaol unrhyw glefyd. Bydd y rhai ohonoch a wylodd clwy'r traed a'r genau yn digwydd wedi gweld cyhoeddusrwydd mawr am yr effaith ar deuluoedd sy'n ffermio.

Yn fy marn i, mae TB yn glefyd mwy erydol, a gafodd effaith enbyd ar nifer fawr o deuluoedd sy'n ffermio. Cyfarfu llawer ohonom yma â'r teuluoedd hynny ac yr ydym felly yn deall y difrod. Nid yw ffermwyr yn dueddol o ddangos eu hemosiynau ar chwarae bach. Bydd rhai ohonoch wedi byw drwy'r cyfnod pan oedd y gyfradd hunanladdiad yn aruthrol o uchel mewn ffermio o gymharu â sectorau eraill yn ein gweithlu. Yn dawel bach, mae'r ffermwyr wedi bwrw ymlaen â'r hyn sydd yn faich seicolegol ofnadwy. Rwyf yn deall yr emosiwn a rennir gan y rhai sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn ar gyfer y difa hynod gyfyngedig hwn. Fodd bynnag, gofynnaf i chi hefyd feddwl am y ffermydd hynny lle cafodd 71,000 o wartheg eu lladd yn y 10 mlynedd diwethaf oherwydd TB. Rwyf hefyd yn gofyn i chi ddeall gwaith y prif swyddog milfeddygol a'r gwasanaeth milfeddygol yng Nghymru. Maent wedi hidlo'r dystiolaeth i lunio strategaeth a fydd yn dileu'r clefyd hwn o fywyd gwyllt a gwartheg. Rhaid i hynny fod yn gonglfaen i'r strategaeth sy'n cael ei datblygu gan y

the evidence strongly supports the fact that culling badgers—culling part of the disease, of which there is a massive reservoir—can also play its part.

Gweinidog a'i staff. Fodd bynnag, mae'n strategaeth integredig, lle mae mesurau yn cael eu cymryd i reoli gwartheg yn llym iawn ac ar gyfer bioddiogelwch. Wrth gwrs, mae'r dystiolaeth yn hynod gefnogol i'r ffaith bod difa moch daear—difa rhan o'r clefyd, y mae cronfa anferth ar ei gyfer—hefyd yn gallu chwarae ei ran.

3.30 p.m.

People have mentioned the ISG and Professor John Bourne's report. However, if you read some of the comments about that report, you will know that much of the evidence was questionable because the traps were tampered with during the experiment. It produced unreliable evidence in many areas because of the impact of disturbance on the badger-trapping areas.

Mae pobl wedi sôn am y grŵp gwyddonol arbenigol ac adroddiad yr Athro John Bourne. Fodd bynnag, os ydych yn darllen rhai o'r sylwadau am yr adroddiad hwnnw, gwyddoch bod llawer o'r dystiolaeth yn amheus oherwydd ymyrrwyd â'r maglau yn ystod yr arbrawf. Cynhyrchodd dystiolaeth annibynadwy mewn sawl ardal oherwydd effaith y tarfu ar yr ardaloedd dal moch daear.

I look to the strongest evidence that is available. Let us start at a European level. The European Commission has stated that the elimination, or the reduction, of the risk that is posed by infective wildlife reservoirs enables other measures that are contained in the programme to yield expected results, where the persistence of TB in these wildlife populations impedes the effective elimination of the disease. You cannot expect to eliminate this disease while still having a large reservoir of the disease in wildlife. Furthermore, we have the British Veterinary Association's evidence, which has already been measured. That evidence states that targeted and managed badger culling is necessary in carefully selected areas where badgers are regarded as a significant contributor to the persistence and presence of TB. This is the voice of authority and evidence, which has suggested that this persistent disease must include culling badgers as part of its strategy.

Rwyf yn edrych tuag at y dystiolaeth gryfaf sydd ar gael. Gadewch inni ddechrau ar lefel Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud fod dileu, neu leihau, y risg a achosir gan gronfeydd bywyd gwyllt heintus yn galluogi mesurau eraill yn y rhaglen i gynhyrchu canlyniadau disgwylidig, lle mae parhad TB yn y poblogaethau bywyd gwyllt hyn yn rhwystro'r gwaith o ddileu'r clefyd yn effeithiol. Ni allwch ddisgwyl cael gwared ar y clefyd hwn tra bod cronfa fawr o'r clefyd mewn bywyd gwyllt. Ar ben hynny, mae gennym dystiolaeth Cymdeithas Milfeddygon Prydain, sydd eisoes wedi cael ei mesur. Dywed y dystiolaeth honno bod angen difa moch daear wedi ei dargedu a'i reoli mewn ardaloedd a ddewiswyd yn ofalus lle ystyrir bod moch daear yn cyfrannu'n sylweddol at barhad a phresenoldeb TB. Dyma lais awdurdod a thystiolaeth, sydd wedi awgrymu bod yn rhaid i'r clefyd parhaus hwn gynnwys difa moch daear fel rhan o'i strategaeth.

I fully support the millions of pounds that are being spent by the Department for Environment, Food and Rural Affairs on developing a vaccination programme. However, the evidence suggests that we must do something in the meantime, which has long been lacking. That is why I wish to thank the Minister, who has brought forward an integrated raft of controls, which will

Rwyf yn llwyr gefnogi'r miliynau o bunnoedd sy'n cael eu gwario gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar ddatblygu rhaglen frechu. Fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth bod yn rhaid inni wneud rhywbeth yn y cyfamser, sydd wedi bod yn ddiffygiol ers rhy hir. Dyna pam yr wyf yn dymuno diolch i'r Gweinidog, a gyflwynodd gyfres o reolaethau integredig, a

hopefully—

Irene James *rose*—

Mick Bates: If you wish to intervene at this late stage, Irene, you may.

Irene James: Thank you, Mick. We are all talking about bovine TB and badgers. However, what evidence do you have that it is the badger that gives the cow TB?

Mick Bates: In terms of transmission, you must look at all of the evidence. The whole point of an integrated strategy is the recognition of a lot of evidence and trials that there is a transmission impact. Even the ISG report that you quote admitted to 21 per cent transmission, I believe, in what I consider to be a flawed trial.

Finally, I offer my full support to the Minister and her staff. They have worked hard to eradicate TB in all wildlife and cattle in Wales. I hope that this will be successful, and that all of the industry will thank us in future for the vote that we took today.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Ers fy mhenodi yn Weinidog dros Faterion Gwledig yn 2007, mae gwaredu TB mewn gwartheg wedi bod yn flaenoriaeth i mi. Dros y tair blynedd ddiwethaf, yr ydym fel Llywodraeth—gyda chydweithrediad ffermwyr gwartheg, milfeddygon, priswyr, ac Iechyd Anifeiliaid yng Nghymru—wedi chwyldroi sut y caiff TB mewn gwartheg ei reoli yng Nghymru. Mae'r newidiadau hyn wedi golygu beichiau a chostau ychwanegol i'r Llywodraeth hon ac i'r diwydiant amaeth.

Yng Nghymru, yr ydym yn mynd i'r afael â'r broblem mewn ffordd gynhwysfawr, sy'n cynnwys cadw golwg mwy trylwyr ar y clefyd, profion blynyddol ledled Cymru a lleihau'r nifer sy'n cael eu hesgusodi rhag y profion cyn symud. Mae hefyd yn cynnwys mesurau mwy trylwyr i reoli gwartheg—gwneud y systemau profi'n fwy sensitif, er enghraifft, wrth ddelio â chanlyniadau amherent, a defnyddio mwy o'r prawf gwaed gamma interferon. Mae hefyd yn

fydd, gobeithio, yn—

Irene James *a gododd*—

Mick Bates: Os ydych yn dymuno ymyrryd ar yr awr hwyr hon, Irene, gallwch wneud hynny.

Irene James: Diolch, Mick. Rydym i gyd yn sôn am TB mewn gwartheg a moch daear. Fodd bynnag, pa dystiolaeth sydd gennych mai'r mochyn daear sy'n rhoi TB i'r fuwch?

Mick Bates: O ran trosglwyddo, mae'n rhaid i chi edrych ar yr holl dystiolaeth. Holl bwynt strategaeth integredig yw cydnabod llawer o dystiolaeth a threialon bod effaith ar drosglwyddo. Roedd hyd yn oed adroddiad y grŵp gwyddonol annibynnol y gwnaethoch ei ddyfynnu yn derbyn trosglwyddo hyd at 21 y cant, mi dybiaf, yn yr hyn yr wyf yn ei ystyried yn dreial diffygiol.

Yn olaf, rwyf yn cynnig fy nghefnogaeth lawn i'r Gweinidog a'i staff. Maent wedi gweithio'n galed i ddileu TB ym mhob bywyd gwyllt a gwartheg yng Nghymru. Gobeithio y bydd hyn yn llwyddiant, ac y bydd yr holl ddiwydiant yn diolch i ni yn y dyfodol am y bleidlais a gymerasom heddiw.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): Since becoming Minister for Rural Affairs in 2007, the eradication of bovine TB has been a priority for me. Over the past three years, we as a Government, with the co-operation of cattle farmers, vets, valuers and Animal Health in Wales, have transformed the management of bovine TB in Wales. These changes have often come with additional burden and costs to Government and the industry.

The approach in Wales is a comprehensive one and includes improved surveillance, including reduced pre-movement testing exemptions and annual testing across Wales. It also includes improved cattle disease controls—increased sensitivity of testing regimes, for example, in dealing with inconclusive test results, and greater use of the gamma interferon blood test. It also includes linking compensation to good practice, to encourage appropriate farming

cynnwys cysylltu iawndal ag arferion da, er mwyn annog ymddygiad ffermio priodol a thalu iawndal priodol. Mae hefyd yn cynnwys gorfodi cadarn o'r polisi TB gyda phrofion gorfodol, ac erlyn pan fo angen. Yn olaf, mae'n cynnwys ein mesurau rhanbarthol, gan gynnwys sefydlu tri bwrdd rhanbarthol dileu TB i ddatblygu gweithgareddau lleol i ddileu TB yn y rhanbarthau hynny.

Fodd bynnag, nid yw'r polisiâu hyn ar eu pennau eu hunain yn mynd i arwain at ddigon o ostyngiad mewn TB mewn gwartheg i ddileu'r clefyd yn y pen draw yn yr ardaloedd hynny yng Nghymru lle mae'r clefyd yn endemig. Rhaid mynd i'r afael â ffynonellau eraill y clefyd hefyd. Yr wyf wastad wedi dadlau o blaid dilyn trywydd cynhwysfawr i ddileu TB gwartheg. Bydd y Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) 2011 yn rhan bwysig o'r trywydd hwnnw. Yr wyf am ddiolch i bawb ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn. Yr oedd yn broses agored a chytbwys lle cafodd tystiolaeth, yn ogystal â barn o'r ddwy ochr, o blaid ac yn erbyn y cynnig, eu clywed. Cafodd nifer o opsiynau eu hystyried fel dulliau posibl i sicrhau gostyngiad sylweddol mewn TB mewn gwartheg yn yr ardal triniaeth ddwys. Yr opsiynau hynny oedd: brechu, cyfuniad o brofi, difa a brechu, a rhaglen ddifa.

Lorraine Barrett: Thank you very much, Minister, for taking an intervention. Will the results of the consultation be made available for public viewing because there were around 13,000 responses, and a large majority were against the cull?

Elin Jones: Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael, gan gynnwys dadansoddiad o'r ymatebion hynny, a hynny ar safle we'r Llywodraeth.

Fy marn i felly, a barn milfeddygon, yw nad yw wedi ei brofi bod brechu eang o foch daear yn cael effaith ar TB mewn gwartheg. Os byddai'n bosibl, yna fe fyddai unrhyw fanteision yn deillio allan o frechu moch daear yn cymryd mwy o amser i leihau'r nifer o achosion sy'n cael eu cadarnhau mewn buchesi na rhaglen ddifa eang, effeithiol ac effeithlon. O ran yr opsiwn nesaf, sef profi

behaviour and appropriate compensation payments. There is also rigid enforcement of TB policy with compulsory testing and prosecutions where necessary. Finally, it includes our regional approach, which includes the introduction of three regional TB eradication delivery boards, which are developing appropriate TB activities for their region.

However, these policies alone will not produce a sustained reduction that would ultimately lead to the eradication of bovine TB in areas of Wales that are endemic with bovine TB. We must also deal with other sources of infection. I have always maintained the need for a comprehensive approach to the eradication of bovine TB. The introduction of the Badger (Control Area) (Wales) Order 2011 is therefore an important element of that. I would like to thank those who responded to the consultation on the Order. It was a properly open and balanced process in which evidence, as well as opinion, was received from all sides, both for and against the proposals. A number of options were considered as possible methods of substantially reducing TB in cattle within the intensive action area. Those options were: vaccination, a combination of testing, culling and vaccination and a culling programme.

Lorraine Barrett: Diolch yn fawr, Weinidog, am dderbyn ymyriad. A fydd canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael i'r cyhoedd i'w gweld oherwydd roedd tua 13,000 o ymatebion, a'r mwyafrif llethol yn erbyn y difa?

Elin Jones: All consultation responses, including the analysis of those responses, are available on the Government's website.

It is my view, therefore, backed by veterinary opinion, that the widespread vaccination of badgers is unproven to have an effect on bovine TB in cattle. If this were possible, any benefits derived from the vaccination of badgers would take longer than widespread, effective and efficient culling to reduce the number of confirmed cases in herds. The next option of testing and then culling test-positive

moch daear a difa'r rheini sy'n ymateb yn bositif i'r prawf a brechu'r rheini sy'n ymateb yn negyddol, mae perygl arwyddocaol y gallai arwain at gynyddu nifer yr achosion a gadarnheir o TB mewn buchesi. Opsiwn arall a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, ac a gafodd ei ystyried cyn gwneud y Gorchymyn hwn, oedd atal cenhedlu drwy'r system imiwneidd. Nid oes dull diogel o atal cenhedlu drwy'r system imiwneidd ar gael eto ar gyfer moch daear gwyllt ac nid ydym yn gwybod chwaith beth fyddai ei effaith ar nifer yr achosion o TB.

Ar ôl ystyried yn llawn ac yn fanwl yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i mi, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad, penderfynais wneud y Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) hwn. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi'r awdurdod inni ddifa moch daear mewn ardal sy'n cynnwys rhannau o Sir Benfro, sir Gaerfyrddin a Cheredigion, yr ardal a elwir yn ardal triniaeth ddwys. Yn yr ardal yma, mae TB gwartheg yn endemig ac yn cael effaith fawr ar y diwydiant amaethyddol ac ar y Llywodraeth.

Mae'n bwysig ystyried a chofio nad yw ystadegau Cymru gyfan yn dangos sefyllfa'r clefyd ar y lefel leol yma. Er enghraifft, rhwng Ionawr a Thachwedd 2009, cafwyd 565 o achosion o TB mewn buchesi yn yr hen Ddyfed; 456 oedd y nifer ar gyfer yr un cyfnod yn 2010, sef gostyngiad o 19 y cant, ac mae nifer wedi cyfeirio at y gostyngiad yna yn ystod y ddadl. Ond o edrych yn fwy manwl ar yr ardal dan sylw heddiw, sef yr ardal triniaeth ddwys, ac ardal y Gorchymyn, cafwyd 79 o achosion newydd o TB yn 2010, o'i gymharu â 55 yn 2009. Mae hynny'n gynydd o 44 y cant yn y clefyd hwn yn yr ardal ddifa. Mae yna 309 o fuchesi yn yr ardal triniaeth ddwys; mae rhyw 40 y cant ohonynt yn fuchesi godro a 50 y cant ohonynt yn fuchesi eidion. Maen nhw'n cynrychioli rhyw 2.4 y cant o holl fuchesi Cymru, ond dros 10 y cant o'r holl iawndal gafodd ei dalu yng Nghymru yn 2010. Rhwng 2005 a 2010, cafwyd rhyw £13.5 miliwn ei dalu fel iawndal am y gwartheg a gafodd eu lladd oherwydd TB yn yr ardal triniaeth ddwys yma yng ngogledd sir Benfro.

Yr wyf yn fodlon bod TB ar y moch daear yn yr ardal triniaeth ddwys, bod y moch daear

and vaccinating test-negative badgers involved a significant risk of increasing the number of confirmed cases of TB in herds. A further option raised by respondents to the consultation and considered prior to the making of this Order was immunocontraceptives. There are no known immunocontraceptives currently licensed as being safe for use in wild badgers and the effect of this approach on TB incidence is not known.

After full and detailed consideration of the wide evidence base presented to me, including consideration of the responses to the consultation, I decided to make the Badger (Control Area) (Wales) Order 2011. This authorises the destruction of badgers within an area that includes parts of Pembrokeshire, Carmarthenshire and Ceredigion, which is known as the intensive action area. In that area, bovine TB is endemic and is having a big effect on the farming industry and the Government.

It is important to understand that the all-Wales statistics do not demonstrate the level of disease at a local level. For instance, the number of new TB breakdowns in the old county of Dyfed between January and November 2010 was 456 compared with 565 for the same period in 2009, which is a 19 per cent decrease, and several people have referred to that reduction during the debate. However, in looking carefully at the area under consideration today, that is, the IAA, the area covered by the Order, in 2010 there were 79 new TB breakdowns compared with 55 in 2009. That is an increase of 44 per cent in this disease in the cull area. The IAA includes 309 cattle herds, of which approximately 40 per cent are dairy and 50 per cent are beef herds. These represent approximately 2.4 per cent of cattle herds in Wales, but over 10 per cent of the cost of compensation for the whole of Wales in 2010. Between 2005 and 2010, £13.5 million has been paid in compensation for animals slaughtered due to TB in the IAA in north Pembrokeshire.

I am satisfied that TB exists in badgers in the IAA, that it is being transmitted from badgers

yn trosglwyddo'r TB i wartheg yn yr ardal, a bod angen difa moch daear yn yr ardal er mwyn lleihau'r achosion o TB mewn gwartheg yn sylweddol yn yr ardal hon. Mae'n briodol felly gwneud y Gorchymyn hwn. Yr wyf yn arhyhoeddedig y bydd y trywydd yr wyf yn ei gynnig yn arwain at raglen ddifa gyson, trefnus ac effeithiol, a fydd yn gostwng yn sylweddol yr achosion o TB yn yr ardal triniaeth ddwys. Mae arwynebedd yr ardal triniaeth ddwys yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol o ran data'r treialon yn Lloegr. Dewiswyd y ffiniau yn ofalus er mwyn ei gwneud yn anos i foch daear eu croesi; er enghraifft, yr arfordir, afonydd, trefi ac ucheldir y Preseli. Credaf y bydd y ffiniau hyn yn golygu bod y moch daear yn llai tebygol o wasgaru.

Dywedodd rhai o'r rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad ei bod yn bwysig i'r rhaglen ddifa gael ei chynnal yn drugarog, bod y rheiny sydd yn difa'r moch daear yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol, a bod y cyfan yn cael ei fonitro yn ofalus. Mae hynny'n ategu fy mhenderfyniad i reoli'r gwaith hwn fel Llywodraeth ac i ysgwyddo'r cyfrifoldebau, yn hytrach na phenderfyniad polisi i drwyddedu ffermwyr i ddifa moch daear, fel yr ymgynghorwyd yn ei gylch yn Lloegr yn ddiweddar.

Rhodri Glyn Thomas: A allwch chi gadarnhau, Weinidog, y byddai'r strategaeth gynhwysfawr sydd gennych i ddileu'r diciâu, yn gyffredinol, a'r cynllun difa penodol yng ngogledd sir Benfro, yn llesol nid yn unig i fuchesi gwartheg ond hefyd i fywyd gwylt, yn gyffredinol, yng ngogledd sir Benfro a Chymru gyfan, ac mai'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw diogelu bywyd gwylt, yn ei gyfanrwydd, yng Nghymru?

Elin Jones: Wrth gwrs y gallaf. Fel y dywedais o'r cychwyn, yr wyf am weld poblogaeth o foch daear a gwartheg yng Nghymru yn rhydd o'r TB. Gobeithiaf mai dyna ein huchelgais ni oll, fel Aelodau heddiw.

Cyn cloi, hoffwn bwysleisio bod y mochyn daear yn dal i fod yn anifail wedi'i warchod yng Nghymru, a bod yr amodau yn Neddf Amddiffyn Moch Daear 1992 yn dal mewn grym. Bydd yr awdurdodau perthnasol yn

to cattle in the IAA, and that it is necessary to destroy badgers in the IAA in order to substantially reduce bovine TB in cattle in that area. Therefore, it was appropriate for me to make this Order. I am convinced that the proposed approach will deliver a sustained, co-ordinated and effective cull that would achieve a substantial reduction in the incidence of bovine TB in the IAA. The IAA exceeds the minimum size required according to the data from the trials in England. The boundaries were chosen carefully to make it more difficult for badgers to cross them; for example, the coast, rivers, urban areas and the Preseli uplands. I am of the opinion that these boundaries will minimise the potential for perturbation.

Some of the consultation respondents emphasised the importance of any badger cull being carried out humanely by properly trained personnel, and that all activities should be properly monitored. That is in line with my decision for us as a Government to manage this work and to retain responsibility for it, rather than there being a policy decision to licence farmers to cull badgers, as was consulted upon recently in England.

Rhodri Glyn Thomas: Can you confirm, Minister, that the comprehensive strategy that you have to eradicate TB in general, and the specific culling scheme in north Pembrokeshire, will benefit not only cattle herds, but wildlife generally, in north Pembrokeshire and all of Wales, and that what we are trying to do is to protect wildlife in its entirety in Wales?

Elin Jones: Of course I can. As I have said from the outset, I want to see the cattle and badger population in Wales free from TB. I hope that is the ambition of all of us, as Members, today.

Before I conclude, I would emphasise that the badger remains a protected species in Wales and the prohibitions in the Protection of Badgers Act 1992 remain in place. Any illegal action will be reported to the relevant

cael eu hysbysu am unrhyw achosion anghyfreithlon yn ymwneud â'r mochyn daear. authority.

I gloi, hoffwn gydnabod nad yw'r penderfyniad hwn yn un hawdd i Aelodau. Ni fu ychwaith yn benderfyniad nac yn broses hawdd i mi. Serch hynny, bu fy mlaenoriaeth yn ddigyfnewid dros y pedair blynedd diwethaf: hynny yw, gwarchod lles cymunedau gwledig Cymru. Yr wyf yn gwbl argyhoeddedig y bydd cysgod yn parhau dros hyfywedd ein hardaloedd gwledig os nad awn i'r afael o ddifrif â diddymu TB ar bob lefel: yn lleol, yn achos y Gorchymyn hwn heddiw, a thrwy fesurau eraill yn rhanbarthol a chenedlaethol.

Peter Black: In closing this debate I will emphasise two reasons as to why I believe that this planned cull of badgers in north Pembrokeshire is misguided. The first reason is that the Minister has failed to take the public with her. Even in the intensive action area, where the incidence of bovine TB is high, there is strong resistance to the proposal. Looking at the detail of the consultation responses, we can see that, of the 13,431 responses, 9,762 stated their clear objections to the culling of any wildlife for the purposes of controlling disease in farm animals. That is 4:1 against. Furthermore, over 5,000 of the 7,122 people who answered the question as to whether access to land for culling badgers should be enforced, said 'no'. That is part of the problem. We have already seen, from the first abortive attempt to introduce this cull, exactly what that means: Government officials wearing masks and, in the company of a police escort, forcing themselves onto land in order to carry out surveys; residents who insist on the correct procedures being followed have been arrested and released later without charge; and those organising resistance have had their vehicles stopped and searched by police without good reason. In one instance, the police even entered a shop premises and removed a poster objecting to the cull. That is not the sort of society that I want to be part of, and it does the Assembly no good to be associated with tactics that will become more commonplace if this Order is confirmed.

Finally, I would like to acknowledge that this decision is not an easy one for Members. It was also not an easy decision or process for me. Despite that, my priority has not changed over the last four years, and that is to protect the welfare of rural communities in Wales. I am totally convinced that a shadow will continue to be cast over the viability of our rural areas if we do not seriously get to grips with eradicating TB at every level: locally, in the case of this Order today, and through other measures regionally and nationally.

Peter Black: Wrth gloi'r ddadl hon byddaf yn pwysleisio dau reswm pam y tybiaf bod y bwriad i ddifa moch daear yng ngogledd Sir Benfro yn gyfeiliornus. Y rheswm cyntaf yw bod y Gweinidog wedi methu â chymryd y cyhoedd gyda hi. Hyd yn oed yn yr ardal gweithredu dwys, lle mae nifer fawr o achosion o TB mewn gwartheg, mae cryn wrthwynebiad i'r cynnig. O edrych yn fanwl ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gallwn weld, o'r 13,431 ymateb, bod 9,762 wedi dweud yn glir eu bod yn gwrthwynebu difa unrhyw fywyd gwyllt er mwyn rheoli'r clefyd mewn anifeiliaid fferm. Mae hynny 4:1 yn erbyn. Ar ben hynny, atebodd dros 5,000 o'r 7,122 o bobl 'na' i'r cwestiwn a ddylai gorfodi rhoi mynediad i dir ar gyfer difa moch daear. Mae hynny'n rhan o'r broblem. Rydym eisoes wedi gweld, o'r ymgais aflwyddiannus gyntaf i gyflwyno'r rhaglen ddifa, beth yn union mae hynny'n ei olygu: swyddogion y Llywodraeth yn gwisgo mygydau ac, yng nghwmni'r heddlu, yn gorfodi eu hunain ar dir er mwyn cynnal arolygon; mae trigolion sy'n mynnu bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn wedi cael eu harestio a'u rhyddhau heb gyhuddiad yn ddiweddarach; ac mae cerbydau'r rhai a drefnodd brotestiadau wedi cael eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu heb reswm da. Mewn un enghraifft, aeth yr heddlu hyd yn oed i fewn i siop a chael gwared ar boster yn gwrthwynebu'r difa. Nid dyna'r math o gymdeithas rwyf am fod yn rhan ohoni, ac nid yw'n gwneud lles i'r Cynulliad i fod yn gysylltiedig â thactegau a fydd yn dod yn fwy cyffredin pe bai'r Gorchymyn hwn yn cael ei

The implications of this Order amount to a restriction on civil liberties. It puts pressure on people who previously lived harmoniously in our communities to take sides despite the science. Worryingly, it sets a precedent for how we should treat our wildlife and those who aim to protect it—with brutality. Secondly, there is the question of why the Minister has embarked on this course of action in the face of all of the science, and when the other Measures that she has already introduced are starting to have an impact. In the Dyfed area in 2008, 8,361 cattle were slaughtered in connection with the TB programme. By 2010, that figure had fallen to 4,634 cattle.

Rhodri Glyn Thomas *rose*—

Peter Black: I will not take an intervention. That is a 44.58 per cent reduction over two years without a single badger having been culled.

3.45 p.m.

Rhodri Glyn Thomas *rose*—

Peter Black: Rhodri, you have had more than a chance to have your say; let me have my say. [ASSEMBLY MEMBERS: ‘Oh.’]

The Presiding Officer: Order. It is quite clear that Peter Black is taking no interventions. This has been a civilised and humane debate, as it should be in this National Assembly.

Peter Black: All of us on both sides of this argument recognise that there is a need to take action to reduce the incidence of bovine TB in cattle, but the crucial difference is in how we approach that problem. I believe that cattle-based control measures are already starting to have an effect, and if combined with a vaccination programme for cattle and badgers, we could make substantial progress to eradicating TB altogether. The evidence shows that such an approach would be more effective than that currently proposed by the Minister. The final paper prepared by the

gadarnhau.

Mae goblygiadau'r Gorchymyn hwn yn gyfystyr â chyfyngu ar ryddid sifil. Mae'n rhoi pwysau ar bobl a oedd yn byw ynghynt mewn cytgordd yn ein cymunedau i gymryd ochrau er gwaethaf y wyddoniaeth. Mae'n destun pryder ei fod yn gosod cynsail ar gyfer sut y dylem drin ein bywyd gwyllt a'r rhai sy'n anelu i'w ddiogelu—gyda chreulondeb. Yn ail, mae cwestiwn ynghylch pam fod y Gweinidog wedi dechrau ar y camau hyn yn wyneb yr holl wyddoniaeth, a phan mae'r Mesurau eraill a gyflwynodd eisoes yn dechrau cael effaith. Yn ardal Dyfed yn 2008, cafodd 8,361 o wartheg eu difa mewn cysylltiad â'r rhaglen TB. Erbyn 2010, roedd y ffigur hwnnw wedi gostwng i 4,634 o wartheg.

Rhodri Glyn Thomas *a gododd*—

Peter Black: Nid wyf am dderbyn ymyriad. Mae hynny'n ostyngiad o 44.58 y cant dros ddwy flynedd heb i un mochyn daear gael ei ddifa.

Rhodri Glyn Thomas *a gododd*—

Peter Black: Rhodri, rydych chi wedi cael digon o gyfle i ddweud eich dweud; gadewch i mi ddweud fy nweud. [AELODAU CYNULLIAD: ‘O’.]

Y Llywydd: Trefn. Mae'n gwbl glir nad yw Peter Black yn ildio. Mae hyn wedi bod yn ddadl waraidd a dyngarol, fel y dylai fod yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Peter Black: Mae pob un ohonom ar ddwy ochr y ddadl hon yn cydnabod bod angen cymryd camau i leihau nifer yr achosion o TB mewn gwartheg, ond y gwahaniaeth hanfodol yw sut rydym yn ymdrin â'r broblem honno. Credaf fod mesurau rheoli gwartheg eisoes yn dechrau cael effaith, a phetaent yn cael eu cyfuno â rhaglen frechu ar gyfer gwartheg a moch daear, gallem wneud cynnydd sylweddol i ddileu TB yn gyfan gwbl. Mae'r dystiolaeth yn dangos y byddai dull o'r fath yn fwy effeithiol na'r un a gynigir ar hyn o bryd gan y Gweinidog.

Independent Scientific Group on the results of the randomised badger culling trial was released in July 2010, and has been peer reviewed. The paper concludes that there is no long-term benefit of badger culling on the incidence of bovine TB in cattle. The authors of this work, all members of the ISG, conclude that,

‘Our findings show that the reductions in cattle TB incidence achieved by repeated badger culling were not sustained in the long term after culling ended and did not offset the financial costs of culling. These results, combined with evaluation of alternative culling methods, suggest that badger culling is unlikely to contribute effectively to the control of cattle TB in Britain.

The Krebs report of 1997 stated that the best prospect for the control of TB in the British herd is to develop a cattle vaccine. Such a vaccine has been developed and could be used. However, I accept that EU law prohibits the live export of tested cattle, but the vast majority of cattle in this country are not exported. Consideration should be given to the number of live cattle exported each year, and the benefits and costs of this compared with the cost of culling badgers and herds with bovine TB.

A bank of evidence is available that proves that vaccination is a viable alternative, and that culling does not work to prevent disease transmission. Most recently, research by the Veterinary Laboratories Agency and the Food and Environment Research Agency showed a clear effect of vaccination on badger disease. Injectable badger vaccine is now available, and this has been shown in laboratory and field trials to reduce badger infectivity by 74 per cent. The Food and Environment Research Agency modelling studies shows that if this were applied, the bovine TB reduction would be similar to that of badger culling. Culling benefits show a downward trend shortly after culling ends, and are predicted to return to zero.

Rhyddhawyd papur terfynol y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar ganlyniadau'r hap-dreial difa moch daear ym mis Gorffennaf 2010, ac mae'r papur wedi'i adolygu gan gymheiriaid. Casgliad y papur yw nad yw difa moch daear yn arwain at leihad yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg yn y tymor hir. Casgliad awduron y gwaith hwn, bob un ohonynt yn aelodau o'r GGA, oedd

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd cadeirydd y pwyllgor a'r Gweinidog. Mewn sawl ffordd, bu iddynt drafod y pwyntiau yr oeddwn am eu codi, felly trafodaf agwedd sydd ychydig yn wahanol. Rydym yn siarad am gyfathrebu a pha mor anodd ydyw, ac rydym yn siarad yn ein hadroddiad am y ffaith nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfathrebu'n dda iawn gyda ffermwyr, tîrfeddiawyr a phawb arall sydd â diddordeb yn y mater. Yn ystod fy nghyfnod fel aelod o'r Pwyllgor Cynaliadwyedd, mae dau adroddiad yn sefyll allan i mi: y cyntaf oedd ein hymchwiliad i lifogydd a'r llall yw'r ymchwiliad hwn. Rwyf wedi ceisio dod o hyd i'r rheswm am hyn, ac mae'r ateb yn hynod o syml. Roedd yr ymchwiliad i lifogydd yn cynnwys pobl gyffredin yn wynebu'r Llywodraeth ac yn ceisio deall pam yr oeddem yn gallu ai peidio, neu yn fodlon ai peidio, gwneud y pethau yr oedd arnynt angen i ni eu gwneud. Daeth yn amlwg yn eu rhwystredigaeth wrth geisio cyfathrebu gyda ni a deall ein jargon, acronymau a'n ffordd o wneud pethau. Mae'r adroddiad hwn wedi bod yn debyg, oherwydd o'r bobl a ddaeth i'n gweld ni, y tystion mwyaf pwerus o ran mynegi eu rhwystredigaeth lwyr oedd y tystion a ddaeth o asiantaethau'r trydydd sector. Nid oeddent yn dod o'r Llywodraeth, ond o sefydliadau megis Gwarchod Glöynnod Byw yng Nghymru neu yn cynrychioli grwpiau bach o bobl sy'n codi oddi ar eu penolau ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul a cherdded i lawr i'r gors neu'r afon i geisio gwneud yr hyn y gallant i sicrhau bod eu rhan o natur yn iawn.

Edrychais i fyny'r gair 'ecosystem', oherwydd rydym yn siarad am fioamrywiaeth ac ecosystemau, ond beth y mae'n ei olygu mewn gwirionedd? Mae ecosystem yn ymwneud â phob un ohonom—anifeiliaid, planhigion a micro-organebau—yn byw gyda'n gilydd mewn cytgord mewn ardal benodol. Mae rhai ohonom, yn enwedig bodau dynol, yn symud o un ardal i'r llall; fel rhywogaethau, rydym yn teithio. Mae bioamrywiaeth yn ymwneud â chadw'r ystod eang o opsiynau o ecosystemau i fynd, boed yn ecosystem fach ar ymyl cae neu

ecosystem fawr ar lan afon. Mae'n ymwneud â sicrhau ei fod yn gweithio gyda'i gilydd.

I take the Minister's point that we can stand up here and make these criticisms of the fact that we have missed our biodiversity targets, and I take the Minister's point that we are one of the few countries to try to do a heck of a lot about it. I guess that this is part of the territory, because it is easy for us to chip in from the sidelines. However, all of those third sector organisations, whose evidence I found incredibly powerful, were saying that they were over-targeted, under-outcome, too red-taped and did not have enough money. It is that simple. There is money swilling around in the system that we could use, there are targets that we could simplify, there are monitoring systems that we could put in, but I feel that the danger is that, in many ways, we have become target-obsessed. However, we have targeted the wrong things—we have targeted policy rather than delivery. We need to look at what we are going to try to do, and we need to make sure that we put the resources into it.

4.15 p.m.

If I could say one final thing to Wales's next Government, it would be this: please do not put the resources into huge Government departments and tell them to go off and achieve this policy direction of biodiversity here or protecting that there. Go to the little guys, who usually do not want much money and who are lean and fast. They do not have huge overheads, they know what they want to do, and they do not need to reinvent the wheel. It is absolutely flipping simple: 'if it ain't broke, don't fix it.' Give money to organisations such as Butterfly Conservation Wales, the National Trust, the wetlands people and so on, and say to them, 'Here is a bit of funding. You guys know what to do. You are in the best position to do it. You can inspire and empower the communities that you live in to deliver it,' instead of us lot, sitting here in Cardiff, trying to do it. Please, next Government, the only thing that I would beg you to do from the Sustainability Committee's final report is to give the money to the little guys, let them go and do the

Derbyniaf bwynt y Gweinidog y gallwn sefyll yma a beirniadu'r ffaith ein bod wedi methu ein targedau bioamrywiaeth, ac rwy'n derbyn pwynt y Gweinidog ein bod yn un o'r ychydig wledydd i geisio gwneud tipyn am hynny. Mae'n debyg bod hyn yn rhan o'r diriogaeth, oherwydd y mae'n hawdd i ni feirniadu o'r tu allan. Fodd bynnag, dywedodd pob un o'r sefydliadau trydydd sector hynny, a roddodd dystiolaeth hynod o bwerus, bod ganddynt ormod o dargedau, nad oedd ganddynt ddigon o ganlyniadau, bod gormod o dâp coch, ac nad oedd ganddynt ddigon o arian. Mae hi mor syml â hynny. Mae digon o arian yn y system y gallem ei ddefnyddio, mae targedau y gallem eu symleiddio, mae systemau monitro y gallem eu cyflwyno, ond teimlaf fod perygl ein bod yn awr ag obsesiwn ynglŷn â thargedau. Fodd bynnag, rydym wedi targedu'r pethau anghywir—rydym wedi targedu polisi yn hytrach na chyflawni. Mae angen i ni edrych ar yr hyn yr ydym yn mynd i geisio ei wneud, ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn neilltuo digon o adnoddau.

Pe gallwn ddweud un peth wrth y Llywodraeth nesaf yng Nghymru, dywedwn: peidiwch â rhoi'r adnoddau i adrannau Llywodraeth enfawr a dweud wrthynt am fynd i ffwrdd a chyflawni'r cyfeiriad polisi hwn o fioamrywiaeth yma neu amddiffyn hynny yno. Ewch at y bobl bach, nad ydynt fel arfer yn gofyn am lawer o arian ac sydd â phrosesau syml ac sy'n gyflym. Nid oes ganddynt gostau anferth, maent yn gwybod yr hyn y maent am ei wneud, ac nid oes angen iddynt ailddyfeisio'r olwyn. Mae'n hollol syml: os nad yw wedi ei dorri, peidiwch â'i drwsio. Rhowch arian i sefydliadau megis Gwarchod Glöynnod Byw yng Nghymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y bobl sy'n gweithio ym maes gwlypdiroedd ac yn y blaen, a dywedwch wrthynt, 'Dyma ychydig arian. Rydych chi'n gwybod beth i'w wneud. Chi sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny. Gallwch ysbrydoli a galluogi'r cymunedau yr ydych yn byw ynddynt i'w gyflawni,' yn hytrach nag ein bod ni, sy'n eistedd yma yng

work, and do not just centralise it in big Government, because I tell you now, if you do so, you will miss the targets again, we will not get out there, and we will not achieve what we set out to achieve. At the end of the day, Wales is one large ecosystem, and, for us all to hang together, we need all our little ecosystems to work well.

Alun Davies: I echo what has been said by Kirsty Williams and Angela Burns in thanking the committee secretariat for the work that it has done throughout this Assembly in supporting the committee in its work. I also thank Kirsty Williams, the Chair of the committee, who was leading it when I returned after my short break in membership. She has led us in a number of inquiries, and all members of the committee are grateful to her for her leadership, as we were to Mike German and Mick Bates previously. As a committee, we have been fortunate to have had those people leading us in our work.

Turning to where we are today in completing our work for this third Assembly, in many ways it is a good thing that there is unity of thought across the Chamber. I found this to be a fascinating inquiry and report as we were putting it together. Over the past four years, Minister, you have shown tremendous leadership in this field, and one thing that came across in all the evidence sessions was the respect that you have acquired during your time in office and the respect for the leadership that you have given. Therefore, it would be poor of us as a committee to present the report without also paying tribute to the work that you have done over the past few years, Minister, in leading the Government in this area of policy.

In many ways, for me, the report is very much about the processes of Government. Like others who have spoken this afternoon, I found it curious to listen to witness after

Nghaerdydd, yn ceisio ei wneud. Yr unig beth rwy'n erfyn ar y Llywodraeth nesaf i'w wneud o adroddiad terfynol y Pwyllgor Cynaliadwyedd yw rhoi arian i'r bobl bach a gadael iddynt fynd a gwneud y gwaith, ac i beidio â'i ganoli mewn Llywodraeth fawr, oherwydd os gwnewch chi hynny, byddwch yn methu'r targedau eto, ni fyddwn yn mynd allan yno ac ni fyddwn yn cyflawni'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni. Ar ddiwedd y dydd, mae Cymru yn un ecosystem fawr, ac, er mwyn i bopeth weithio'n iawn, mae angen i'n holl ecosystemau bach weithio'n dda.

Alun Davies: Ategaf yr hyn a ddywedodd Kirsty Williams ac Angela Burns o ran diolch i ysgrifenyddiaeth y pwyllgor am y gwaith y mae wedi'i wneud drwy gydol y Cynulliad hwn wrth gefnogi'r pwyllgor yn ei waith. Diolchaf hefyd i Kirsty Williams, cadeirydd y pwyllgor, a oedd yn ei arwain pan ddechwelais fel aelod o'r pwyllgor ar ôl egwyl fer. Mae hi wedi ein harwain mewn nifer o ymholiadau, ac mae holl aelodau'r pwyllgor yn ddiolchgar iddi am ei harweinyddiaeth, fel yr oeddwn yn ddiolchgar i Mike German a Mick Bates ynghynt. Fel pwyllgor, rydym wedi bod yn ffodus i gael y bobl hynny yn ein harwain yn ein gwaith.

Gan droi at ein sefyllfa heddiw wrth gwblhau ein gwaith ar gyfer y trydydd Cynulliad, mewn nifer o ffyrdd, mae'n beth da bod cytuno ar draws y Siambr. Roedd hwn yn ymchwiliad ac adroddiad hynod ddiddorol i'w rhoi at ei gilydd. Dros y pedair blynedd diwethaf, Weinidog, rydych wedi dangos arweinyddiaeth gref yn y maes hwn, ac un peth a ddaeth yn amlwg yn ystod yr holl sesiynau tystiolaeth oedd y parch yr ydych wedi ei ennill yn ystod eich amser yn y swydd a'r parch yr ydych wedi ei roi tuag at yr arweiniad. Felly, byddai'n wael i ni fel pwyllgor gyflwyno'r adroddiad heb hefyd dalu teyrnged i'r gwaith yr ydych wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf, Weinidog, wrth arwain y Llywodraeth yn y maes polisi hwn.

Mewn sawl ffordd, i mi, mae'r adroddiad yn trafod prosesau'r Llywodraeth. Fel eraill sydd wedi siarad y prynhawn yma, rwy'n ei chael yn rhyfedd i wrando ar dyst ar ôl tyst yn

witness say similar things. Angela described the work of Butterfly Conservation Wales, and it was extraordinarily striking that practitioners on the ground, who were delivering policy, had a far greater insight into policy and what should be happening than many of the people who are paid by Government to deliver that policy in the first place.

One of the most disappointing aspects of the inquiry was that virtually no-one mentioned the Wales environment strategy. I remember going to the launch of that strategy back in 2005, and the strategy was designed at that time to deliver the Welsh Assembly Government's aspirations on biodiversity and other matters. It was timetabled, a series of action plans were published alongside it, it was strategic, it had a philosophy underpinning it and buy-in from everyone, but it has been forgotten. That is a key reality in the report: the strategy and the targets that the Government set itself have not gone anywhere outside of this building. It was clear and profoundly disappointing that people throughout Government and public agencies did not appear to pay any attention at all to the strategies of the Assembly Government. When we look at the reasons for the failure to meet the targets—we can discuss the setting of those targets, and I accept the criticisms that have been made about that—we see that the key failing has been the failure of the processes and arms of Government to deliver on its policies, although I accept that the Government has given clear and excellent leadership in this matter. That poses significant questions about the processes of Government and parts of the public service in Wales.

It also poses significant questions about the place of biodiversity and sustainability on the political agenda in Wales in reality. Kirsty has already referred to the emptiness of the Chamber. We heard all this emotion expressed about a badger cull in Pembrokeshire earlier, and then people walk out of the Chamber rather than debate biodiversity in its entirety across the whole of the country. All too often, that has been the reality—

dweud pethau tebyg. Disgrifiodd Angela waith Gwarchod Glöynnod Byw yng Nghymru, ac yr oedd yn hynod o drawiadol bod gan ymarferwyr yn y maes, a oedd yn delifro polisi, fewnwelediad llawer gwell o ran polisi a'r hyn a ddylai fod yn digwydd na llawer o'r bobl sy'n cael eu talu gan y Llywodraeth i ddelifro'r polisi hwnnw yn y lle cyntaf.

Un o agweddau mwyaf siomedig yr ymchwiliad oedd nad oedd bron unrhyw un wedi crybwyll strategaeth amgylcheddol Cymru. Rwy'n cofio mynd i lansiad y strategaeth honno yn ôl yn 2005, a chynlluniwyd y strategaeth ar y pryd i gyflawni dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fioamrywiaeth a materion eraill. Cafodd ei hamserlennu, cyhoeddwyd cyfres o gynlluniau gweithredu ochr yn ochr â hi, roedd yn strategol, roedd yn seiliedig ar athroniaeth a chefnogwyd hi gan bawb, ond mae wedi cael ei hanghofio. Mae hynny'n realiti allweddol yn yr adroddiad: nid yw'r strategaeth na'r targedau y mae'r Llywodraeth wedi gosod i'w hun wedi mynd yn bellach na'r adeilad hwn. Roedd yn amlwg ac yn hynod siomedig nad oedd pobl ar draws y Llywodraeth ac asiantaethau cyhoeddus yn talu unrhyw sylw o gwbl i strategaethau Llywodraeth y Cynulliad. Pan edrychwn ar y rhesymau dros fethu'r targedau—gallwn drafod gosod y targedau hynny, a derbynaf y feirniadaeth sydd wedi cael ei fynegi ynglŷn â hynny—gwelwn mai'r prif fethiant oedd methiant y prosesau a rhannau o'r Llywodraeth i gyflawni ei pholisïau, er fy mod yn derbyn bod y Llywodraeth wedi rhoi arweiniad clir a rhagorol ar y mater hwn. Mae hynny'n codi cwestiynau arwyddocaol am brosesau'r Llywodraeth a rhannau o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Mae hefyd yn codi cwestiynau arwyddocaol am safle bioamrywiaeth a chynaliadwyedd ar yr agenda wleidyddol yng Nghymru mewn gwirionedd. Mae Kirsty eisoes wedi cyfeirio at ba mor wag y mae'r Siambr. Clywsom gryn emosiwn yn cael ei fynegi mewn perthynas â difa moch daear yn Sir Benfro yn gynharach, ac yna mae pobl yn cerdded allan o'r Siambr yn hytrach na chyfrannu at ddadl ar fioamrywiaeth yn ei chyfanrwydd ar draws y wlad. Yn rhy aml, dyna yw'r realiti—

Peter Black *rose*—

Alun Davies: I will not give way; you did not walk in until halfway through my speech, Peter. You have got a cheek. Try again—after 5 May, that is.

If we are serious about putting pressure on Ministers—I do not mean the present Minister, who is the only Minister present in the Chamber at the moment, but the Government as a whole—there must be recognition among all parties and all Members that biodiversity must be a priority. The key lesson from this inquiry is that, despite the rhetoric, despite the commitments, and despite everything we hear about policy, biodiversity has not been given a sufficiently high priority by Members over the past four years, as they have allowed these failures to take place. That is the real tragedy and the lesson to take from this afternoon's debate.

The Presiding Officer: Minister, would you like to make a further contribution, before I call the Chair to reply?

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): Thank you, Presiding Officer. I am very grateful for the contributions made in this debate, because they demonstrate that when people are exposed to issues around biodiversity, they start to see its importance and how it affects their daily lives. I am grateful to those who have commended what we have tried to do so far. The big challenge for the next administration will be how to bring—not biodiversity, because that very word puts people off, but the environment and nature into the heart of Government and how to recognise their economic value. We know that many millions would have to be spent if the bees were not here to pollinate. There is also the challenge of recognising biodiversity's social value—we know that it is particularly important to people's mental health and wellbeing. We must also absolutely and explicitly commend and engage with its environmental value, because we need all the species that we currently have

Peter Black *a gododd*—

Alun Davies: Nid wyf yn fodlon ildio; cerddasoch i mewn hanner ffordd drwy fy araith, Peter. Peidiwch â bod mor haerllug. Ceisiwch eto—ar ôl 5 Mai, hynny yw.

Os ydym o ddifrif ynglŷn â rhoi pwysau ar Weinidogion—nid wyf yn golygu'r Gweinidog presennol, sef yr unig Weinidog sy'n bresennol yn y Siambr ar hyn o bryd, ond y Llywodraeth yn ei gyfanrwydd—mae'n rhaid i bob plaid a phob Aelod gydnabod bod yn rhaid i fioamrywiaeth fod yn flaenoriaeth. Y wers allweddol o'r ymchwiliad hwn yw, er gwaethaf y rhethreg, er gwaethaf yr ymrwymadau, ac er gwaethaf popeth yr ydym yn ei glywed am bolisi, nid yw Aelodau wedi rhoi digon o flaenoriaeth i fioamrywiaeth dros y pedair blynedd diwethaf, gan eu bod wedi caniatáu'r methiannau hyn. Dyna'r drychineb go iawn a'r wers i'w chofio o'r ddadl y prynhawn yma.

Y Llywydd: Weinidog, a hoffech wneud cyfraniad pellach, cyn imi alw ar y cadeirydd i ymateb?

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Diolch, Lywydd. Rwy'n ddiolchgar am y cyfraniadau a wnaethpwyd yn y ddadl hon, oherwydd eu bod yn dangos, pan fydd pobl yn dod ar draws materion yn ymwneud â bioamrywiaeth, eu bod yn dechrau gweld ei bwysigrwydd a sut y mae'n effeithio ar eu bywydau bob dydd. Rwy'n ddiolchgar i'r rhai sydd wedi canmol yr hyn yr ydym wedi ceisio ei wneud hyd yn hyn. Yr her fawr ar gyfer y weinyddiaeth nesaf fydd sut i ddod â—nid bioamrywiaeth, oherwydd bod y gair yn peri i bobl golli diddordeb, ond i wneud yr amgylchedd a natur yn ganolog i waith y Llywodraeth a dod o hyd i ffordd o gydnabod eu gwerth economaidd. Gwyddom y byddai'n rhaid gwario miliynau lawer pe na bai gwenyn ar gael i beillio. Mae yna hefyd her o ran cydnabod gwerth cymdeithasol bioamrywiaeth—rydym yn gwybod ei bod yn arbennig o bwysig i iechyd meddwl a lles. Rhaid i ni hefyd gymeradwyo yn llwyr ac yn glir ac ymgysylltu â'i werth amgylcheddol,

to ensure that we can maintain our current quality of life. We will have to do a huge amount of work to make that happen, and that is the biggest opportunity lying in my successor's inbox. I am sure that the committee will be robust in scrutinising that person on the delivery of that objective.

Kirsty Williams: I do not wish to detain colleagues any longer than they would wish. I reiterate the committee's thanks to all the staff who have worked alongside us for their professionalism. As Alun Davies rightly did, I pay tribute to my predecessors as Chair, Mike German and Mick Bates, for their work on the committee. I would also make a plea to the next Assembly to recognise the importance of maintaining a committee to scrutinise the issues relating to sustainability. It is vital that there should be a successor committee. We will recommend to that successor committee in our legacy report that it revisit the issue of biodiversity to assess what progress the Welsh Government has made in implementing the recommendations in this report.

I am disappointed that we did not get further clarity on the Government's approach to current SSSIs and where they fit in the system. The committee recommended that they should be a cornerstone of it. I recognise, Minister, that you are right in saying that nobody met their targets. However, that is not a reason for us to say that it is okay for us to miss them. You are also correct to say, Minister, that £100,000 is available for the biodiversity action partnerships. However, as Angela Burns pointed out, that is related to the bureaucracy of running the partnerships and it is not money to do things on the ground. It is money to organise, not to do stuff.

The Minister said that we are travelling in the right direction, but have a long journey ahead of us. For me, a rather better analogy would be that, in recent years, the Government has been sitting in the car reading the map, and it is now time to turn on the ignition and to hit the road. We have new targets in place for

oherwydd mae angen yr holl rywogaethau sydd gennym ar hyn o bryd i sicrhau y gallwn gynnal ein safon bresennol o fyw. Bydd yn rhaid i ni wneud llawer iawn o waith i sicrhau bod hynny'n digwydd, a dyna'r cyfle mwyaf a fydd gan fy olynydd. Rwy'n siŵr y bydd y pwyllgor yn gadarn wrth graffu ar y person hwnnw ar gyflawni'r amcan hwnnw.

Kirsty Williams: Nid wyf yn dymuno cadw'm cydweithwyr yn hwy nag y byddent yn ei ddymuno. Ategaf ddiolch y pwyllgor i'r holl staff sydd wedi gweithio ochr yn ochr â ni am eu proffesiynoldeb. Fel y gwnaeth Alun Davies, rwy'n talu teyrnged i'm rhagflaenwyr fel cadeirydd, Mike German a Mick Bates, am eu gwaith ar y pwyllgor. Byddwn hefyd yn gwneud apêl i'r Cynulliad nesaf i gydnabod pwysigrwydd cynnal pwyllgor i graffu ar y materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. Mae'n hanfodol cael pwyllgor olynol. Byddwn yn argymhell i'r pwyllgor olynol yn ein hadroddiad etifeddiaeth y dylai ailedrych ar y mater o fioamrywiaeth er mwyn asesu pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud wrth weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Rwy'n siomedig na chawsom eglurder pellach ar ymagwedd y Llywodraeth i'r SoDdGA presennol a sut y maent yn ffitio i mewn i'r system. Argymhellodd y pwyllgor y dylent fod yn gonglfaen iddo. Rwy'n cydnabod, Weinidog, eich bod yn iawn i ddweud nad oes neb yn cyrraedd eu targedau. Fodd bynnag, nid yw hynny'n rheswm i ni ddweud ei bod yn iawn i ni eu methu. Rydych hefyd yn iawn i ddweud, Weinidog, bod £100,000 ar gael ar gyfer partneriaethau gweithredu bioamrywiaeth. Fodd bynnag, fel y nododd Angela Burns, mae hynny'n gysylltiedig â'r biwrocratiaeth o redeg y partneriaethau ac nid yw'r arian ar gael i wneud pethau ar lawr gwlad. Arian i drefnu ydyw ac nid i wneud pethau.

Dywedodd y Gweinidog ein bod yn teithio yn y cyfeiriad cywir, ond bod gennym daith hir o'n blaenau. I mi, cyfatebiaeth well yw bod y Llywodraeth, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn eistedd yn y car yn darllen y map, ac mae'n bryd i danio'r injan a dechrau ar y daith. Mae targedau newydd yn eu lle ar

2020. Unless we take these recommendations seriously, another committee and another Assembly will be saying very similar things.

gyfer 2020. Os na chymerwn yr argymhellion hyn o ddifrif, bydd pwyllgor arall a Chynulliad arall yn dweud pethau tebyg iawn.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw bod y Cynulliad yn nodi adroddiad y pwyllgor. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, yr wyf yn datgan bod y cynnig wedi'i basio.

The Presiding Officer: The question is that the Assembly note the committee's report. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, I therefore declare that the motion is agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4:25 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.25 p.m.*

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar 'Hyfforddiant a Sgiliau Dwyieithog yn y Gweithle a Rhyngwyneb Busnes â'r Cyhoedd'
The Enterprise and Learning Committee's Report 'Bilingual Training and Skills in the Workplace and Business'

Cynnig NDM4707 Gareth Jones

Motion NDM4707 Gareth Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle a rhyngwyneb busnes â'r cyhoedd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2011.

Notes the Enterprise and Learning Committee's report on Bilingual training and skills in the workplace and business interface with the public which was laid in the Table Office on 1 February 2011.

Gareth Jones: Cynigiau y cynnig.

Gareth Jones: I move the motion.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu, mae'n braf cael agor y ddadl hon heddiw ar ein hadroddiad ar hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle a'r modd y mae busnesau yn ymwneud â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sgîl pryderon ynghylch i ba raddau y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn ein bywydau o ddydd i ddydd, penderfynodd y pwyllgor i ethol grŵp rapporteur trawsbleidiol er mwyn edrych ar y gwahanol agweddau ar ddwyieithrwydd yng Nghymru ac i gyhoeddi adroddiad ar hynny. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi cael dadl ar ein hadroddiad ar ddysgu a chaffael y Gymraeg fel ail iaith fis Rhagfyr diwethaf ynghyd â chael cyfle i drafod ymateb y Gweinidog i'r adroddiad hwnnw. Mae'r adroddiad hwn heddiw yn cloi ein

As Chair of the Enterprise and Learning Committee I am delighted to open this debate on our report on bilingual training and skills in the workplace and how businesses interface with the public through the medium of Welsh. In light of concerns about the extent to which Welsh is used in our everyday lives, the committee decided to elect a cross-party rapporteur group to consider the different aspects of bilingualism in Wales and report its findings. You will know that we debated our report on the teaching and acquisition of Welsh as a second language last December and also had an opportunity to discuss the Minister's response to that report. This report concludes our inquiry into bilingualism in Wales by examining bilingual training and skills in the

hymchwiliad i ddwyieithrwydd yng Nghymru drwy edrych ar hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle ac ar y modd y mae busnesau'n ymwneud â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r grŵp rapporteur, Jeff Cuthbert, David Melding a Jenny Randerson, am eu holl lafur caled. Fel grŵp, buom ar ymweliadau a buom yn sgwrsio'n anffurfiol gyda nifer o randdeiliaid yn y maes hwn. Clywsom am brofiadau personol nifer o bobl sy'n dysgu Cymraeg yn y gweithle ac am gyflogwyr sy'n annog eu staff i ddysgu'r iaith. Yn benodol, gwelsom ar ein hymweliadau â phencadlys NatWest a'r CAD Centre UK rhai enghreifftiau o'r arferion da sy'n cael eu dilyn gan gyflogwyr a hyfforddwyr. Yr oedd eu cyfraniadau'n werthfawr tu hwnt, a hoffwn ddiolch o galon i bawb a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad. Hoffwn ddiolch hefyd i staff gwasanaeth ymchwil yr Aelodau am eu cymorth a'u cyngor dros sawl mis.

Credwn bod yr adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion teg ac eang y gall Llywodraeth Cymru weithredu arnynt er mwyn datblygu darpariaeth Gymraeg yn y gweithle a chyda busnesau sy'n darparu ar gyfer cwsmeriaid. Trof, felly, at yr argymhellion hynny ac at ymateb Llywodraeth Cymru iddynt. Yr ydym yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr 20 o argymhellion a wnaethom, gan beidio â gwrthod yr un ohonynt, a chan dderbyn 14 ohonynt mewn egwyddor. Mae'n braf gweld bod y Llywodraeth eisoes yn gweithredu ar rai ohonynt.

Mater o bryder mawr a ddaeth i sylw'r grŵp rapporteur ar unwaith oedd diffyg hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith. Yr ydym yn falch o weld bod y Gweinidog yn cydnabod bod angen deall yn well y ffactorau hynny sy'n effeithio ar hyder siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn yr iaith. Yr ydym yn falch o weld y bydd ymchwil yn cael ei gynnal i'r ffactorau penodol sy'n effeithio ar eu hyder. Yn benodol, yr ydym yn edrych ymlaen at weld ffrwyth llafur ymgyrch Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Mae gen ti ddewis'.

Yn ystod rhan gyntaf ein hymchwiliad i

workplace and how businesses interface with the public through the medium of Welsh.

I would like to thank the members of the rapporteur group, Jeff Cuthbert, David Melding and Jenny Randerson, for all their hard work. As a group, we undertook visits and spoke informally to a number of stakeholders in the field. We heard about the personal experiences of people learning Welsh in the workplace and about employers who encourage their staff to learn the language. In particular, we saw on our visits to NatWest headquarters and CAD Centre UK examples of the good practice that is being undertaken by employers and trainers. Their contributions were invaluable and I would like to warmly thank everyone who gave evidence to our inquiry. I also would like to thank the Members' research service staff for their assistance and advice over many months.

We believe that the report contains fair and wide-ranging recommendations that the Welsh Government can implement to develop the provision of Welsh in the workplace and with customer-facing businesses. I turn, therefore, to the recommendations and the Welsh Government's response. We are pleased that the Minister has accepted our 20 recommendations, rejecting none, and accepting 14 in principle. It is good to see that the Government is already taking action on some of them.

An issue of great concern that came to the attention of the rapporteur group immediately was the lack of confidence among Welsh speakers to use the language. We are glad to see that the Minister recognises the need to gain a better understanding of the factors affecting the confidence of non-fluent Welsh speakers. We are pleased to note that research will be conducted into the specific factors that affect their confidence. In particular, we look forward to seeing the outcome of the Welsh Language Board's campaign, 'Mae gen ti ddewis'.

During the first part of our inquiry on the

ddysgu a chaffael y Gymraeg fel ail iaith, canfûm fod pryderon ynghylch y parhad mewn addysg o'r naill gyfnod allweddol i'r llall. Clywsom hefyd fod y problemau hynny gyda pharhad ieithyddol i'w cael wrth symud i'r byd gwaith. Yr ydym yn falch, felly, o weld bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ein hargymhelliad i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod llwybr cydlynol ar gael i hyfforddiant a chyflogaeth i'r rheini sy'n gadael yr ysgol ac yn dymuno defnyddio'u sgiliau iaith yn y gweithle. Gobeithiaf y bydd mentrau fel y fforymau iaith Gymraeg, hyrwyddwyr dwyieithrwydd mewn colegau addysg bellach, a'r gofynion i fabwysiadu polisiau iaith Gymraeg yn y manylebau dysgu seiliedig ar waith yn sicrhau bod gwell pontio yn digwydd yn hyn o beth.

Yr ydym yn falch hefyd o weld bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu hyrwyddo ymhellach fanteision economaidd defnyddio'r Gymraeg drwy roi rhagor o ystyriaeth i'r iaith wrth weithredu rhaglen adnewyddu'r economi.

4.30 p.m.

Yr ydym yn edrych ymlaen at weld rhagor o fanylion am rôl y grŵp economi Iaith yn y dyfodol, a fydd yn ystyried materion sy'n ymwneud â hyrwyddo'r iaith o ddydd i ddydd a rhannu arferion da rhwng gwahanol adrannau.

Mae'r pwyllgor yn cydnabod bod peth gwaith da eisoes yn mynd rhagddo yng Nghymru. Yn benodol, gwnaethpwyd argraff dda arnom yn ystod ein hymweliad â phencadlys NatWest, lle mae'r rheolwyr yn ceisio creu ethos dwyieithog a fydd yn dod yn rhan greiddiol o'r gwasanaethau y mae'r cwmni'n eu darparu yng Nghymru. Gwnaethpwyd argraff dda arnom hefyd gan gynllun Cymraeg yn y Gwaith CADCentre UK, sy'n ceisio datblygu a darparu rhaglenni dysgu safonol yn y gweithle drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr oedd yn amlwg i'r pwyllgor bod brwdfrydedd ac ymrwymiad yr arweinwyr yn y sefydliadau hyn yn allweddol o ran llwyddiant y gwasanaethau Cymraeg y maent yn eu darparu. Yr ydym yn credu y gallai sefydliadau eraill, yn y sectorau

teaching and acquisition of Welsh as a second language, we found that there were concerns regarding continuity between each key stage in education and the next. We also heard that those problems with language continuity continue as people move into employment. We are, therefore, pleased to note that the Welsh Government has accepted our recommendation to work with partners to ensure that there is a coherent pathway to training and employment for school leavers who wish to use their language skills in the workplace. I hope that initiatives such as the Welsh-medium fora, bilingual champions in further education colleges, and the requirements to implement Welsh language policies in the programme specification for work-based learning will go some way towards ensuring smoother transition in this regard.

We are also pleased to note that the Welsh Government intends to promote the economic benefits of the Welsh language further by giving it greater consideration during the implementation of the economic renewal programme.

We look forward to seeing further details about the future role of the Iaith economy group to consider day-to-day issues in promoting the language and sharing best practice across departments.

The committee acknowledges that some good work is being undertaken in Wales. In particular, we were impressed by our visit to the NatWest headquarters, where the managers are aiming to create a bilingual ethos that will be embedded in the services that it provides in Wales. We were also impressed by the Welsh at Work scheme by CADCentre UK, which aims to develop and deliver high-quality learning programmes in the workplace through the medium of Welsh. It was clear to the committee that the enthusiasm and commitment of the leaders in these organisations were imperative to the success of the Welsh language services that they are providing. We believe that other organisations, both in the public and private sector could benefit from the experiences

cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd, elwa o brofiadau'r sefydliadau hyn. Yr ydym yn falch, felly, o glywed y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer darparwyr hyfforddiant cyfrwng Cymraeg er mwyn lledaenu arferion da wrth ddarparu dysgu seiliedig ar waith drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Drwy gydol ein hymchwiliad i ddwyieithrwydd, rhoddwyd canmoliaeth gan bob tyst a fu'n siarad â ni i'r arweiniad, y gefnogaeth a'r arbenigedd sy'n cael ei roi gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Os ydym am barhau i ddatblygu'r arferion da hyn, mae'n hanfodol bod comisiynydd newydd y Gymraeg, y panel ymgynghorol ac uned iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn manteisio i'r eithaf ar brofiad ac arbenigedd y bwrdd.

Yn ystod ein hymchwiliad, cychwynnodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y strategaeth iaith Gymraeg, 'Iaith Fyw: Iaith Byw'. Mae'r Gweinidog wedi dweud mai nod y strategaeth honno yw cynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg a chynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith, law yn llaw â chymryd camau i wella hyder a rhuglder pobl. Bydd hyn yn cyd-fynd â Mesur y Gymraeg a basiwyd yn ddiweddar, a fydd yn creu safonau ac yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Yr ydym yn falch bod y Gweinidog eisoes wedi ystyried o ddifrif casgliadau ac argymhellion ein hymchwiliad i ddwyieithrwydd wrth roi'r strategaeth ar waith, ac y mae newydd gyhoeddi camau pellach y strategaeth.

Yr ydym yn gwbl ymwybodol o'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r Llywodraeth i sicrhau bod yr ymrwymadau yn ei strategaeth yn cael sylw dyledus. Gobeithiwn y bydd y strategaeth yn cyfrannu rhywfaint at sicrhau bod safonau'n cael eu codi, fel y gall yr iaith Gymraeg gael ei hyrwyddo fel sgîl allweddol sy'n dod â manteision masnachol i gyflogwyr yng Nghymru. Bydd llwyddiant y strategaeth hon yn golygu mwy na dim ond argyhoeddi cyflogwyr, darparwyr gwasanaethau a phlant a phobl ifanc o werth defnyddio'r iaith. Bydd yn dibynnu'n drwm ar ewyllys dinasyddion Cymru. Mae'n

gained by these organisations. We are therefore pleased to hear that the Welsh Government will publish updated guidance for Welsh-medium training providers to disseminate existing good practice in the delivery of Welsh and bilingual work-based learning.

Throughout our inquiry into bilingualism, every witness that we spoke to praised the guidance, support and expertise offered by the Welsh Language Board. If the current good practice is to be continued and developed, it is vital that the experience and expertise of the Welsh Language Board is utilised fully by the new Welsh language commissioner, the advisory panel, and the Welsh Government's Welsh language unit.

During the course of our inquiry, the Welsh Government issued a consultation on the Welsh language strategy 'A living language: A language for living'. The Minister has stated that the aim of the strategy is to increase the number of Welsh speakers and to increase the opportunities to use Welsh, allied with initiatives aimed at raising people's confidence and fluency. This will coincide with the recently passed Welsh language Measure, which will set standards and impose duties on organisations to promote the use of Welsh in the workplace and to provide services in Welsh. We are pleased that, in implementing the strategy, the Minister has already given serious consideration to the conclusions and recommendations of our inquiry into bilingualism, and he has recently outlined the next steps for that strategy.

We are fully aware of the significant challenges that the Government has to face to ensure that the commitments in its strategy receive due attention. We hope that the strategy will go some way to ensuring that standards are raised, so that the Welsh language can be promoted as a vital skill that has commercial benefits for employers in Wales. The success of this strategy will depend on more than just convincing employers, service providers, children and young people of the value of using the language. It will depend heavily on the will of the citizens of Wales. It is vital that we

hanfodol ein bod yn creu'r amodau a fydd yn rhoi'r hawl a'r cyfleoedd i bobl siarad yr iaith ym mhob rhan o'r wlad gan normaleiddio'r defnydd o'r iaith.

Mae'r ddadl hon yn cloi rhan olaf ein hymchwiliad i ddwyieithrwydd, sydd wedi canolbwyntio ar ddysgu a chaffael y Gymraeg fel ail iaith, ar hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle ac ar y modd y mae busnesau'n ymwneud â'r cyhoedd. Dyma hefyd ddadl olaf y Pwyllgor Menter a Dysgu a'm dadl olaf i fel Cadeirydd y pwyllgor hwnnw. Credaf fod y pwyllgor wedi gweithio'n effeithiol i graffu ar bolisiau'r Llywodraeth. Mae fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor wedi rhoi gwleidyddiaeth bleidiol o'r neilltu er mwyn gwneud argymhellion er lles pobl Cymru ac yr wyf yn falch o allu dweud i ni gael consensws trawsbleidiol ym mhob un o'r adroddiadau yr ydym wedi'u cyhoeddi. Yr wyf yn ystyried fy hun yn ffodus o fod wedi bod yn rhan o'r pwyllgor hwn ac yn rhinwedd fy rôl fel Cadeirydd, yr wyf wedi gallu ymddiried yn llwyr yn fy nghyd-aelodau i graffu'n effeithiol ac i ddangos ymrwymiad i hynny. Mae'r holl ymchwiliadau a'r enw da y mae'r pwyllgor wedi'i feithrin yn glod i'm cyd-aelodau. Yr wyf yn sicr nad ydym eto wedi gweld ffrwyth llafur ein gwaith craffu yn y tymor hir, er fy mod yn argyhoeddedig ein bod wedi cael effaith sylweddol. Yr wyf yn gobeithio bod y Pwyllgor Menter a Dysgu wedi creu sail i bwyllgorau'r pedwerydd Cynulliad allu adeiladu arni a pharhau â'n gwaith.

Yn olaf, ar nodyn personol iawn, gofynnwyd i mi yn ddiweddar gan newyddiadurwr pa fath o ddeddfwriaeth yr hoffwn ei gweld pe bawn i'n sefyll i gael fy ethol i'r pedwerydd Cynulliad. Fel y gwyddoch chi i gyd, mae'r iaith Gymraeg yn agos iawn at fy nghalon a byddwn yn gobeithio y byddai cyfle i'r pedwerydd Cynulliad gyflwyno Deddf ar hawliau dwyieithog i sicrhau bod gan bobl Cymru'r hawl a'r cyfle i ddysgu'r Gymraeg, fel oedolion—hynny yw, ar ôl gadael y gyfundrefn addysg ffurfiol. Gwn fod darpariaeth ardderchog mewn rhannau o Gymru a mudiadau fel mentrau iaith, a Menter Iaith Conwy yn fy etholaeth i, yn hwyluso cyfleoedd pobl i gael mynediad at y

create the conditions that will give people the right to speak the language and provide opportunities for them to do so in all parts of the country in order to normalise the use of the language.

This debate forms the final stage of our inquiry into bilingualism which has focused on the teaching and acquisition of Welsh as a second language, bilingual training and skills in the workplace, and the way in which businesses interface with the public. It is also the final debate of the Enterprise and Learning Committee and my last as Chair of the committee. I believe that the committee has undertaken effective scrutiny of Government policy. My fellow committee members have put party politics to one side in order to make recommendations that will benefit the people of Wales and I am pleased to say that there has been cross-party consensus for each of the reports that we have published. I consider myself fortunate to have been a part of this committee, and in my role as Chair I have had overwhelming confidence in my fellow committee members' effective scrutiny and commitment. The impressive output of inquiries and the good reputation earned by the committee is a credit to my fellow committee members. I am sure that we have yet to see the long-term benefits of our scrutiny, although I am convinced that we have had a significant impact. I hope that the Enterprise and Learning Committee has built a foundation for committees in the fourth Assembly to build upon and to continue with the work that we have begun.

Finally, on a very personal note, I was asked recently by a journalist what legislation I would like to see enacted if I was standing for election to the fourth Assembly. As you all know, the Welsh language is very close to my heart and I hope that there would be an opportunity for the fourth Assembly to introduce a bilingual rights Act to ensure that the people of Wales have the right and the opportunity to learn Welsh as adults—that is, after leaving the formal education system. I know that there is excellent provision in many parts of Wales, and organisations such as *mentrau iaith*, and Menter Iaith Conwy in my constituency, provide opportunities for people to access that provision. However,

ddarpariaeth honno. Fodd bynnag, nid yw pethau mor hawdd ym mhob rhan o Gymru. Yn ogystal â hyn, mae angen mwy na darpariaeth gyffredinol o gyrsiau, mae angen cyfle i bobl hefyd gael dysgu'r iaith yn ystod eu horiau gwaith a chael cyfle i fynychu lleoliad addysg ffurfiol neu i gael addysg yn y gweithle yn seiliedig ar eu gwaith. Er mwyn cynyddu sgiliau Cymraeg pobl wrth eu gwaith, mae angen hyfforddiant penodol ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud. Yn aml, nid yw'r cyrsiau cyffredinol yn ateb y galw. Hoffwn weld dyletswydd yn cael ei roi ar gyflogwyr yn y sector gyhoeddus a chwmnïau mawr sy'n delio yn uniongyrchol â'r cyhoedd i ddarparu cyfleoedd addas i'w gweithwyr sy'n awyddus i wella eu sgiliau.

Ni fyddai un ohonom yn bychanu'r her o gynnal iaith leiafrifol fel y Gymraeg ochr yn ochr ag iaith fwyaf pwerus y byd, ond o gynnal yr ewyllys da sydd at yr iaith, yr wyf yn ffyddiog y gallem, fel Cynulliad, osod sylfaen cadarn ar gyfer ei dyfodol.

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Yr wyf yn diolch i'r pwyllgor am ei adroddiad cynhwysfawr ac i Gareth am ei gyflwyniad. Mae argymhellion y pwyllgor wedi adnabod nifer o faterion sydd wir angen eu hystyried er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac o fewn busnesau ledled Cymru. Mae rhai o'r argymhellion y tu allan i fy nghyfrifoldebau i, ond gwelwch o ymateb y Llywodraeth ein bod yn hapus i dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, pob un o'r argymhellion. Mae cryn dipyn o waith eisoes yn digwydd, gan gynnwys gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg, er mwyn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac er mwyn sicrhau fod mwy a mwy o fusnesau'n cynnig gwasanaeth Cymraeg i'w cwsmeriaid.

Bu i Gareth sôn am yr heriau sy'n ein hwynebu yn hyn o beth. Mae'n rhaid i ni gydnabod bod hwn yn her gwirioneddol fawr. Bydd angen rhagor o syniadau creadigol os ydym am mynd i'r canfyddiad sydd wedi ei sefydlu ers degawdau, ac efallai canrifoedd, mai Saesneg yw'r iaith briodol i'w ddefnyddio yn y gweithle ac ym myd busnes. Er y tŵf o ran addysg Gymraeg a'r tŵf yn y nifer o blant a phobl ifanc sy'n gallu siarad yr

things are not that easy in all parts of Wales. In addition to this, there is a need for more than just general Welsh language courses, people need to have the opportunity to learn the language during working hours, to attend formal education settings or to undertake work-based learning. In order to increase people's Welsh language skills in their workplace, we need there to be specific training for the work that they undertake. Very often, general courses do not meet that demand. I would like a duty to be placed on employers in the public sector and in large companies that deal directly with the public to provide suitable opportunities for workers who are working to improve their skills.

No-one would make light of the challenge of protecting a minority language such as Welsh alongside one of the most powerful languages in the world, but, by maintaining the level of goodwill that exists towards the language, I am confident that, as an Assembly, we can lay a firm foundation for its future.

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): I thank the committee for its comprehensive report and Gareth for his introduction. The committee's recommendations have highlighted a number of issues that need to be considered in order to increase the use of Welsh in the workplace and in businesses across Wales. Some of the recommendations are outwith my responsibilities, but you will see from the Government's response that we are content to accept, or accept in principle, every recommendation. A lot of work is already under way, including the work of the Welsh Language Board, to encourage greater use of the Welsh language in the workplace and to ensure that more businesses offer services to their customers in Welsh.

Gareth mentioned the challenges facing us in this respect. We need to acknowledge that this is a significant challenge. We will need more creative ideas if we are to overturn the perception that has developed over a period of decades, and perhaps even centuries, that English is the appropriate language for the workplace and business. Despite the growth in Welsh-medium education and in the number of children and young people who

iaith, prin yw'r cyfleodd iddynt ei defnyddio ym myd gwaith. Mae hynny'n neilltuo'r iaith o ran allweddol o fywyd nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg. Ac mae hynny'n drueni, gan fod defnyddio'r iaith yn y gweithle yn rhoi statws a gwerth iddi, ac yn cyfiawnhau penderfyniad rhieni i sicrhau bod eu plant yn ddwyieithog. Mae gwir angen, felly, sicrhau mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a gyda busnesau i ddefnyddio'r iaith.

Fel mae adroddiad y Pwyllgor wedi adnabod, mae angen cynyddu hyder a lefel sgiliau siaradwyr Cymraeg, tra'n eu hannog i ddefnyddio'r iaith. Yr ydych yn aml yn clywed siaradwyr Cymraeg yn dweud nad yw safon eu Cymraeg yn ddigon da neu nad ydynt yn cael digon o gyfle i ddefnyddio'r iaith ac felly nid oes ganddynt yr hyder i'w defnyddio. Mae angen gweithio at y ffactorau hynny hefyd. Mae diffyg hyder yn ffactor pwysig, ond mae ansicrwydd hefyd yn codi rhwystr ym meddyliau siaradwyr Cymraeg. Yn aml, pan nad oes sicrwydd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael, neu pan fônt wedi cael profiad gwael o ran ansawdd gwasanaeth Cymraeg, gall hynny arwain rhywun i dir anobaith.

O ran defnydd o ddydd i ddydd, dengys ymchwil Bwrdd yr Iaith Gymraeg mai'r flaenoriaeth i lawer o siaradwyr Cymraeg yw gallu derbyn gwasanaeth wyneb yn wyneb yn y Gymraeg. Yr oedd yn destun pryder i mi, felly, i weld yn adroddiad y pwyllgor mai prin yw'r defnydd o ddeunydd iaith Gwaith y bwrdd. Mae angen i'r bwrdd, a ninnau felly, ystyried hyn. Mae'n hollbwysig fod gennym systemau y mae pobl yn hapus i'w defnyddio er mwyn adnabod staff sy'n siarad Cymraeg.

Yn y cyfamser, mae llawer o sôn am y diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg. Efallai na chafwyd digon o drafodaeth am y rhesymau am hynny. Mae angen i bawb sydd yn mynd i'r afael â'r maes, boed yn gyrff unigol, y bwrdd, neu'r Llywodraeth, wneud hynny drwy ddeall safbwynt y cwsmer. Dylid ystyried beth yw'r flaenoriaeth iddynt hwy; beth sydd yn rhwystr iddynt; a'r hyn y maent am ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg. Yna, mae angen sicrhau bod croeso amlwg i'r Gymraeg fel rhan o'r gwasanaeth a gynigir

can speak Welsh, there are few opportunities for them to use the language in the workplace. That excludes the language from a significant part of the lives of a number of Welsh speakers. That is a pity, as using Welsh in the workplace gives the language a certain status and value and justifies the decision made by parents to ensure that their children are bilingual. Therefore, we need more opportunities to use Welsh in the workplace and in business.

As the committee report identified, we need to increase confidence in Welsh language skills while encouraging people to make use of the language. You regularly hear Welsh speakers saying that their Welsh is not good enough or that they are not well practised in using Welsh, which means that they do not make use of it. Therefore, we need to work on those factors as well. A lack of confidence is an important factor, but uncertainty can also act as a barrier in the minds of Welsh speakers. Often, when there is uncertainty regarding the availability of a Welsh language service, or when someone has had a bad experience with regard to the quality of a Welsh language service, that can lead someone to despair.

With regard to the day-to-day use of Welsh, research undertaken by the Welsh Language Board shows that the priority for a number of Welsh speakers is the ability to receive face-to-face services in Welsh. It was a cause of concern to me, therefore, to read in the committee's report that little use is made of the Working Welsh materials produced by the board. The board needs to consider this, as do we. It is vital that we have systems that people are happy to use in order to be aware that staff speak Welsh.

In the meantime, there is a lot of discussion about the underuse of Welsh-language services. Perhaps there has not been sufficient discussion on the reasons for that. Everyone involved in this field, whether a single organisation, the board, or the Government, must understand the point of view of the customer. It is necessary to understand their priorities; what stands in their way; and what they wish to do through the medium of Welsh. Then, it is necessary to ensure that Welsh is a welcome part of the

i'r cwsmer.

O ran y gweithle, mae'r bwrdd eisoes wedi cyhoeddi canllawiau i gyrff eu dilyn er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys y ddogfen 'Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog'. Bydd y Mesur iaith hefyd, drwy osod safonau gweithredu, yn galluogi'r comisiynydd iaith i osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus a chyrrff eraill o fewn cymhwysedd y Mesur i ddatblygu'r cyfleoedd i'w staff ddefnyddio'r Gymraeg.

Fodd bynnag, mae'r gweithle yn gryn her gan fod gweithleoedd yn amrywio'n fawr, ac felly hefyd gefndir ieithyddol y staff sydd yn gweithio ledled Cymru. Felly, fel a nodir yn ein strategaeth iaith drafft, byddwn am sefydlu gweithgor rhanddeiliaid i lunio fframwaith strategol er mwyn mynd i'r afael â'r her hon. O fewn y Llywodraeth, yr ydym am sicrhau bod cynlluniau ar gyfer y Gymraeg yn y gweithle ar waith ar draws ein swyddfeydd. Efallai y dylai'r Llywodraeth ddechrau wrth ei thraed. Serch hynny, ceir enghreifftiau da o hyn ar draws Cymru. Ni chyfeiriaf at enghreifftiau penodol, ond maent yn bodoli ac felly ni fydd yn rhaid inni ailddyfeisio'r olwyn yn hyn o beth.

O ran gallu, mae angen inni sicrhau bod llwybr cydlynol drwy faes addysg a hyfforddiant i'r gweithle. Mae strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth yn ein hymrwymo i wella'r broses o gynllunio darpariaeth gyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus. Ceir ffocws o fewn y strategaeth, felly, i sicrhau bod gweithlu'r dyfodol yn fwy abl i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac â'r gallu i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle o ddydd i ddydd.

David Melding: I enjoyed the work of the Enterprise and Learning Committee so much that I continue to take part in these debates despite the fact that I am no longer a member of the committee. I will take this opportunity, once again, to commend the committee members, and particularly the Chair of the committee, Gareth Jones. I am sure that he has left a precedent that will survive and animate much of the work in the fourth

service that is offered to the customer.

In terms of the workplace, the board has already published guidance for organisations in order to increase the use of the Welsh language, including the document 'Promoting and Facilitating Bilingual Workplaces'. The language Measure, by setting standards, will also enable the language commissioner to place duties on public and other bodies within the remit of the Measure to develop opportunities for staff to use the language.

However, the workplace is quite a challenge, because they vary greatly, as does the linguistic background of staff working across Wales. Therefore, as noted in our draft language strategy, we will establish a working group of stakeholders to draw up a strategic framework in order to get to grips with this challenge. Within Government, we wish to ensure that our plans for the Welsh language in the workplace are in place across all our own offices. The Government should, perhaps, start by looking at its own systems. However, there are examples of good practice across Wales. I will not refer to specific examples, but they do exist, so we do not have to reinvent the wheel in this respect.

In terms of ability, we need to ensure that there is a coherent pathway through education and training to the workplace. The Government's Welsh-medium education strategy commits us to improving the process of developing provision in the post-14 stage of education and training, taking into account a linguistic continuum and continuous skills development. There is a focus in the strategy, therefore, on ensuring that the workforce of the future is more able to provide services through the medium of Welsh, and that it has the ability to use the language in the workplace on a day to day basis.

David Melding: Mwynheais waith y Pwyllgor Menter a Dysgu gymaint fy mod yn parhau i gymryd rhan yn y dadleuon hyn er gwaetha'r ffaith nad wyf bellach yn aelod o'r pwyllgor. Cymeraf y cyfle hwn, unwaith eto, i gymeradwyo aelodau'r pwyllgor, ac yn arbennig cadeirydd y pwyllgor, Gareth Jones. Rwy'n siŵr ei fod wedi gadael cynsail a fydd yn goroesi ac yn animeiddio llawer o'r gwaith yn y pedwerydd Cynulliad ac yn codi

Assembly and strike terror into the hearts of all of the whips that we have here. There has been such cross-party working that you almost think that it will be a ministry of all the talents with everyone joining in, putting Wales first in every respect, and seeing beyond some narrow and traditional ideological divides. The committee has worked in an exemplary fashion. It shows that, whatever we say about our political differences—and, of course, they are the basis for choice in life and they are important in providing the electorate with various options—a great deal unites us and there is a great deal that we can see is absolutely essential for the good of Wales. That should not be minimised.

4.45 p.m.

I was greatly impressed by our visit to NatWest to hear about its policy to promote bilingualism and to see that being taken forward, and especially to hear the testimony of people from west Wales who had been brought up in Welsh-speaking environments but lacked the confidence to speak it. This has been taken forward so that Welsh is not just a language for the hearth but also for the workplace, which is important. However, what I thought was really impressive was how the call centre in north-west Wales is doing, and I was surprised at the number of calls that it receives. I thought that these services were not yet attracting the level of usage that we would hope for, but well-developed Welsh-language telephone services that are properly aimed and advertised already get the level of take-up that equivalent English-language services have. That is an important lesson for other customer-facing businesses regarding how they need to look at their Welsh language policies.

On the way that we market Wales in general, the Welsh language belongs to all of us, even those of us who are still in the foothills of their Welsh learning experience, as I am afraid that I am. Welsh is there for everyone and the workplace offers great opportunities in this regard. When I was an undergraduate in the early 1980s, you hardly heard Welsh spoken in Cardiff, or at least I did not hear much—I did not frequent Clwb Ifor Bach

braw ar bob un o'r chwipiau sydd gennym yma. Cafwyd cymaint o weithio ar draws y pleidiau fel bod bron i chi gredu y bydd yn weinyddiaeth o'r holl dalentau gyda phawb yn cymryd rhan, gan roi Cymru yn gyntaf ym mhob ffordd, a gweld y tu hwnt i rai gwahaniaethau ideolegol cul a thraddodiadol. Mae'r pwyllgor wedi gweithio mewn modd canmoladwy. Mae'n dangos, beth bynnag y byddwn yn ei ddweud am ein gwahaniaethau gwleidyddol—ac, wrth gwrs, dyna'r sail ar gyfer dewis mewn bywyd ac maent yn bwysig o ran darparu opsiynau amrywiol i etholwyr—bod llawer iawn yn ein huno ac mae llawer iawn y gallwn ei weld sy'n gwbl hanfodol er lles Cymru. Ni ddylai hynny gael ei leihau.

Yn ystod ein hymweliad â NatWest, cefais fy nharo gan ei bolisi i hyrwyddo dwyieithrwydd ac i weld hynny yn mynd rhagddo, ac yn enwedig i glywed y dystiolaeth gan bobl o orllewin Cymru a gafodd eu dwyn i fyny mewn ardaloedd Cymraeg ond heb ddigon o hyder i'w siarad. Cafodd hyn ei ddwyn ymlaen fel nad yw'r Gymraeg yn ddim ond iaith yr aelwyd, ond hefyd yn iaith y gweithle, sy'n bwysig. Fodd bynnag, yr hyn a dybiais oedd yn drawiadol iawn oedd sut mae'r ganolfan alwadau yn y gogledd-orllewin yn ei wneud, ac rwyf yn synnu at faint o alwadau y mae'n eu derbyn. Tybiais nad oedd y gwasanaethau hyn eto yn denu lefel y defnydd y byddem yn gobeithio amdano, ond mae gwasanaethau ffôn Cymraeg sydd wedi eu datblygu'n dda a'u hanelu a'u hysbysebu'n briodol yn cael y defnydd y caiff gwasanaethau Saesneg cyfatebol. Mae hynny'n wers bwysig i fusnesau eraill sy'n wynebu cwsmeriaid ynghylch sut mae angen iddynt edrych ar eu polisiau iaith Gymraeg.

O ran y ffordd yr ydym yn marchnata Cymru yn gyffredinol, mae'r iaith Gymraeg yn eiddo i ni oll, hyd yn oed y rhai ohonom sydd yn dal wrth odre eu profiad dysgu Cymraeg, fel yr wyf yn ofni fy mod i. Mae'r Gymraeg yno i bawb ac mae'r gweithle yn cynnig cyfleoedd gwych yn hyn o beth. Pan oeddwn yn fyfyrwr israddedig yn y 1980au cynnar, prin y clywech Gymraeg yng Nghaerdydd, neu o leiaf nid oeddwn i'n clywed llawer—

very often. However, I am impressed by the American visitors that I receive and the American interns that I have taken regularly over the years when they say how impressed they are to hear so much spoken Welsh. In fact, my last two interns from the United States from the College of William and Mary sought to take up the opportunities to learn Welsh in the workplace.

One of them—I think that he was a gifted linguist—quickly acquired the skills to be able to meet and greet and use Welsh on the telephone to deal with initial inquiries. He then had to switch to English, but he was still able to give a bilingual greeting. He made the point that one of the things that he was most looking forward to when he came to Cardiff was to hear Welsh being spoken, and that he was pleased to hear it although he thought that he would hear a bit more. He went up to Caernarfon, because I told him that if he really wanted to hear lots of Welsh being spoken on the streets and in the shops, he needed to go there, and he delighted in going into various shops and buying some souvenirs and such. He made the point that seeing more bilingual signage in places such as Cardiff—there is a bit more now—may be a gentle way of nudging people in that direction, and that it could also be a way of helping small and medium-sized businesses if we were to offer them a modest grant to take things like that forward.

So, there is much to be hopeful about, but the overall impression that I had is that many people drew great satisfaction from learning or improving their Welsh skills in the working environment, and that it was clear to us when we spoke to people that it gave them great confidence and self-belief to acquire greater skills in Welsh. That should be taken forward, as it is a wonderful thing with which we can market the uniqueness of Wales, and it is also good for our national life.

Jenny Randerson: As this is the final report of the committee, I want to start by thanking the Chair, the committee clerks and other staff. Gareth Jones has led the committee

nid oeddwn yn mynd i Glwb Ifor Bach yn aml iawn. Fodd bynnag, rwyf wedi fy mhlesio'n fawr gan yr ymwelwyr Americanaidd a gaf a'r myfyrwyr o America yr wyf wedi eu wedi cymryd yn rheolaidd dros y blynyddoedd pan fyddant yn dweud faint o argraff a wneir arnynt pan glywant gymaint o Gymraeg llafar. Yn wir, ceisiodd fy nau fyfyrwr diwethaf o'r Unol Daleithiau o Goleg William a Mary fanteisio ar y cyfleoedd i ddysgu Gymraeg yn y gweithle.

Gwnaeth un ohonynt—credaf ei fod yn ieithydd o fri—fagu'r sgiliau yn gyflym i allu cyfarfod a chyfarach a defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn i ymdrin ag ymholiadau cychwynnol. Roedd yn rhaid iddo newid wedyn i Saesneg, ond roedd yn dal yn gallu rhoi cyfarchiad dwyieithog. Gwnaeth y pwynt mai un o'r pethau yr oedd yn edrych ymlaen ato fwyaf pan ddaeth i Gaerdydd oedd clywed Cymraeg yn cael ei siarad, a'i fod yn falch o'i chlywed er ei fod yn credu y byddai'n ei chlywed ychydig yn fwy. Aeth i fyny i Gaernarfon, oherwydd dywedais wrtho os oedd wir eisiau clywed llawer o Gymraeg yn cael ei siarad ar y strydoedd ac yn y siopau, roedd angen iddo fynd yno, ac yr oedd wrth ei fodd yn mynd i mewn i siopau gwahanol a phrynu rhai cofroddion ac yn y blaen. Gwnaeth y pwynt bod gweld mwy o arwyddion dwyieithog mewn mannau fel Caerdydd—mae ychydig mwy ohonynt bellach—yn ffordd o wthio pobl yn dyner i'r cyfeiriad hwnnw, ac y gallai hefyd fod yn ffordd o helpu busnesau bach a chanolig pe baem yn cynnig grant cymedrol iddynt ddatblygu pethau fel hynny.

Felly, mae yna lawer i fod yn obeithiol yn ei gylch, ond yr argraff gyffredinol a gefais oedd bod llawer o bobl yn cael boddhad mawr o ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle, a'i bod yn amlwg i ni pan fyddwn yn siarad â phobl ei fod yn yn rhoi hyder mawr a hunan-gred iddynt fagu mwy o sgiliau yn y Gymraeg. Dylid datblygu hynny, gan ei bod yn rhywbeth gwych y gallwn farchnata natur unigryw Cymru gydag ef, ac mae hefyd yn dda i'n bywyd cenedlaethol.

Jenny Randerson: Gan mai hwn yw adroddiad terfynol y pwyllgor, rwyf am ddechrau drwy ddiolch i'r cadeirydd, clercod y pwyllgor a staff eraill. Mae Gareth Jones

fairly, firmly and effectively. The committee as a whole has been one of the success stories of the third Assembly. One of the things that we noticed about this Assembly is that the committees are much more effective in general. On a cross-party basis in committee, the Government-side Members are prepared to criticise the Government and the opposition-party Members are prepared not to criticise the Government and are prepared to pay tribute to the Government's successes when they happen. That is a sign of a grown-up and effective system.

We are discussing a hugely important topic today. We have seen in Wales the growth of Welsh-medium education and of Welsh as a second language within schools, which has meant that a generation of young people is coming out of school with much better Welsh-language skills than they would have had in the past. However, too often, Welsh is being left at the school gate. It is often left at the school gate when young people go off for the weekend and socialise in English, but it is also left at the school gate when they leave school and go into training, further education or into work. One of the great successes of this report is that it gets into the detail of why that is so.

There is a need for a greater availability of training, but many of the solutions are very simple and obvious. They do not require vast amounts of money, but they do mean that there must be better information and greater understanding. One of the committee's recommendations, recommendation 3, is that guidance should be issued by the Government on the commercial benefits of utilising Welsh-speaking skills to both SMEs and larger organisations. This is key to encouraging businesses to accept and understand that providing a good Welsh-medium service will bring them more business and it will certainly never deter anyone. It is a plus, all the way down the line.

We could emphasise its importance, particularly in the tourism sector. I remember that, years ago, the old Wales Tourist Board undertook research that showed that one of

wedi arwain y pwyllgor yn deg, yn gadarn ac yn effeithiol. Mae'r pwyllgor cyfan wedi bod yn un o lwyddiannau'r trydydd Cynulliad. Un o'r pethau y gwnaethom sylwi am y Cynulliad hwn yw bod y pwyllgorau yn llawer mwy effeithiol yn gyffredinol. Yn drawsbleidiol yn y pwyllgor, mae'r Aelodau ar ochr y Llywodraeth yn barod i feirniadu'r Llywodraeth ac mae Aelodau'r gwrthbleidiau yn barod i beidio â beirniadu'r Llywodraeth ac yn barod i dalu teyrnged i lwyddiannau'r Llywodraeth pan fyddant yn digwydd. Mae hynny'n arwydd o system aeddfed ac effeithiol.

Rydym yn trafod pwnc hynod o bwysig heddiw. Rydym wedi gweld twf addysg gyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion yng Nghymru, sydd wedi golygu bod cenhedlaeth o bobl ifanc yn dod allan o'r ysgol gyda llawer gwell sgiliau iaith Gymraeg nag y byddai ganddynt yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae'r Gymraeg yn cael ei gadael wrth glwyd yr ysgol. Mae'n aml yn cael ei gadael wrth glwyd yr ysgol pan fydd pobl ifanc yn mynd i ffwrdd am y penwythnos a chymdeithasu yn y Saesneg, ond mae hefyd yn cael ei gadael wrth glwyd yr ysgol pan fyddant yn gadael yr ysgol a mynd i mewn i hyfforddiant, addysg bellach neu waith. Un o lwyddiannau mawr yr adroddiad hwn yw ei fod yn mynd i fanylion pam mai felly y mae.

Mae angen cael mwy o hyfforddiant, ond mae llawer o'r atebion yn syml ac yn amlwg iawn. Nid ydynt yn gofyn am symiau enfawr o arian, ond maent yn golygu bod yn rhaid cael gwell gwybodaeth a gwell dealltwriaeth. Un o argymhellion y pwyllgor, argymhelliad 3, yw y dylai canllawiau gael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth ar fanteision masnachol defnyddio sgiliau siarad Cymraeg i fusnesau bach a chanolig a sefydliadau mwy. Mae hyn yn allweddol i annog busnesau i dderbyn a deall y byddai darparu gwasanaeth da drwy gyfrwng y Gymraeg yn dod â mwy o fusnes iddynt, ac ni fydd byth yn sicr yn atal unrhyw un. Mae'n fantais ym mhob ystyr.

Gallem bwysleisio ei phwysigrwydd, yn enwedig yn y sector twristiaeth. Rwyf yn cofio, flynyddoedd yn ôl, i hen Fwrdd Croeso Cymru gynnal ymchwil a oedd yn dangos

the key things that attracted people to Wales from outside the country and particularly from the rest of the UK was the idea that it was slightly exotic because we spoke Welsh, but that you could always be confident that we also spoke English. It was a safe version of a foreign holiday, if you would like to put it that way, although I do not think that the report did. Too much of the tourism sector still does not understand that the use of Welsh, when possible, is important. That needs to be aligned with a greater and more positive promotion of Welsh culture in general and, by that, I refer to everything from food to Welsh history. We need to be proud of every aspect of our background. I want to emphasise that one of the things that we were told in the committee was that the banks are a good example, in general, of businesses that have adopted Welsh-medium services and it is important that that message is out there and that what is done is appreciated.

I want to look at the simple things that can be done to improve the situation. We looked at and we have a recommendation about the use of badging, logos and signs. There should be an easy way, when someone goes into a smaller shop in which Welsh is spoken, for the customer to be put at ease and to realise immediately, from the use of a sign, that if they speak Welsh, they will find someone behind the counter who also speaks Welsh. Too often, people who can speak Welsh do not use it because they fear that they will not be understood. Therefore, we need to empower the customer as well as the producer, the business and businesses in general. Finally, with that and the need to use these mechanisms to spread good practice, the solutions are not difficult or expensive, but they need to be implemented with due speed.

Alun Ffred Jones: Diolch yn fawr am y cyfraniadau; yr wyf yn cydnabod llawer o'r sylwadau a wnaethpwyd. Yr wyf yn derbyn mai peth calonogol yw bod ewyllys da tuag at yr iaith. Yr wyf hefyd yn derbyn pwynt David Melding bod yr iaith yn perthyn i bawb, os ydynt yn ei siarad hi ai peidio. Serch hynny, hoffwn bwysleisio na ddylem

mai un o'r pethau allweddol a oedd yn denu pobl i Gymru o'r tu allan i'r wlad ac yn enwedig o weddill y DU oedd y syniad ei bod ychydig yn egsotig oherwydd ein bod yn siarad Cymraeg, ond y gallech fod yn hyderus bob amser ein bod hefyd yn siarad Saesneg. Roedd yn fersiwn ddiogel o wyliau tramor, os hoffech ei roi felly, er nad wyf yn credu y gwnaeth yr adroddiad. Mae gormod o'r sector twristiaeth dal ddim yn deall bod defnyddio'r Gymraeg, pan fo hynny'n bosibl, yn bwysig. Mae angen alinio hynny gyda mwy o hyrwyddo cadarnhaol o ddiwylliant Cymru yn gyffredinol ac, yn hynny o beth, rwyf yn cyfeirio at bopeth o fwyd i hanes Cymru. Mae angen i ni fod yn falch o bob agwedd ar ein cefndir. Rwyf am bwysleisio mai un o'r pethau a ddywedwyd wrthym yn y pwyllgor oedd bod y banciau yn enghraifft dda, yn gyffredinol, o fusnesau a fabwysiadodd wasanaethau cyfrwng Cymraeg ac mae'n bwysig bod y neges honno allan yna a bod yr hyn a wneir yn cael ei werthfawrogi.

Rwyf am edrych ar y pethau syml y gellir eu gwneud i wella'r sefyllfa. Rydym yn edrych ar ac wedi gwneud argymhelliad ynghylch y defnydd o fathodynau, logos ac arwyddion. Dylai fod ffordd hawdd, pan fydd rhywun yn mynd i mewn i siop lai lle siaredir y Gymraeg, i'r cwsmer deimlo'n gartrefol ac i sylweddoli ar unwaith, o'r defnydd o arwydd, os ydynt yn siarad Cymraeg, y byddant yn dod o hyd i rywun y tu ôl i'r cownter sydd hefyd yn siarad Cymraeg. Yn rhy aml, nid yw pobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ei defnyddio gan eu bod yn ofni na fyddant yn cael eu deall. Felly, mae angen grymuso'r cwsmer yn ogystal â'r cynhyrhydd, y fusnes a busnesau yn gyffredinol. Yn olaf, gyda hynny a'r angen i ddefnyddio'r mecanweithiau hyn i ledaenu arfer da, nid yw'r atebion yn anodd nac yn ddrud, ond mae angen iddynt gael eu rhoi ar waith gyda chyflymder.

Alun Ffred Jones: Thank you very much for those contributions; I acknowledge many of the comments made. The encouraging thing is that there is good will towards the Welsh language. I also accept David Melding's point that the language is for all, whether they speak it or not. Despite that, I would emphasise that we should not deceive

dwyllo'n hunain; mae materion rhuglder a rhwyddineb wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn ffactorau pwysig sy'n effeithio ar ddewis pobl i ddefnyddio'r iaith ai peidio, ac mae'r syniad hwn wedi'i gynnwys yn y strategaeth iaith.

Gwnaeth David Melding bwynt pwysig arall am y gwasanaethau sydd ar gael a sut mae pobl yn eu defnyddio wrth gysylltu â busnesau. Y cwestiwn a yw'r gwasanaethau hyn ar gael yn rhwydd. Ni fydd pobl yn mynd i chwilio am rifau ffôn ac yn y blaen os nad ydynt ar gael yn rhwydd ac mae hwnnw'n ffactor pwysig iawn wrth geisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Yr wyf yn ddiolchgar am y sylwadau. Bydd y mater hwn yn her i'r Llywodraeth nesaf a'r partneriaid i gyd. Drwy'r strategaeth iaith newydd, y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r comisiynydd yn y man, a gwaith cyngor partneriaeth y Gymraeg a fydd yn cael ei sefydlu o dan y Mesur, yr wyf yn ffyddiog y bydd modd inni fynd i'r afael â'r materion hollbwysig hyn. Wrth wneud hynny, gallwn greu Cymru sy'n wirioneddol ddwyieithog.

Gareth Jones: Yr ydych wedi gwrandao ar y negeseuon gan aelodau'r pwyllgor a'r grŵp rapporteur ac yr wyf yn gwybod y byddai Jeff yn cytuno 100 y cant â'r hyn sydd wedi cael ei ddweud. Fel y dywedodd David Melding, yr hyn yr wyf wedi ei ddysgu ynglŷn â'r Gymraeg o gael cydweithio ag aelodau'r grŵp rapporteur, ac aelodau eraill y pwyllgor, yw bod y Gymraeg i bawb ohonom. Yr oeddwn yn rhyfeddu at y consensws a'r awydd i wella a datblygu sgiliau yn y Gymraeg a ddangoswyd gan yr Aelodau yr oeddwn yn gweithio â nhw. Yr oedd yn amlwg bod brwdfrydedd a dealltwriaeth o'r her sy'n bodoli yng Nghymru.

Jeff Cuthbert: I am grateful to you for giving way, Gareth. When we met employers and employees who were keen to learn Welsh, one of the issues raised with us was the rather limited amount of assessment materials that are available through the medium of Welsh for those following competency-based training. Do you agree that it is incumbent on sector skills councils and awarding bodies to ensure that those who

ourselves; issues concerning fluency of their use of the Welsh language are important factors that affect people's choices whether to use the language or not, and that notion is included in the language strategy.

David Melding made another important point about the services that are available and how people use them to contact businesses. The question is whether these services are easily available. People are not going to search for phone numbers and so on if they are not conveniently available and that is an important factor in any attempts to increase useage of the language. I am grateful for the comments. This matter will be a challenge for the next Government and all the partners. Through the new language strategy, the Welsh-medium education strategy, the Welsh Language Measure (Wales) 2011, the work of the Welsh Language Board and shortly the commissioner, and the work of the Welsh partnership council that will be established under the Measure, I am confident that we will be able to deal with these crucial matters. In doing so, we will be able to create a truly bilingual Wales.

Gareth Jones: You have listened to the points made by members of the committee and the rapporteur group and I know that Jeff would agree 100 per cent with what has been said. As David Melding said, what I have learnt about the Welsh language from working with members of the rapporteur group, and other committee members, is that the Welsh language is for all of us. I was amazed by the consensus and the desire to improve and develop language skills that were demonstrated by the Members with whom I was working. It was obvious that there is enthusiasm and an understanding of the challenge that exists in Wales.

Jeff Cuthbert: Rwyf yn ddiolchgar ichi am ildio, Gareth. Pan wnaethom gyfarfod â chyflogwyr a gweithwyr a oedd yn awyddus i ddysgu Cymraeg, un o'r materion a godwyd gyda ni oedd y deunyddiau asesu braidd yn gyfyngedig sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sy'n dilyn hyfforddiant sy'n seiliedig ar gymhwysedd. A ydych yn cytuno ei bod yn ddyletswydd ar gynghorau sgiliau sector a chyrrff dyfarnu i sicrhau bod y rhai

wish to pursue vocational qualifications through the medium of Welsh in the workplace are able to do so fully?

Gareth Jones: Diolch am yr ymyriad hwnnw, Jeff. Yr ydych yn cyfeirio at rywbeth o bwysigrwydd allweddol cyn belled ag y mae dilyniant yn y cwestiwn. Yr wyf yn hyderus bod y Gweinidog yn barod i ystyried yr hyn yr ydych newydd gyfeirio ato. Mae dysgu yn y gweithle yn allweddol i ddatblygiad a thwf dwyieithrwydd yng Nghymru.

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd y Gweinidog ac mae'n rhaid imi gytuno bod y gweithle yn cynrychioli her arbennig iawn cyn belled ag y mae'r Gymraeg yn y cwestiwn. Mae'r sefyllfa'n amrywio o le i le yn nhermau'r defnydd a wneir o'r Gymraeg, canfyddiad y Gymraeg, profiadau ohoni ac ati. Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa'n amhosibl, a dyna'r gobaith i'r dyfodol. Wedi'r trafodaethau yr ydym wedi eu cael, ac wedi gwrandao ar brofiadau'r rhai sydd yn y gweithle, fel y mae fy nghyd-Aelodau wedi sôn, mae'n rhaid inni gryfhau'r dilyniant a ddisgrifiwyd gan Jenny er mwyn atal y Gymraeg rhag cael ei gadael wrth gathiau'r ysgol. Cytunodd y Gweinidog â'r pwynt hwnnw a bod angen creu a pherffeithio'r dilyniant er mor anodd yw'r her. Yr argraff y mae'r adolygiad hwn wedi ei adael gyda mi yw bod consensws ac ewyllys da o ran y dyhead i weld Cymru yn datblygu'n wlad ddwyieithog.

5.00 p.m.

Flynnyddoedd yn ôl, yr oedd llawer o dyndra'n perthyn i'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, ond da o beth yw cydnabod ein bod wedi aeddfedu, a'n bod yn deall yr hyn sydd gennym. Dymunaf y gorau i'r Cynulliad a'r Llywodraeth newydd, ac yr wyf yn siŵr y bydd y Gymraeg a dwyieithrwydd yn rhan bwysig o amcanion y Llywodraeth honno.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to note the report of the Enterprise and Learning Committee. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

sy'n dymuno dilyn cymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gweithle yn gallu gwneud hynny'n llawn?

Gareth Jones: Thank you for that intervention, Jeff. You have referred to something of key importance as far as progression is concerned. I am confident that the Minister is ready to consider that to which you have just referred. Workplace learning is key to the development and growth of bilingualism in Wales.

I listened carefully to what the Minister said and I must agree that the workplace represents a special challenge as far as the Welsh language is concerned. The situation varies from place to place in terms of the use made of the language, perceptions and experiences of it and so on. However, the situation is not impossible and that is our hope for the future. After the discussions that we have had, and having listened to the experiences of those in the workplace, which my colleagues have mentioned, we must strengthen the progression that was described by Jenny in order to prevent the Welsh language from being left at the school gates. The Minister agreed with that point and that there is a need to create and perfect progression although it is a difficult challenge. The impression that this inquiry has left on me is that there is consensus and good will regarding the wish to see the development of Wales as a bilingual nation.

Years ago, there was a lot of tension in relation to the use of the Welsh language in Wales, but it is great to see that we have all matured and that we understand what we have here. I wish the new Assembly and the new Government well. I am sure that the Welsh language and bilingualism will be an important part of the objectives of that Government.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

**Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol i Ddrafftio Mesurau
Llywodraeth Cymru: Gwersi a Ddysgwyd o'r Tair Blynedd Gyntaf
The Constitutional Affairs Committee's Inquiry into the Drafting of Welsh
Government Measures: Lessons from the First Three Years**

Cynnig NDM4704 Janet Ryder

Motion NDM4704 Janet Ryder

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar Ddrafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: Gwersi a ddysgwyd o'r tair blynedd gyntaf, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar ddydd Iau 3 Chwefror 2011.

Notes the report of the Constitutional Affairs Committee on the Drafting of Welsh Government Measures: Lessons from the first three years, which was laid in the Table Office on Thursday 3 February 2011.

Janet Ryder: I move the motion.

Janet Ryder: Cynigiau y cynnig.

I am pleased to be able to open this debate on the latest of our inquiry reports. Over the last four years, for the first time in Welsh history, a democratically elected body has been able to make primary legislation for the whole of Wales. As a result, by the end of this Assembly, we are likely to have considered and passed 17 Government Measures, as well as five other Measures proposed by individual Members or committees. In light of this, the Constitutional Affairs Committee agreed that now would be a good time to take stock of experience so far. We decided to undertake a short inquiry into the drafting of Government Measures to see what issues of general significance have arisen and whether there are any lessons from our experience so far that might be applied in future.

Rwyf yn falch o allu agor y ddatl hon ar y diweddaraf o'n hadroddiadau ymchwiliad. Dros y pedair blynedd diwethaf, am y tro cyntaf yn hanes Cymru, mae corff a etholwyd yn ddemocrataidd wedi gallu gwneud deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru gyfan. O ganlyniad, erbyn diwedd y Cynulliad hwn, rydym yn debygol o fod wedi ystyried a phasio 17 o Fesurau Llywodraeth, yn ogystal â phum Mesur arall a gynigir gan Aelodau unigol neu bwyllgorau. Yng ngoleuni hyn, cytunodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol y byddai nawr yn amser da i bwysu a mesur y profiad hyd yn hyn. Penderfynasom gynnal ymchwiliad byr i ddrafftio Mesurau Llywodraeth i weld pa faterion o arwyddocâd cyffredinol a gododd ac a oes unrhyw wersi o'n profiad hyd yma a allai gael eu defnyddio yn y dyfodol.

In what was a relatively short and focused inquiry, we sought to balance evidence from those with legal drafting experience with evidence from legal practitioners and constitutional experts, as well as groups that might be affected by laws made here. It is reassuring that, despite there being little experience of drafting primary legislation, no fundamental concerns were raised to indicate that the way in which new Welsh laws are drafted is in any way suspect, inferior or unclear. In fact, there are good reasons to believe that they are the equal of laws made

Yn yr hyn a oedd yn ymchwiliad cymharol fyr a phenodol, ein bwriad oedd sicrhau cydbwysedd rhwng tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad drafftio cyfreithiol gyda thystiolaeth gan ymarferwyr cyfreithiol ac arbenigwyr cyfansoddiadol, yn ogystal â grwpiau y gellid effeithio arnynt gan ddeddfau a wneir yma. Mae'n galonogol, er nad oes llawer o brofiad o ddrafftio deddfwriaeth sylfaenol, na chodwyd unrhyw bryderon sylfaenol i ddangos bod y ffordd y mae deddfau Cymreig newydd yn cael eu drafftio mewn unrhyw ffordd yn amheus,

anywhere else in the UK.

That is not to say there were no concerns and that the Measures passed so far are all above criticism. On occasion, there seemed to be a desire to legislate before policy had been fully thought through. Some early Measures, in particular, were just a framework, with far too much detail being left to be filled in later by subordinate legislation. However, there were improvements. Later Measures showed both a more developed policy context and a greater degree of consistency about what is on the face of the Measure compared with what is left to subordinate legislation.

The legislative competence Order process did not help. It has been a drain on policy making in this Assembly, using up time and resources that could have been better used developing underlying policy and new laws. The result of the referendum, and the much clearer legal framework that it provides, should mean that the incoming Government will have much better tools available to it to develop policy and to implement it through legislation.

Turning to some of our specific recommendations, I have already mentioned concerns that policy has not always been fully developed when legislation is first introduced. As one witness put it, it is as if the law was drafted before any policy was defined. To try to ensure that policy informs law-making, rather than the legislative process driving policy, we have recommended that, before Bills are introduced, the Government should publish concrete policy proposals in the form of White Papers that will set out the precise policy proposals that the new laws are intended to implement.

However, policy development is not just about finding reasons for a new law. It is also important to ensure that all other ways of achieving a policy aim have been explored fully first. This is not only to avoid making unnecessary law, but because other policy levers may be quicker and more effective. As the eminent lawyer and former Parliamentary

israddol na'n aneglur. Yn wir, mae rhesymau da dros gredu eu bod cystal â deddfau a wneir yn unrhyw le arall yn y DU.

Nid yw hynny'n dweud nad oedd unrhyw bryderon a bod y Mesurau a gafodd eu pasio hyd yn hyn i gyd uwchlaw beirniadaeth. Ar brydiau, roedd yn ymddangos bod awydd i ddeddfu cyn bod polisi wedi cael ei ystyried yn llawn. Dim ond fframwaith oedd ambell i Fesur cynnar, gyda llawer gormod o fanylion yn cael eu gadael i'w llenwi yn ddiweddarach drwy is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd gwelliannau. Roedd Mesurau diweddarach yn dangos cyd-destun polisi mwy datblygedig a mwy o gysondeb ynghylch yr hyn sydd ar wyneb y Mesur o'i gymharu â'r hyn sy'n cael ei adael i is-ddeddfwriaeth.

Ni fu'r broses Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol o gymorth. Bu'n faich ar lunio polisi yn y Cynulliad hwn, gan ddefnyddio amser ac adnoddau y gellid bod wedi eu defnyddio yn well i ddatblygu polisi sylfaenol a deddfau newydd. Dylai canlyniad y refferendwm, a'r fframwaith cyfreithiol llawer cliriach y mae'n ei ddarparu, olygu y bydd gan y Llywodraeth newydd offer gwell o lawer ar gael iddo i ddatblygu polisi ac i'w roi ar waith drwy ddeddfwriaeth.

Gan droi at rai o'n hargymhellion penodol, rwyf eisoes wedi sôn am bryderon nad yw polisi bob amser wedi ei ddatblygu'n llawn pan gaiff deddfwriaeth ei chyflwyno gyntaf. Fel y dywedodd un tyst, mae fel petai'r gyfraith yn cael ei drafftio cyn i unrhyw bolisi gael ei ddiffinio. Er mwyn ceisio sicrhau bod y polisi yn hysbysu'r deddfu, yn hytrach na'r broses ddeddfwriaethol yn gyrru'r polisi, rydym wedi argymhell, cyn y caiff Biliau eu cyflwyno, y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi cynigion polisi pendant ar ffurf Papurau Gwyn a fydd yn amlinellu'r cynigion polisi manwl y bwriedir i'r deddfau newydd eu gweithredu.

Fodd bynnag, nid yw datblygu polisi yn ymwneud yn unig â dod o hyd i resymau am ddeddf newydd. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod yr holl ffyrdd eraill o wireddu nod polisi wedi cael eu hystyried yn llawn yn gyntaf. Nid yw hyn yn unig er mwyn osgoi gwneud cyfraith ddiangen, ond oherwydd y gallai dulliau polisi eraill fod yn gyflymach

draftsman, Daniel Greenberg, put it,

‘it is important that legislation should be used only to achieve change that cannot be achieved in any other way; and once it is decided that legislation is necessary, it must be centred around propositions that impose clear rights and duties and have appropriate mechanisms for enforcement’.

Therefore, apart from explaining why a policy is needed, White Papers must also demonstrate why a new law—rather than any other action that Government might take—is needed to make that policy work. I am pleased that the Government has recognised these issues and has responded positively to these recommendations. Indeed, in his statement last week, the Counsel General made the use of White Papers, as a legislative and policy development tool, one of his main proposals.

I have already mentioned the framework nature of some of the early Measures, although the criticism could also be made about aspects of some later Measures. The danger with framework Measures is that too much of significance is left to be determined by Ministers or, worse, by the courts. We also need to ensure that we do not put too much complicated detail on the face of a Measure, obscuring its main purpose. This balance between detailed issues and avoiding excessive powers for Ministers needs to be struck afresh for every new Bill. It is therefore our job, as legislators, to ensure that the right balance is struck on each occasion. In doing so, we should not let our judgment as legislators be replaced by a set of prescriptive rules, but that is not to say that there are no principles that can guide us and information that can help us.

We have recommended that the Government might provide us, as legislators, with better and more complete information. We have recommended a set of principles that is a starting point for questioning whether particular powers should be on the face of a

ac yn fwy effeithiol. Fel y dywedodd y cyfreithiwr blaenllaw a'r cyn ddrafftiwr Seneddol, Daniel Greenberg,

mae'n bwysig defnyddio deddfwriaeth dim ond i sicrhau newid na ellir ei gyflawni mewn unrhyw ffordd arall; ac unwaith y penderfynir bod angen deddfwriaeth, rhaid iddo ganolbwyntio ar gynigion sy'n gosod hawliau a dyletswyddau clir ac sydd â dulliau priodol ar gyfer gorfodi.

Felly, ar wahân i esbonio pam bod angen polisi, mae'n rhaid i Bapurau Gwyn hefyd ddangos pam bod angen cyfraith newydd—yn hytrach nag unrhyw gamau eraill y gallai'r Llywodraeth eu cymryd—i wneud y polisi hwnnw weithio. Rwyf yn falch bod y Llywodraeth wedi cydnabod y materion hyn ac wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion hyn. Yn wir, yn ei ddatganiad yr wythnos diwethaf, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol y defnydd o Bapurau Gwyn, fel offeryn i ddatblygu deddfwriaeth a pholisi, yn un o'i brif gynigion.

Rwyf eisoes wedi sôn am natur fframwaith rhai o'r Mesurau cynnar, er y gallai'r feirniadaeth hefyd gael ei gwneud am agweddau ar rai Mesurau diweddarach. Y perygl gyda Mesurau fframwaith yw bod gormod o bethau o bwys yn cael eu gadael i'w penderfynu arnynt gan Weinidogion neu, yn waeth, gan y llysoedd. Mae angen i ni hefyd sicrhau nad ydym yn rhoi gormod o fanylion cymhleth ar wyneb y Mesur, gan guddio ei brif bwrpas. Mae angen taro'r cydbwysedd rhwng materion manwl a phwerau gormodol i Weinidogion o'r newydd ar gyfer pob Bil newydd. Felly, ein gwaith ni, fel deddfwyr, yw sicrhau bod y cydbwysedd cywir yn cael ei daro ar bob achlysur. Wrth wneud hynny, ni ddylem adael ein barn fel deddfwyr gael ei ddisodli gan set o reolau rhagnodol, ond nid yw hynny'n dweud nad oes unrhyw egwyddorion sy'n gallu ein harwain a gwybodaeth a allai ein helpu.

Rydym wedi argymhell bod y Llywodraeth yn darparu gwybodaeth well a mwy cyflawn i ni fel deddfwyr. Rydym wedi argymhell cyfres o egwyddorion sydd yn fan cychwyn ar gyfer holi a ddylai pwerau penodol fod ar wyneb y Mesur neu mewn is-ddeddfwriaeth. Nid

Bill or in subordinate legislation. We are not wedded to every one of these principles, but, as making new laws becomes the main focus of the Assembly, it is important to begin to think through for ourselves the principles that we want to see rooted in the laws that we make here.

The balance between what is on the face of a Bill, and what is provided for in secondary legislation, is not the only issue. How these powers can be effectively scrutinised by the Assembly is also an important consideration. Most subordinate legislation is scrutinised using the so-called negative procedure, where legislation automatically comes into force unless Assembly Members intervene to stop it. Some subordinate legislation follows the affirmative procedure, where it must be approved by the Assembly before it can take effect, and, in a small number of cases, a superaffirmative procedure is used, where, in addition to Assembly approval, there must also be a period of consultation. The merits of each procedure must be judged before deciding which is to be used. However, that does not mean that we cannot have underpinning principles that we can take into account when making these judgments. The Wales Governance Centre suggested a number of principles that will help us focus when considering the appropriate level of scrutiny for subordinate legislation. We have recommended the consideration of the centre's suggestions, and I am glad that the Government has agreed.

Good information is the key to good scrutiny and a number of witnesses commended the information that the UK Government provides to the Delegated Powers and Regulatory Reform Committee of the House of Lords about proposed new secondary legislation powers. We have, therefore, recommended that the Government should, in future, provide the Constitutional Affairs Committee, or its successor, with similar information on proposed new subordinate legislation powers here. I am pleased that the Counsel General has agreed to accept this recommendation, although I am a little perplexed about his reasons for saying that it would need a change to the Assembly's

ydym yn gaeth i bob un o'r egwyddorion hyn, ond, wrth i wneud deddfau newydd ddod yn brif ffocws i'r Cynulliad, mae'n bwysig dechrau meddwl drosom ein hunain am yr egwyddorion yr ydym am eu gweld yn sail i'r deddfau yr ydym yn eu gwneud yma.

Nid y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Mesur, a'r hyn a ddarperir ar ei gyfer mewn is-ddeddfwriaeth, yw'r unig fater. Mae'r modd y gall y Cynulliad graffu ar y pwerau hyn yn effeithiol hefyd yn ystyriaeth bwysig. Caiff y rhan fwyaf o is-ddeddfwriaeth ei chraffu arni gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol, fel y'i gelwir, lle daw deddfwriaeth yn awtomatig i rym oni bai bod Aelodau Cynulliad yn ymyrryd i'w hatal. Mae rhai darnau o is-ddeddfwriaeth yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol, lle mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad cyn y gallant ddod i rym, ac, mewn nifer fach o achosion, defnyddir y weithdrefn uwchgadarnhaol, lle, yn ogystal â chymeradwyaeth y Cynulliad, rhaid cael cyfnod o ymgynghori hefyd. Rhaid i rinweddau pob gweithdrefn gael eu barnu cyn penderfynu pa un i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na allwn gael egwyddorion sylfaenol y gallwn eu hystyried wrth wneud y penderfyniadau hyn. Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru wedi awgrymu nifer o egwyddorion a fydd o gymorth wrth ystyried y lefel briodol o graffu ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Rydym wedi argymhell bod awgrymiadau'r ganolfan yn cael eu hystyried, ac rwy'n falch bod y Llywodraeth wedi cytuno.

Mae gwybodaeth dda yn allweddol i graffu da ac mae nifer o dystion wedi canmol y wybodaeth y mae Llywodraeth y DU yn ei rhoi i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio yn Nhŷ'r Arglwyddi am bwerau deddfwriaeth eilaidd arfaethedig newydd. Rydym felly wedi argymhell y dylai'r Llywodraeth yn y dyfodol roi gwybodaeth debyg i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, neu ei olynydd, ar bwerau is-ddeddfwriaeth newydd arfaethedig yma. Rwyf yn falch fod y Cwnsler Cyffredinol wedi cytuno i dderbyn yr argymhelliad hwn, er nad wyf yn hollol siwr pam ei fod yn dweud y byddai angen newid Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Gallai hynny fod yn bwynt y byddai'n hoffi ei

Standing Orders. That may be a point that he would like to address in his response to this debate.

On the drafting of laws, although we heard calls for greater consistency of drafting, or even the development of a Welsh style of drafting, we were not convinced that it was either possible or desirable to try to prescribe how individual laws should be drafted. We believe that the current Government is committed to drafting Welsh laws in plain English and clear Welsh, taking account of the need for technical legal precision. However, we also believe that an open dialogue between practitioners in this area can only help in improving practice in the way new Welsh laws are drafted. I am, therefore, glad that the Government has accepted our recommendation that it should publish information about the general principles and practices of its drafting team.

Legislation also needs to be better explained. Explanatory memoranda are particularly important in helping those of us who are not lawyers, or who may not have a detailed knowledge of the policy background, to understand proposed new laws. Regulatory impact assessments are also potentially key documents in understanding the impact of new laws. There has been good practice in both areas, but a number of criticisms have also been made that information has not been clear enough, or of the right sort, to allow a proper judgment of a proposed Measure, or the policy underlying it, to be made. I am glad, therefore, that the Counsel General has committed the Government to improving the overall standard of explanatory memoranda and regulatory impact assessments.

We have also made recommendations about the consolidation of Welsh legislation and about consolidating the current excellent practice on the use of gender-specific language. I should also make it clear that we have not looked at Measures proposed by Members or Committees, which are usually more ad hoc in nature and for which different drafting arrangements apply. However, we have asked the Assembly Commission to consider the implications of our recommendations for Bills proposed by

drafod yn ei ymateb i'r ddadl hon.

O ran drafftio cyfreithiau, er y clywsom alwadau am fwy o gysondeb o ran drafftio, neu hyd yn oed ddatblygu dull Cymreig o ddrafftio, ni chawsom ein hargyhoeddi ei bod naill ai'n bosibl nac yn ddymunol ceisio rhagnodi sut y dylid drafftio deddfau unigol. Credwn bod y Llywodraeth bresennol yn ymrwymedig i ddrafftio deddfau Cymreig mewn Saesneg plaen a Chymraeg clir, gan gofio am yr angen am gywirdeb cyfreithiol technegol. Fodd bynnag, credwn hefyd y gallai deialog agored rhwng ymarferwyr yn y maes hwn ond helpu i wella arferion yn y ffordd y caiff deddfau Cymreig newydd eu drafftio. Rwyf felly'n falch bod y Llywodraeth wedi derbyn ein hargymhelliad y dylai gyhoeddi gwybodaeth am egwyddorion ac arferion cyffredinol ei thîm drafftio.

Mae hefyd angen esbonio deddfwriaeth yn well. Mae memoranda esboniadol yn arbennig o bwysig wrth helpu'r sawl ohonom sydd ddim yn gyfreithwyr, neu nad oes ganddynt wybodaeth fanwl am gefndir y polisi, i ddeall cyfreithiau newydd a gynigir. Gall asesiadau effaith rheoleiddiol hefyd fod yn ddogfennau allweddol i ddeall effaith cyfreithiau newydd. Bu arfer da yn y ddau faes ardal, ond cafwyd sawl beirniadaeth hefyd nad yw'r wybodaeth wedi bod yn ddigon clir, neu o'r math cywir, er mwyn gallu dod i farn briodol ar Fesur arfaethedig, neu'r polisi sy'n sail iddo. Rwyf yn falch felly bod y Cwnsler Cyffredinol wedi ymrwymo'r Llywodraeth i wella safon gyffredinol y memoranda esboniadol ac asesiadau effaith rheoleiddiol.

Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion am y broses o gyfuno deddfwriaeth Gymreig ac am atgyfnerthu'r arfer cyfredol rhagorol ar ddefnyddio iaith rhyw-benodol. Dylwn hefyd ei gwneud yn glir nad ydym wedi edrych ar y mesurau a gynigir gan Aelodau na phwyllgorau, sydd fel arfer yn fwy ad hoc o ran natur ac yn ddarostyngedig i drefniadau drafftio gwahanol. Fodd bynnag, rydym wedi gofyn i Gomisiwn y Cynulliad ystyried goblygiadau ein hargymhellion ar gyfer Biliau a gynigir gan bwyllgorau neu Aelodau

Committees or Members in the fourth Assembly.

I look forward to the contribution from the Counsel General to today's debate. I am very pleased that the Government has accepted or agreed to consider most of our recommendations. I hope that the Counsel General will address the issue that has arisen in respect of a number of proposed Measures, most recently the Proposed Local Government (Wales) Measure, where amendments affecting the substance of a proposed Measure have been made at a relatively late stage in its consideration.

In summary, we hope that the Government will take steps to ensure that future Measures are based on clear policy objectives that cannot be achieved except through legislation, have as much detail as possible on the face of Measures rather than in subordinate legislation, use procedures for subordinate legislation that ensure appropriate scrutiny in each case, and are fully explained in plain English and clear Welsh.

Finally, I thank those who gave evidence to the committee, committee members, the clerking staff, the lawyers and the Members' research team who have all done a wonderful job over the last four years in supporting the committee so ably and who helped produce our report.

The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths):

Thank you, Janet, for that positive opening as Chair of the committee. There is a great deal of common ground between my oral statement and the debate that we had on it, this committee report, my engagement with the committee on the report and in general. That reflects a common interest to secure a quality process, good early engagement and quality legislation as a result. It is timely to reflect on our experience to date under the Government of Wales Act 2006, and to look forward, post-referendum, to the next Assembly, to ensure that we continue to improve and legislate effectively. I followed the evidence taken by the committee with interest and noted the emerging themes, and I have been pleased to accept, or accept in

yn y pedwerydd Cynulliad.

Edrychaf ymlaen at gyfraniad y Cwnsler Cyffredinol i ddadl heddiw. Rwyf yn falch iawn bod y Llywodraeth wedi derbyn neu wedi cytuno i ystyried y rhan fwyaf o'n hargymhellion. Rwy'n gobeithio y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn mynd i'r afael â'r mater a gododd mewn perthynas â nifer o Fesurau arfaethedig, yn fwyaf diweddar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru), lle cafodd gwelliannau sy'n effeithio ar sylwedd Mesur arfaethedig eu gwneud yn gymharol hwyr yn ei ystyriaeth.

I grynhoi, rydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth yn cymryd camau i sicrhau bod Mesurau yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanion polisi clir na ellir eu cyflawni ond drwy ddeddfwriaeth, yn cynnwys cymaint o fanylion ag y bo modd ar wyneb Mesurau yn hytrach nag mewn is-ddeddfwriaeth, yn defnyddio gweithdrefnau ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n sicrhau craffu priodol ym mhob achos, ac yn cael eu hegluro'n llawn mewn Saesneg plaen a Chymraeg clir.

Yn olaf, diolch i'r rheini a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, aelodau'r pwyllgor, y staff clericio, y cyfreithwyr a thîm ymchwil yr Aelodau sydd i gyd wedi gwneud gwaith ardderchog dros y pedair blynedd diwethaf o ran cefnogi'r pwyllgor mor fedrus ac a helpodd i lunio ein hadroddiad.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths):

Diolch i chi, Janet, am y cyfraniad agoriadol cadarnhaol hwnnw fel cadeirydd y pwyllgor. Mae llawer iawn o dir cyffredin rhwng fy natganiad llafar a'r ddadl a gawsom arno, yr adroddiad pwyllgor hwn, fy ymwneud â'r pwyllgor ar yr adroddiad ac yn gyffredinol. Mae hynny'n adlewyrchu awydd cyffredin i sicrhau proses o ansawdd, ymgysylltu cynnar da a deddfwriaeth o safon o ganlyniad. Mae'n adeg da i edrych yn ôl ar ein profiad hyd yma o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac i edrych ymlaen, ar ôl y refferendwm, at y Cynulliad nesaf, i sicrhau ein bod yn parhau i wella a deddfu'n effeithiol. Dilynais y dystiolaeth a gymerwyd gan y pwyllgor gyda diddordeb a nodais y themâu a ddaeth i'r amlwg, a bîm yn falch o dderbyn, neu

principle, all of the recommendations of the committee directed to the Assembly Government.

Dirprwy Lywydd, I will listen carefully to the debate and look forward to responding later. Therefore, I will draw my remarks at this juncture to a close.

William Graham: I endorse the remarks made by the Chair of the committee, particularly in thanking so many of the staff. On behalf of the other members of the committee, I express our gratitude to the Counsel General for engaging so willingly, not only in the reports that he makes to us, but also in the way in which he has taken on board many of the remarks that we have made—hopefully, in a constructive spirit. It is worth reading some of the remarks made to us. Daniel Greenberg, a distinguished and learned commentator on legal matters and a former Parliamentary draftsman, said that traditional rules serve together to illustrate the only useful rule of legislative drafting, namely that there are no useful rules of legislative drafting, the only correct approach being to consider what is best for clarity of the law or the convenience of the reader on each occasion.

5.15 p.m.

I am sure that we would all agree that that is a lofty ambition. The report also includes some of the comments from those who were good enough to provide evidence to the committee. One comment that was made on many occasions—I have here statements by the National Farmers Union Cymru and the Association of Chief Police Officers—was on the need to ensure, as far as possible, that witnesses have adequate time for internal consultation processes prior to making a response. I know that we would all thoroughly endorse that. Interesting comments were also made by the Wales Governance Centre, which said that the delegation of law-making functions to Welsh Ministers makes it extremely difficult for Assembly Members, committees, and the outsiders trying to provide evidence to committees, to scrutinise proposed Measures adequately. I note also what is not an implied criticism, but a strong remark, that the

dderbyn mewn egwyddor, holl argymhellion y pwyllgor a gyfeiriwyd at Lywodraeth y Cynulliad.

Ddirprwy Lywydd, byddaf yn gwrando'n astud ar y ddafl ac edrychaf ymlaen at ymateb yn ddiweddarach. Felly, dof i ben ar hynny am y tro.

William Graham: Atefaff y sylwadau a wnaed gan gadeirydd y pwyllgor, yn enwedig o ran diolch i gynifer o'r staff. Ar ran aelodau eraill y pwyllgor, diolch i'r Cwnsler Cyffredinol am fod mor barod i ymgysylltu, nid yn unig yn yr adroddiadau y mae'n eu rhoi i ni, ond hefyd yn y ffordd y mae wedi ystyried llawer o'r sylwadau a wnaethom—mewn ysbryd adeiladol, gobeithio. Mae'n werth darllen rhai o'r sylwadau a wnaed i ni. Dywedodd Daniel Greenberg, sylwebydd amlwg a dysgedig ar faterion cyfreithiol a chyn ddrafftiwr Seneddol, bod rheolau traddodiadol gyda'i gilydd yn dangos mai unig reol defnyddiol drafftio deddfwriaeth oedd nad oes unrhyw reol defnyddiol i ddrafftio deddfwriaeth, ac mai'r unig ffordd gywir yw ystyried beth sydd orau i eglurder y gyfraith neu hwylustod y darllenydd ar bob achlysur.

Rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno bod honno'n uchelgais aruchel. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys ambell i sylw gan y rhai a fu cystal â rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor. Un sylw a wnaethpwyd ar sawl achlysur—mae gennyf ddatganiadau yma gan Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr Cymru a chan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu—oedd yr angen i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod tystion yn cael digon o amser i gael prosesau ymgynghori mewnol cyn llunio ymateb. Gwn y byddem i gyd yn llwyr ategu hynny. Cafodd sylwadau diddorol eu gwneud hefyd gan Ganolfan Llywodraethu Cymru, a ddywedodd fod dirprwyo swyddogaethau deddfu i Weinidogion Cymru yn ei gwneud yn hynod anodd i Aelodau'r Cynulliad, y pwyllgorau, a'r rhai o'r tu allan sy'n ceisio rhoi tystiolaeth i bwyllgorau, graffu ar Fesurau arfaethedig yn ddigonol. Nodaf hefyd yr hyn nad yw yn feirniadaeth o dan yr wyneb, eithr sylw cryf nad oedd y Pwyllgor

Finance Committee was not able to do its work properly because it lacked information and assessments were not carried out properly by the Government. I trust that the Counsel General will bear that in mind for the future.

Turning to other remarks within this cogent report, I note those by Lord Justice Thomas in his St David's Day lecture last year. He said that

'there is...little reason for maintaining the distinction between primary and secondary legislation in a scheme of devolution for a small country such as Wales overlain with complex governance structures at a United Kingdom and EU level.'

I am also thinking of Oliver Cromwell's remarks that it was his intention to reduce the laws of England, as he put it, to the thickness of a pocketbook. That has yet to be achieved.

Clarity is about making it as easy as possible to understand what is being said, and it is the means by which drafts can be made effective. As the Chair has said, our legislation should be in plain English and in plain Welsh. Unlike in English, there is no precedent in Welsh for a legislative language register. However, that has now been developed, and it continues to be developed. Legislation is a relatively new domain for the Welsh language, and much of the content of legislation is technical in nature. As a result, some of the phrases and terms that are used may be unfamiliar to some Welsh speakers, and that is inevitable.

I thank the members of staff who have contributed to the success of the Constitutional Affairs Committee, particularly for the comments on legal matters that are given every week—we meet every week. The advice that is given is always cogent, reliable and intelligible, and those remarks are then marshalled effectively by the secretariat. I noted last week that we were dealing with hundreds of pages, which I am sure that we all read diligently before coming to the committee, and that shows the good work that is done by our secretariat.

Cyllid yn gallu gwneud ei waith yn iawn oherwydd diffyg gwybodaeth ac nid oedd y Llywodraeth wedi cynnal asesïadau'n briodol. Hyderaf y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn cadw hynny mewn cof ar gyfer y dyfodol.

Gan droi at sylwadau eraill yn yr adroddiad argyhoeddiadol hwn, nodaf rai'r Arglwydd Ustus Thomas yn ei ddarlith Dydd Gŵyl Dewi'r llynedd. Dywedodd

nad oedd fawr o reswm...dros gynnal y gwahaniaeth rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth dan gynllun datganoli i wlad fechan megis Cymru sydd â strwythurau llywodraethu cymhleth uwch ei phen ar lefel y Deyrnas Unedig a'r UE.

Rwyf hefyd yn meddwl am sylwadau Oliver Cromwell ynghylch ei fwriad i leihau cyfraith Loegr i drwch llyfr poced. Mae hynny eto i'w gyflawni.

Mae a wnelo eglurder â'i gwneud hi mor hawdd â phosibl i ddeall yr hyn a ddywedir, a'r modd o wneud drafftiau yn effeithiol ydyw. Fel y dywedodd y Cadeirydd, dylai ein deddfwriaeth fod mewn Saesneg croyw ac mewn Cymraeg croyw. Yn wahanol i'r Saesneg, nid oes cysail yn y Gymraeg ar gyfer cywair iaith ddeddfwriaethol. Fodd bynnag, mae hwnnw bellach wedi cael ei ddatblygu, ac mae hynny'n parhau. Tir cymharol newydd i'r Gymraeg yw deddfwriaeth, a thechnegol yw natur llawer o gynnwys deddfwriaeth. O ganlyniad, efallai y bydd rhai o'r ymadroddion a'r termau a ddefnyddir yn anghyfarwydd i rai siaradwyr Cymraeg, ac mae hynny'n anochel.

Diolchaf i'r aelodau staff sydd wedi cyfrannu at lwyddiant y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, yn enwedig am y sylwadau ar faterion cyfreithiol a roddir bob wythnos—rydym yn cyfarfod bob wythnos. Mae'r cyngor a roddir bob amser yn gymhellol, yn ddibynadwy ac yn ddealladwy, ac fe drefnir y sylwadau hynny yn effeithiol wedyn gan yr ysgrifenyddiaeth. Nodais yr wythnos diwethaf inni ddelio â channoedd o dudalennau, ac rwyf yn sicr inni i gyd eu darllen yn ddiwyd cyn dod i'r pwyllgor, ac mae hynny'n dangos y gwaith da y mae'r ysgrifenyddiaeth yn ei wneud.

I have some slight, muted criticism to make of members of the committee, on behalf of the weaker brethren. All of the questions to be asked in most committee meetings are numbered and have Members' initials placed next to them. Therefore, it is a little worrying for people such as me when other Members choose to ask those questions before we get the chance to do so. That does mean, however, that those questions that have been printed out beforehand are not always those that are asked, which helps to increase the scrutiny of the distinguished members of our Government who come before us regularly.

I also thank the Members' research service for the fact that their questions are so well framed and intelligible to us all. Finally, I thank our Chair, Janet, who is leaving us for other service, for her unfailing courtesy as a chairman, and for the way in which she has established the committee as one informative to Government, the opposition and to Wales as a whole.

Alun Davies: I, too, pay tribute to Janet and Dai, who chaired the committee during this third Assembly, and to the committee secretariat, which has supported us in all our work over the past four years. Clearly, the committee's role has changed considerably since the first and second Assemblies, and it has dealt with an increased workload as a consequence. It is a tribute to the staff and the Chair of the committee that we have been able to conclude our work in the way that we have.

The issues that I would like to raise were addressed by the Counsel General in his statement last week and his contribution this afternoon. Rhodri Morgan and I were in a meeting discussing the 'yes' campaign when the report was brought up, and I do not think that either of us recognised the description of the report and its conclusions. One of the things that I enjoyed in taking evidence for this report, and something that we need to emphasise with regard to its recommendations and conclusions, is that it is generally very positive. The Assembly has accrued new powers that did not exist prior to

Mae gennyf feirniadaeth fach dawel i'w gwneud o aelodau'r pwyllgor, ar ran y rhai gwannach ohonom. Caiff pob un o'r cwestiynau sydd i'w gofyn yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgor rif ac fe roddir blaenlythrennau Aelod wrtho. Felly, testun pryder braidd i bobl fel fi yw i Aelodau eraill ddewis gofyn y cwestiynau hynny cyn inni gael y cyfle i wneud. Golyga hynny, fodd bynnag, nad y cwestiynau sydd wedi cael eu hargraffu ymlaen llaw bob amser yr un â'r rhai a ofynnir, sy'n helpu i ddwysau'r craffu ar yr aelodau nodedig hynny o ein Llywodraeth sy'n dod ger ein bron yn rheolaidd.

Rwyf hefyd yn diolch i wasanaeth ymchwil yr Aelodau am y ffaith bod eu cwestiynau yn cael eu llunio mor dda a'u bod yn ddealladwy i ni i gyd. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n Cadeirydd, Janet, sy'n ein gadael am wasanaeth eraill, am ei chwarteisi di-ffael fel cadeirydd, ac am y ffordd y mae hi wedi sefydlu'r pwyllgor fel un llawn gwybodaeth i'r Llywodraeth, y gwrthbleidiau ac i Gymru gyfan.

Alun Davies: Yr wyf innau'n talu teyrnged i Janet a Dai, a gadeiriodd y pwyllgor yn ystod y trydydd Cynulliad hwn, ac i ysgrifenyddiaeth y pwyllgor, sydd wedi ein cefnogi yn ein holl waith yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Yn amlwg, mae rôl y pwyllgor wedi newid yn sylweddol ers y Cynulliad cyntaf a'r ail, ac mae wedi delio â llwyth gwaith mwy o ganlyniad. Mae'n deyrnged i staff a Chadeirydd y pwyllgor ein bod wedi gallu cwblhau ein gwaith fel y gwnaethom.

Cafodd y materion yr hoffwn i eu codi sylw gan y Cwnsler Cyffredinol yn ei ddatganiad yr wythnos diwethaf, ac yn ei gyfraniad y prynhawn yma. Roedd Rhodri Morgan a minnau mewn cyfarfod yn trafod yr ymgyrch 'ie' pan gafodd mater yr adroddiad ei godi, ac nid wyf yn credu i'r naill neu'r llall ohonom adnabod y disgrifiad o'r adroddiad a'i gasgliadau. Un o'r pethau a fwynheais wrth dderbyn tystiolaeth i'r adroddiad hwn, ac rhywbeth y mae angen inni ei bwysleisio o ran ei argymhellion a'i gasgliadau, yw ei fod ar y cyfan yn gadarnhaol iawn. Mae'r Cynulliad wedi cronni pwerau newydd nad

the 2007 election. It has dealt with those new powers and has grown and used them effectively. This report very much states that. It states that there are things that the Assembly and Government can do differently and better, but it also states that the use of primary legislative powers over the past four years has been good and the scrutiny of the use of those powers has been good. That forms the basis for the work that we will undertake following the successful referendum held earlier this month.

I would like to make two substantive points in this contribution. First, there is the requirement to differentiate between the development of legislation and the development of policy. Our most recent investigation, concerning the Proposed Local Government (Wales) Measure, illustrated, perhaps more strongly than the investigation that we did in compiling this report, that, quite often, there is a muddle in Government, with legislation and policy being developed at the same time. As a consequence, the Assembly's ability to scrutinise is limited and constrained. In your statement last week, Counsel General, you said that the Government would introduce a system of White Papers and Green Papers. I hope that you can give us a commitment this afternoon that that will happen, because I believe that it is essential, if this body is to scrutinise legislation adequately, that we have a clear idea of the policy objective before the legislation is written. The position that we have found ourselves in since Christmas with regard to the development of local government policy has been extraordinarily difficult. It should never have happened and we have to put in place structures to ensure that it does not happen again.

The second substantive point is about the balance between what is included on the face of primary legislation and what is addressed in subordinate legislation. We have addressed this matter over the past four years. It is sometimes a necessary and positive tension between a legislature and a Government where the Government clearly needs the freedom to make regulations that will help to implement primary legislation and to ensure

oedd yn bodoli cyn etholiad 2007. Mae wedi delio â'r pwerau newydd hynny, gan eu hehangu a'u defnyddio yn effeithiol. Dywed yr adroddiad hynny yn gryf. Mae'n datgan bod pethau y gall y Cynulliad a'r Llywodraeth eu gwneud yn wahanol ac yn well, ond mae hefyd yn datgan bod y defnydd o bwerau deddfu sylfaenol dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn dda a bod y craffu ar y defnydd o'r pwerau hynny wedi bod yn dda. Mae hynny'n sail i'r gwaith y byddwn yn ymgymryd ag ef yn sgîl y refferendwm llwyddiannus a gynhaliwyd yn gynharach y mis hwn.

Hoffwn wneud dau bwynt o sylwedd yn y cyfraniad hwn. Yn gyntaf, mae gofyn gwahaniaethu rhwng datblygu deddfwriaeth a datblygu polisi. Eglurodd ein hymchwiliad diweddaraf, sy'n ymwneud â'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru), efallai yn gryfach na'r ymchwiliad a wnaethom wrth lunio'r adroddiad hwn fod dryswch yn eithaf aml yn y Llywodraeth, gyda deddfwriaeth a pholisi yn cael eu datblygu yr un pryd. O'r herwydd, cyfyngir ar allu'r Cynulliad i graffu. Yn eich datganiad yr wythnos diwethaf, Gwnsler Cyffredinol, dywedasoeh y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno system o Bapurau Gwyn a Phapurau Gwyrdd. Gobeithiaf y gallwch roi ymrwymiad inni'r prynhawn yma y bydd hynny'n digwydd, oherwydd yr wyf yn credu ei bod yn hanfodol, os yw'r corff hwn i graffu ar ddeddfwriaeth yn ddigonol, fod gennym syniad clir o'r amcan polisi cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei hysgrifennu. Mae'r sefyllfa yr ydym yn cael ein hunain ynnddi ers y Nadolig o ran datblygu polisi llywodraeth leol wedi bod yn hynod anodd. Ni ddylai fod wedi digwydd; rhaid inni roi strwythurau ar waith i sicrhau nad yw'n digwydd eto.

Mae'r ail bwynt sylweddol yn ymwneud â'r cydbwysedd rhwng yr hyn a gynhwysir ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r hyn yr eir i'r afael ag ef mewn is-ddeddfwriaeth. Rydym wedi mynd i'r afael â'r mater hwn dros y pedair blynedd diwethaf. Weithiau, mae'n densiwn angenrheidiol a chadarnhaol rhwng deddfwriaeth a Llywodraeth lle mae'n amlwg mae angen rhyddid ar y Llywodraeth i wneud rheoliadau a fydd yn helpu i

that that legislation is of enduring value, so that it is not required to return to the legislature to seek amendments to primary legislation week after week, month after month. There needs to be an element of flexibility on the face of any primary legislation. However, one of the primary purposes of devolution and of having primary legislative powers in the Assembly is to allow us to scrutinise in detail legislation that has been tailored specifically to the needs of Wales. That means that we must have legislation that is sometimes quite detailed, always appropriate to what is required here, and that will permit effective scrutiny. The Government has sometimes not brought forward legislation that is sufficiently detailed to allow us that level of scrutiny.

I will bring my remarks to close now, because I think that the points about explanatory memoranda and regulatory impact assessments have been made strongly in the report and they have also been made by other Members this afternoon.

Kirsty Williams: I pay tribute to the work of Janet Ryder in chairing the committee. The departure of Mike German to the House of Lords necessitated a reshuffle among the Liberal Democrat spokespersons, and it was with some trepidation that I found no alternative but to place myself on the Constitutional Affairs Committee. I have enjoyed looking at this work immensely; it has been incredibly interesting to scrutinise the way in which we have undertaken our legislative function here over the past three years, to test and challenge it, and to come up with what I believe are ways in which we can genuinely make the procedure better, as detailed in the report. I am therefore really glad that I had the opportunity to serve on this committee.

Some of the other stuff, such as the intricacies relating to some of the more obscure pieces of subordinate legislation that come before us, is perhaps not quite as interesting. However, the issue of how we can get our legislative procedures right has been absolutely fascinating. I would like to concentrate on a number of points that I believe would make this process better for the Government, in terms of challenging its

weithredu deddfwriaeth sylfaenol a sicrhau bod y ddeddfwriaeth o werth parhaol, fel na fydd gofyn iddi ddychwelyd i'r ddeddfwrfa i geisio gwelliannau i ddeddfwriaeth sylfaenol wythnos ar ôl wythnos, fis ar ôl mis. Mae angen elfen o hyblygrwydd ar wyneb unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol. Er hynny, un o brif ddibenion datganoli a chael pwerau deddfu sylfaenol yn y Cynulliad yw caniatáu inni graffu yn fanwl ar ddeddfwriaeth sydd wedi ei theilwra'n benodol at anghenion Cymru. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid wrth ddeddfwriaeth sydd weithiau yn eithaf manwl, sydd bob amser yn briodol i'r hyn sydd ei angen yma, ac y bydd yn caniatáu craffu effeithiol. Mae'r Llywodraeth weithiau heb gyflwyno deddfwriaeth ddigon manwl i ganiatáu i ni graffu i'r lefel honno.

Dof â'm sylwadau i'w terfyn yn awr, oherwydd credaf fod y pwyntiau am femoranda esboniadol ac asesiadau effaith reoleiddiol wedi cael eu gwneud yn gryf yn yr adroddiad ac maent hefyd wedi cael eu gwneud gan Aelodau eraill y prynhawn yma.

Kirsty Williams: Hoffwn dalu teyrnged i waith Janet Ryder yn cadeirio'r pwyllgor. Golygai ymadawiad Mike German i Dŷ'r Arglwyddi ad-drefnu ymysg llefarwyr y Democratiaid Rhyddfrydol, a chefais â pheth anesmwythder nad oedd gennyf ddewis arall ond rhoi fy hun ar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol. Rwyf wedi mwynhau edrych ar y gwaith hwn yn arw; mae wedi bod yn hynod ddiddorol i graffu ar y ffordd yr ydym wedi ymgymryd â'n swyddogaeth ddeddfwriaethol yma dros y tair blynedd diwethaf, i'w phrofi a'i herio, ac i ddod o hyd i'r hyn yr wyf yn credu yw ffyrdd y gallwn wella o ddifrif y weithdrefn, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Yr wyf felly yn falch iawn fy mod wedi cael y cyfle i fod ar y pwyllgor hwn.

Efallai nad yw rhai o'r pethau eraill, megis y cymhlethodau sy'n gysylltiedig â rhai o'r darnau mwy aneglur o is-ddeddfwriaeth sy'n dod gerbron, mor ddiddorol. Fodd bynnag, mae'r mater o sut rydym yn cael ein gweithdrefnau deddfwriaethol yn iawn wedi bod yn gwbl gyfareddol. Hoffwn ganolbwyntio ar nifer o bwyntiau yr wyf yn credu y byddent yn gwneud y broses hon yn well i'r Llywodraeth, o ran herio ei

own procedures, better for scrutiny, in terms of allowing the National Assembly to scrutinise the Government, and that would make the legislative process more open to the public, who have to live with the consequences of the legislation that the Government comes up with. That is, wherever possible, we should be able to publish the guidance, approaches and tests that the Government itself uses in deciding on how it drafts legislation.

We are all far too aware of the controversy and angst caused by the Government amendments tabled late in the day to the Proposed Local Government (Wales) Measure. As a result, I strongly believe that it is necessary for the Government to publish a set of rules and tests similar to, although not necessarily the same as, those issued by the Cabinet Office in London to explain under what circumstances amendments of that nature should be accepted very late in the process. Sometimes, there are very good technical reasons as to why an amendment might need to be brought forward by the Government, such as to correct a mistake in the original drafting. Amendments may be brought forward because of a sense of urgency relating to a situation that has developed during the legislative process that requires a response. It may be that the Government wants to give way on a point that has been raised during the scrutiny of the legislation. There should be reasons for amendments, and the Government should test its amendments against those reasons before they are allowed to proceed. We should have a similar system in Wales to that in Westminster, whereby the Government would test the applicability and reasonableness of its amendments in that way.

I also believe that the scrutiny process and understanding would be improved if the Government were to go some way towards publishing the approach that it uses to decide on the legislative procedure to be used for subordinate legislation at a later date: that is, the negative procedure, the affirmative procedure or the superaffirmative procedure. There does not seem to be much rhyme or reason to how the Government currently

gweithdrefnau ei hun, yn well o ran craffu, drwy ganiatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar y Llywodraeth, a byddai hynny'n gwneud y broses ddeddfwriaethol yn fwy agored i'r cyhoedd, sy'n gorfod byw gyda chanlyniadau y ddeddfwriaeth y mae'r Llywodraeth yn ei dyfeisio. Hynny yw, lle bo modd, dylem fod yn gallu cyhoeddi'r canllawiau, y dulliau a'r profion y mae'r Llywodraeth ei hun yn eu defnyddio wrth benderfynu sut y bydd yn drafftio deddfwriaeth.

Rydym i gyd yn rhy ymwybodol o lawer o'r dadlau a'r ing a achosir gan welliannau'r Llywodraeth a gyflwynwyd yn hwyr i'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru). O ganlyniad, credaf fod rhaid i'r Llywodraeth gyhoeddi set o reolau a phroffion tebyg i'r rhai a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn Llundain, er nad o reidrwydd yr un fath â hwy, i egluro o dan ba amgylchiadau y dylid derbyn gwelliannau o'r fath mor hwyr iawn yn y broses. Weithiau, mae rhesymau technegol da iawn dros angen y Llywodraeth i gyflwyno gwelliant, megis cywiro gwall yn y drafftio gwreiddiol. Gall fod gwelliannau yn cael eu cyflwyno oherwydd ymdeimlad o frys yn ymwneud â sefyllfa sydd wedi datblygu yn ystod y broses ddeddfwriaethol sy'n gofyn am ymateb. Gall fod y Llywodraeth am ildio ar bwynt a godwyd wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei chraffu. Dylai fod rhesymau dros welliannau, a dylai'r Llywodraeth brofi ei gwelliannau yn ôl y rhesymau hynny cyn y caniateir iddynt fwrw ymlaen. Dylai fod system debyg gennym yng Nghymru i'r hyn sydd yn San Steffan, gyda'r Llywodraeth yn profi cymhwysedd a rhesymoldeb ei gwelliannau yn y ffordd honno.

Rwyf hefyd yn credu y byddai'r broses graffu a'r ddealltwriaeth ohoni gael eu gwella pe bai'r Llywodraeth yn mynd peth o'r ffordd tuag at gyhoeddi'r dull y mae'n ei ddefnyddio i benderfynu pa weithdrefn ddeddfwriaethol i'w defnyddio ar gyfer is-ddeddfwriaethol yn ddiweddarach: hynny yw, y weithdrefn negyddol, y weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn uwchgadarnhaol. Mae'n ymddangos fel nad oes sail na sylwedd ar hyn

chooses the procedure to use. It is, at best, random. It is often difficult to find out from a Minister why a particular procedure has been chosen. We should have published guidance on the approach that the Government intends to use with regard to selecting those procedures.

I was disappointed with the Counsel General's response to these issues when he made his statement and appeared before the committee last week. He did not seem to be able to give a strong undertaking that he intended to recommend that that approach be taken forward by the next Government. I recognise that he might not be in a position to do that in the next Assembly, but a clear steer on this from this Counsel General to the next Counsel General would be very welcome indeed. I was therefore greatly encouraged by the response of the First Minister this week in the Committee for the Scrutiny of the First Minister when these questions were raised with him. He was much more positive and open to taking this approach. I welcome that very much, and I urge the Counsel General to read the transcript of that committee meeting to see what the First Minister had to say on these points. I would also urge him to leave his customary caution to one side, for once, and strike out and make a decision in this regard.

Rhodri Morgan: Yr wyf yn ystyried fy hun yn berson lwcus dros ben, gan fy mod i wedi cael cyfle i wasanaethau am ryw 15 mis fel aelod o'r pwyllgor hwn, o dan gadeiryddiaeth gadarn Janet Ryder ac yn ystod y cyfnod pan yr oedd yr adroddiad hwn yn cael ei baratoi. Credaf fod y system wleidyddol yng Nghymru wedi bod yn lwcus hefyd fod yr adroddiad wedi gweld golau dydd cyn y refferendwm a'r bleidlais 'ie'.

5.30 p.m.

I want to put forward an idea for the Business Committee to consider in changing business arrangements in the fourth Assembly. I believe that every First Minister, after completion of their period as First Minister, should serve on the Constitutional Affairs Committee for at least 12 months, in order to

o bryd i'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn dewis pa weithdrefn i'w defnyddio. Y mae, ar y gorau, ar hap. Mae'n aml yn anodd cael gwybod gan Weinidog pam y mae gweithdrefn benodol wedi cael ei dewis. Dylai fod gennym arweiniad cyhoeddedig ar ba ffordd y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei defnyddio i ddewis y gweithdrefnau hynny.

Siom imi oedd ymateb y Cwnsler Cyffredinol i'r materion hyn yn ei ddatganiad a'i ymddangosiad gerbron y pwyllgor yr wythnos diwethaf. Roedd petai nad oedd yn gallu rhoi ymrwymiad cryf ei fod yn bwriadu argymhell y dylai'r Llywodraeth nesaf fwrw ymlaen â'r dull hwnnw. Rwyf yn cydnabod efallai na fydd mewn sefyllfa i wneud hynny yn y Cynulliad nesaf, ond byddai cyfeiriad clir yn hyn o beth gan y Cwnsler Cyffredinol i'w olynydd yn cael ei groesawu'n fawr iawn. Felly, calondid mawr i mi oedd ymateb y Prif Weinidog yr wythnos hon yn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog pan godwyd y cwestiynau hyn gydag ef. Roedd yn llawer mwy cadarnhaol ac yn agored i ddilyn y llwybr hwn. Yr wyf yn croesawu hynny'n fawr iawn, ac yr wyf yn annog y Cwnsler Cyffredinol i ddarllen y trawsgrifiad o gyfarfod y pwyllgor i weld beth oedd gan y Prif Weinidog i'w ddweud ar y pwyntiau hyn. Byddwn hefyd yn ei annog i adael ei rybudd arferol o'r neilltu am unwaith a mynd amdani a gwneud penderfyniad yn hyn o beth.

Rhodri Morgan: I consider myself to be a very fortunate person, in that I have had the opportunity for some 15 months to serve as a member of this committee, under the firm chairmanship of Janet Ryder, and during the period in which this report was being prepared. I think that the political system in Wales has also been very fortunate that the report saw the light of day just before the referendum and the 'yes' vote.

Rwyf am gynnig syniad i'r Pwyllgor Busnes ei ystyried wrth newid trefniadau busnes yn y pedwerydd Cynulliad. Credaf y dylai pob Prif Weinidog, ar ôl cwblhau ei gyfnod fel Prif Weinidog, wasanaethu ar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol am o leiaf 12 mis, er mwyn gweld sut mae pethau'n edrych o

see how things look from the other end of the telescope. After all, the Assembly is unique. It is a transitional Assembly, in that we have been learning the game of becoming a legislature under the Government of Wales Act 2006 and under the tutelage, if you like, of Westminster through the LCO process. However, following the 'yes' vote, that tutelage will now cease. Therefore, as we are now beginning to construct Welsh law without that tutelage from Westminster, we can see whether we can maintain the standards that have been established. Experienced drafters of legislation like Daniel Greenberg, who came to visit the Assembly from London, have said that our drafting is as good as that in Westminster. It reminded me of an old black-and-white film with Bob Hope and Bing Crosby, *Road to Morocco*. During the sassy talking between the verses, Bing Crosby, after a little dance move, says something like 'we did it first', and then Bob Hope responds by saying 'yes, but we did it right'. The mother of Parliaments has been making legislation for 1,000 years or more, but we have not. We are coming along late in the game, so it is a challenge for us to say that, because we are not doing it first, we can learn from the experience of others and see whether we can do it right.

Therefore, what would 'doing it right' mean? It would mean avoiding some of the huge pitfalls. I recall the story that I was told—it is one of those stories that is too good to check—about Arthur Bottomley, the Minister for the army in the late 1970s, having to apologise to the House of Commons in a debate on an armed forces Bill for a clause that had been drafted in order to make homosexuality in the armed forces lawful. He apologised to the House and said that it had to be redrafted at the last minute because the actual effect of the clause in its draft form was not to make homosexuality in the armed forces lawful, but to make it compulsory. Therefore, they had to withdraw the clause. We want to avoid anything of that kind. I do not know whether that story is true—it is one of the great House of Commons stories and is too good to check, as they say. We do not want any situations like that.

ben arall y telesgop. Wedi'r cyfan, mae'r Cynulliad yn unigryw. Mae'n Gynulliad trawsnewidiol, am ein bod wedi bod yn dysgu'r gêm o ddod yn ddeddfwrfa o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac o dan warchodaeth, os mynnwch, San Steffan drwy'r broses LCO. Fodd bynnag, yn sgîl y bleidlais 'ie', bydd y warchodaeth yn awr yn dod i ben. Felly, gan ein bod yn awr yn dechrau adeiladu cyfraith Cymru heb warchodaeth San Steffan, cawn weld a allwn gynnal y safonau a sefydlwyd. Mae drafftwy profiadol fel Daniel Greenberg, a ddaeth i ymweld â'r Cynulliad o Lundain, wedi dweud bod ein drafftio cystal â drafftio San Steffan. Fe'm hatgoffodd o hen ffilm ddu a gwyn gyda Bob Hope a Bing Crosby, *Road to Morocco*. Yn ystod y siarad ewn rhwng y penillion, dyma Bing Crosby, ar ôl symudiad dawns bach, yn dweud rhywbeth fel, 'ni wnaeth hynny gyntaf', ac yna mae Bob Hope yn ymateb trwy ddweud, 'ie, ond ni wnaeth o'n iawn'. Mae mam yr oll Seneddau wedi bod yn llunio deddfwriaeth ers 1,000 o flynyddoedd neu'n hwy, ond nid ydym ni felly. Rydym yn cyrraedd yn hwyr yn y gêm, felly mae'n her i ni ddweud am nad ydym yn ei wneud gyntaf, gallwn ddysgu o brofiad eraill a gweld a allwn wneud pethau'n iawn.

Felly, beth fyddai 'ei wneud yn iawn' yn olygu? Byddai'n golygu osgoi rhai o'r peryglon enfawr. Cofiaf y stori a adroddwyd i mi—mae'n un o'r straeon hynny sy'n rhy dda i'w gwirio—am Arthur Bottomley, y Gweinidog dros y fyddin ar ddiwedd y 1970au, yn gorfod ymddiheuro i Dŷ'r Cyffredin mewn dadl ynghylch Mesur ar y lluoedd arfog am gymal gafodd ei ddrafftio i gyfreithloni cyfunrywiaeth yn y lluoedd arfog. Ymddiheurodd ef i'r Tŷ a dweud bod rhaid ailddrafftio'r cymal ar y funud olaf am nad gwneud cyfunrywiaeth yn y lluoedd arfog yn gyfreithlon fyddai effaith wirioneddol y cymal ar ei ffurf drafft, ond ei gwneud yn orfodol. Felly, roedd yn rhaid iddynt dynnu'r cymal yn ei ôl. Rydym yn awyddus i osgoi rhywbeth tebyg. Nid wyf yn gwybod a yw'r stori yn wir—mae'n un o straeon gwych Tŷ'r Cyffredin ac yn rhy dda i'w gwirio, ys dywedir. Nid ydym am weld sefyllfaedd tebyg.

On the issue of plain English, plain English is not always good legal English, and that is a major issue that you have to deal with. How do you use plain English—combined, in our case, with clear Welsh—and have legal certainty? It is an issue that we have to address if we can do it better—because we did not do it first, we came into it late in the game—to minimise the use of subordinate legislation. I support strongly what Kirsty has just said on guidance. That guidance is similar to Cabinet Office guidance—it does not have to copy Cabinet Office guidance but it does have to be something of that sort, so that we minimise the use of late Government amendments, such as those on the Welsh language Measure or the local government Measure, as they are too difficult to scrutinise late in the day.

On the issue of trying to ensure that we do not make legislation for the sake of legislation, it is the standard of the legislation, and not the number of Acts that we pass, that we should be looking at in the fourth Assembly. We should be looking to have effective White Papers—and Green Papers if necessary—and clear explanatory memoranda that do not simply repeat what is in the Bill. There is no point in that. You have to state its purpose.

Do we need consolidation of laws? There is quite a strong case for consolidatory laws, simply to make them useable—not just to lawyers, but to stakeholders, whether social workers on children's law, or medics on medical law. There is a case for a bit of a process of consolidation of all our laws, because in the end, as Daniel Greenberg said, there are many things wrong with laws because they need to be plain and clear. They are either going to ban something or they are going to make something compulsory. Sometimes they can have a different purpose. Consolidatory law is one purpose, but there are others.

We need to ask whether laws are clear, whether they are needed, whether they really impose duties, whether the sanctions are proportionate and whether there was proper

Ar y mater o Saesneg croyw, nid yw Saesneg croyw bob amser yn Saesneg da o ran y gyfraith, ac mae hynny'n fater o bwys y mae'n rhaid delio ag ef. Sut mae defnyddio Saesneg croyw—ar y cyd, yn ein hachos ni, â Chymraeg croyw—a chael sicrwydd cyfreithiol? Mae'n fater y mae'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef os gallwn ei wneud yn well—gan nad ni a'i gwnaeth gyntaf; daethom iddo yn hwyr yn y gêm—i leihau'r defnydd o is-ddeddfwriaeth. Rwy'n cefnogi'n gryf yr hyn y mae Kirsty newydd ei ddweud ynghylch canllawiau. Mae'r canllawiau hynny yn debyg i ganllawiau Swyddfa'r Cabinet—nid oes raid copïo canllawiau Swyddfa'r Cabinet, ond mae'n rhaid wrth rywbeth o'r fath, fel ein bod yn lleihau'r defnydd o welliannau Llywodraeth hwyr, fel y rheini ar y Mesur iaith Gymraeg neu'r Mesur llywodraeth leol, gan eu bod yn rhy anodd eu craffu mor hwyr yn y broses.

Ar y mater o geisio sicrhau nad ydym yn gwneud deddfwriaeth er ei mwyn ei hun, safon y ddeddfwriaeth, ac nid nifer y Deddfau yr ydym yn pasio, y dylem fod yn edrych arni yn y pedwerydd Cynulliad. Dylem fod yn ceisio cael Papurau Gwyn effeithiol—a Phapurau Gwyrdd os bydd rhaid—a memoranda esboniadol clir nad ydynt ond yn ailadrodd yr hyn sydd yn y Bil. Nid oes pwynt i hynny. Mae'n rhaid datgan ei bwrpas.

A oes angen cydgrynhoi cyfreithiau? Mae achos gweddol gryf ar gyfer cyfreithiau cydgrynhoi, yn syml i'w gwneud yn ddefnyddiol—nid yn unig i gyfreithwyr, ond i randdeiliaid, boed y rheini'n weithwyr cymdeithasol parthed cyfraith plant, neu feddygon parthed cyfraith feddygol. Mae achos dros ychydig o broses i gydgrynhoi ein holl ddeddfau, oherwydd yn y diwedd, fel y dywedodd Daniel Greenberg, mae llawer o'i le gyda deddfau gan fod rhaid iddynt fod yn blaen ac yn glir. Byddant naill ai'n gwahardd rhywbeth neu yn gwneud rhywbeth yn orfodol. Weithiau, gall fod diben gwahanol iddynt. Mae deddfwriaeth gydgrynhoi yn un diben, ond mae eraill.

Rhaid gofyn a yw'r cyfreithiau yn glir, pa un a oes eu hangen, a ydynt wir yn gosod dyletswyddau, a yw'r cosbau yn gymesur ac a oedd ymgynghori priodol. Credaf fod ein

consultation. I think that our record on consultation is pretty good, but in the end, after the law has been passed and when it is in use, the final test is whether it means that people still run to the courts because that law is not clear. If they do, then obviously the legislators have failed. If the legislators have succeeded, then people just use the law, they do not run to the courts trying to challenge the law because it is not clear. If we can avoid the courts, then the fourth Assembly or fifth Assembly will have done their job and I think that this report will help them to do it.

The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths): I thank everyone who took part in the debate for the positive nature of their responses. As I said earlier, thankfully, there is considerable common ground between the Welsh Assembly Government and the legislature as a whole with regard to these matters. I think that those who make up the next Assembly can go forward effectively in that spirit. The work of the committee has complemented the review that I undertook and there was a great deal of common ground between the two, which is why I have been very pleased to accept or accept in principle all of the committee's recommendations directed at the Government. As a Government, we have been very pleased to listen to the views of Assembly Members and those who gave evidence to the committee. I think that we all agree that this is an appropriate juncture at which to look at the lessons learned from our experience in this Assembly of the Government of Wales Act 2006.

As I said in my oral statement last week, we think that we will have some very important improvements for the next Assembly if we go forward in the spirit that has been evident here today. I think that we are agreed that we need early and effective engagement with all stakeholders in Wales through Green Papers and White Papers, as we have suggested, through draft Bills for consultation and, I think, through the four-year—or, in the case of the next Assembly, five-year—legislative programme. We want a five-year legislative programme, updated annually. That will allow time for the consultation that William

record am ymgynghori yn eithaf da, ond yn y diwedd, ar ôl i'r gyfraith gael ei phasio a'i bod ar waith, y prawf terfynol yw a yw'n golygu bod pobl yn dal i droi at y llysoedd am nad yw'r gyfraith honno yn glir. Os ydynt, yna mae'n amlwg bod y deddfwyr wedi methu. Os yw'r deddfwyr wedi llwyddo, mae pobl yn defnyddio'r gyfraith fel y mae, ac nid ydynt yn troi at y llysoedd i geisio herio'r gyfraith am nad yw'n glir. Os gallwn osgoi'r llysoedd, yna bydd y pedwerydd Cynulliad neu'r pumed wedi gwneud ei waith, ac yr wyf yn meddwl y bydd yr adroddiad hwn yn eu helpu i wneud hynny.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths): Diolch i bawb a gymerodd ran yn y ddadl am natur gadarnhaol eu hymatebion. Fel y dywedais yn gynharach, mae tir cyffredin sylweddol, diolch byth, rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r ddeddfwrfa yn gyffredinol o ran y materion hyn. Rwy'n credu y gall y rhai a fydd yn y Cynulliad nesaf fwrw ymlaen yn effeithiol yn yr ysbryd hwnnw. Mae gwaith y pwyllgor wedi ategu'r adolygiad a wneuthum, ac yr oedd llawer iawn o dir cyffredin rhwng y ddau, a dyna pam yr wyf wedi bod yn falch iawn o dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, holl argymhellion y pwyllgor a gyfeirir at y Llywodraeth. Fel Llywodraeth, yr ydym wedi bod yn falch iawn o wrando ar farn Aelodau'r Cynulliad a'r rhai a roes dystiolaeth i'r pwyllgor. Credaf ein bod i gyd yn cytuno bod hwn yn adeg briodol i ystyried y gwersi a ddysgwyd o'n profiad yn y Cynulliad hwn o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fel y dywedais yn fy natganiad llafar yr wythnos diwethaf, credwn y bydd gennym welliannau pwysig ar gyfer y Cynulliad nesaf os awn ymlaen yn yr ysbryd sydd wedi bod yn amlwg yma heddiw. Credaf inni gytuno bod angen ymgysylltu cynnar ac effeithiol â'r holl randdeiliaid yng Nghymru drwy Bapurau Gwyrdd a Phapurau Gwyn, fel yr ydym wedi awgrymu, drwy Ffiliau drafft ar gyfer ymgynghori ac, fe gredaf, drwy'r rhaglen ddeddfwriaethol bedair blynedd—pum mlynedd yn achos y Cynulliad nesaf. Rydym eisiau rhaglen ddeddfwriaethol bum mlynedd, i'w huwchraddio yn flynyddol.

rightly mentioned as being very important for external stakeholders.

I am very pleased to say that I am in favour of publishing guidance, as we have discussed. It is very important that we do that. We want guidance on the procedures to be adopted in certain circumstances for the scrutiny of subordinate legislation, guidance on the need to bring forward legislation and the factors considered in doing that, and it might also be important to expand the use of ministerial decision reports, which are currently published only in respect of subordinate legislation. I think that we could do that for primary legislation as well. That would signal the intention to legislate, again allowing for early consultation and the feeding in of views.

I am very happy to confirm for Alun Davies that we think that it is right to publish Green Papers and White Papers, as I have already mentioned. It is also right that we publish guidance on drafting. As Rhodri mentioned, there is a requirement for this to be done in plain English and clear Welsh. With regard to the guidance on the need to bring forward legislation and how we handle the work of our officials and Ministers in deciding whether to bring forward legislation and how it is done, I am very happy for that to deal with what should be on the face of legislation as opposed to what is dealt with in regulations and our approach to the need for late amendments and our criteria used for determining whether they are appropriate.

When I have mentioned explanatory memoranda and regulatory impact assessments previously, I have always been keen to accept the need for continuous improvement. Thankfully, I think that it is widely accepted that there has been an improvement as we have gone through this Assembly. However, we want to make the best practice exhibited so far the norm. That is what we will seek to do in embedding those improvements. I am very happy to give

Bydd hynny'n caniatáu amser i'r ymgynghoriad y soniodd William yn gywir amdano fel rhywbeth pwysig iawn i randdeiliaid allanol.

Rwyf yn falch iawn o ddweud fy mod o blaid cyhoeddi canllawiau, fel yr ydym wedi ei drafod. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud hynny. Rydym am gael arweiniad ar y gweithdrefnau i'w dilyn o dan amgylchiadau penodol ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth, arweiniad ar yr angen i gyflwyno deddfwriaeth a'r ffactorau i'w hystyried wrth wneud hynny, a gallai hefyd fod yn bwysig ehangu'r defnydd o adroddiadau ar benderfyniadau Gweinidogion, sy'n cael eu cyhoeddi mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth yn unig ar hyn o bryd. Credaf y gallem wneud hynny ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn ogystal. Byddai hynny'n arwydd o'r bwriad i ddeddfu, a fyddai eto yn caniatáu am ymgynghoriad cynnar a bwydo barnau i mewn.

Yr wyf yn falch o gadarnhau ar ran Alun Davies ein bod o'r farn ei bod yn iawn cyhoeddi Papurau Gwyrdd a Phapurau Gwyn, fel yr wyf wedi crybwyll eisoes. Mae hefyd yn iawn ein bod yn cyhoeddi canllawiau ar ddrafftio. Fel y soniodd Rhodri, mae gofyn i hyn gael ei wneud mewn Cymraeg croyw ac mewn Saesneg croyw. O ran y canllawiau ar yr angen i gyflwyno deddfwriaeth a sut rydym yn trafod gwaith ein swyddogion a Gweinidogion wrth benderfynu a ddylid cyflwyno deddfwriaeth a pha fodd y dylid gwneud hynny, yr wyf yn hapus iddo ymdrin â hyn a ddylai fod ar wyneb y ddeddfwriaeth yn hytrach na'r hyn yr ymdrinnir ag ef yn y rheoliadau a'n hymagwedd at yr angen am newidiadau hwyr a'n meini prawf sydd i'w defnyddio i benderfynu a ydynt yn briodol.

Wrth grybwyll memoranda esboniadol ac asesiadau effaith rheoleiddiol o'r blaen, rwyf bob amser wedi bod yn awyddus i dderbyn yr angen am welliant parhaus. Diolch byth, yr wyf yn meddwl iddi gael ei derbyn yn eang bod gwelliant wedi bod wrth inni fynd drwy'r Cynulliad hwn. Fodd bynnag, rydym am wneud yr arfer gorau a welwyd hyd yn hyn yn norm. Dyna'r hyn y byddwn yn ceisio ei wneud wrth ymgorffori'r gwelliannau hynny. Yr wyf yn hapus i roi ymrwymiad i geisio

a commitment to seek to continue that improvement, including with regard to the financial information, something that was highlighted by Members earlier.

It is very important to emphasise that it is for the next Assembly Government to take all of this forward. We have built a degree of consensus through the work of the committee, through my engagement on behalf of the Welsh Assembly Government with the committee, and through my oral statements and the questions and answers on those. Therefore, there is now on the record quite a degree of consensus on the best way forward and some important improvements that can be made.

It will be a matter for the next Assembly Government to decide how it takes those matters forward. However, whatever the composition of that Government, I am sure that the consensus that has been demonstrated in this Assembly will weigh heavily. I have made my oral statement and I have engaged with the committee; it is all on the Record. I will also produce a report on some of these matters and how I think they are best taken forward. It will be a strong guide for the next Assembly Government. Diolch yn fawr to everyone who has taken part, which has been an important contribution to signalling how we can go forward as a legislature post-referendum.

Janet Ryder: I thank everyone who has contributed to this positive debate. Other Members who have not sat on the committee have had a feel for the committee. It has been an absolute pleasure to chair this committee. It has been wonderful to see how we have dealt with some quite contentious issues, and how everyone has left party politics outside the door and has looked at the issue in hand. It is fundamental. If the Assembly cannot get its law-making process right, there will be major issues. Our committee report proves that many positive things are happening and that we are getting it right. There is still a lot to be done, as has been mentioned; a number of issues need to be dealt with. I was glad to hear the Counsel General saying that he will publish some of that guidance. We look forward to that.

parhau â'r gwelliant hwnnw, gan gynnwys o ran y wybodaeth ariannol, fel y'i hamlygwyd gan Aelodau yn gynharach.

Mae'n bwysig iawn pwysleisio mai mater i'r Llywodraeth nesaf yw mynd â hyn i gyd yn ei flaen. Rydym wedi adeiladu rhywfaint o gonsensws trwy waith y pwyllgor, trwy fy ymwneud â'r pwyllgor ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, a thrwy fy natganiadau llafar a'r cwestiynau a'r atebion yn eu cylch. Felly, mae ar glawr bellach eithaf consensws ar y ffordd orau ymlaen ac ar rai o'r gwelliannau pwysig y gellir eu gwneud.

Mater i Lywodraeth nesaf y Cynulliad fydd penderfynu sut mae mynd â'r materion hynny yn eu blaen. Er hynny, beth bynnag fo cyfansoddiad y Llywodraeth honno, yr wyf yn sicr y bydd y consensws a ddangoswyd yn y Cynulliad hwn o bwys mawr. Rwyf wedi gwneud fy natganiad llafar ac rwyf wedi ymgysylltu â'r pwyllgor; mae'r cyfan ar glawr. Byddaf hefyd yn cynhyrchu adroddiad ar rai o'r materion hyn a pha fodd y credaf yr eir â hwy ymlaen orau. Bydd yn ganllaw cryf i Lywodraeth nesaf y Cynulliad. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd rhan mewn rhywbeth sydd wedi bod yn gyfraniad pwysig tuag at ddangos sut y gallwn ni fwrw ymlaen fel deddfwrfa wedi'r refferendwm.

Janet Ryder: Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ddadl gadarnhaol hon. Mae Aelodau eraill nad ydynt wedi bod ar y pwyllgor wedi cael blas arno. Mae wedi bod yn bleser pur i gadeirio'r pwyllgor hwn. Mae wedi bod yn wych i weld y ffordd yr ydym wedi delio â rhai materion eithaf dadleuol, a sut mae pawb wedi gadael gwleidyddiaeth plaid y tu allan i'r drws ac edrych ar y mater dan sylw. Mae'n sylfaenol. Os na all y Cynulliad gael y broses ddeddfu'n iawn, bydd problemau mawr. Mae ein hadroddiad pwyllgor yn profi bod llawer o bethau cadarnhaol yn digwydd a'n bod yn gwneud pethau'n iawn. Mae llawer i'w wneud o hyd, fel y soniwyd; mae nifer o faterion y mae angen ymdrin â hwy. Roeddwn yn falch o glywed y Cwnsler Cyffredinol yn dweud y bydd yn cyhoeddi peth o'r arweiniad hwnnw. Rydym yn edrych ymlaen at hynny.

A number of people have mentioned the need to publish and to look at whether there is a need to have guidance—as there is in Westminster—for the Cabinet in terms of bringing forward late, substantial amendments and how they can be dealt with. It all links into the other issues that were raised about consultation. It is a matter of looking at how the people of Wales can be brought into the law-making process. The Assembly has succeeded incredibly well in its first 12 years in proving that it is an Assembly that is open, accessible and listens to people. It is close to people, which must come forward in the way that it now draws up its legislation. To do so, it must first make it easy for people to engage with that legislation; it must make it clear to them why they need to engage at that early stage instead of waiting until it is almost too late to engage with the process, while also making clear how that engagement can have an effect on the eventual outcome.

I thank the Counsel General, Kirsty and William for their comments. It is time for consultation. We have definitely made great strides in developing Welsh legislation. It has been incredible to see how, in the last four years, the committee has developed. Developing the Welsh-language side of legislation has been crucial. Westminster has never had to consider it before; therefore, this body has had to develop it from scratch, more or less. It is developing, but there is still a long way to go.

Alun touched on the changing role of the committee and commented on how everyone has worked together, which is true. I thank them very much for that. It is a positive report, and if the lessons are learned from it, it will stand the next Assembly, with its full law-making powers, in good stead.

I appreciate what Kirsty said about being unsure as to what to expect and how we have dealt with some strange pieces of legislation. Little mini jelly cups have often intrigued me, as has bottled mineral water. Since the many debates that we have had on what is included

Mae nifer o bobl wedi sôn am yr angen i gyhoeddi ac i ystyried a oes angen cael cyfarwyddyd—megis yn San Steffan—ar gyfer y Cabinet o ran cyflwyno newidiadau sylweddol yn hwyr ac fel y gellir eu trin. Mae'r cyfan yn ymwneud â'r materion eraill a godwyd ynglŷn ag ymgynghori. Mae'n fater o edrych ar sut y gellir dod â phobl Cymru i mewn i'r broses ddeddfu. Mae'r Cynulliad wedi llwyddo yn eithriadol o dda yn ei 12 mlynedd gyntaf i brofi ei fod yn Gynulliad agored a hygyrch sy'n gwrandao ar bobl. Mae'n agos at y bobl, ac mae'n rhaid i hynny ddod ar draws yn y ffordd y mae bellach yn llunio ei ddeddfwriaeth. I wneud hynny, rhaid iddo yn gyntaf ei gwneud yn hawdd i bobl ymhél â'r ddeddfwriaeth honno; rhaid ei gwneud yn glir iddynt pam y mae angen iddynt gymryd rhan yn gynnar yn broses yn hytrach nag aros hyd nes y mae bron yn rhy hwyr i ymgysylltu â hi, gan ei gwneud yn glir hefyd sut y gall ymgysylltu effeithio'r canlyniad yn y pen draw.

Diolch i'r Cwnsler Cyffredinol, i Kirsty ac i William am eu sylwadau. Mae'n amser ymgynghori. Rydym yn bendant wedi cymryd camau breision wrth ddatblygu deddfwriaeth Gymreig. Mae wedi bod yn anhygoel i weld sut mae'r pwyllgor wedi datblygu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Mae datblygu'r ochr Gymraeg i ddeddfwriaeth wedi bod yn hanfodol. Nid yw San Steffan erioed wedi gorfod ystyried hynny o'r blaen; felly, bu'n rhaid i'r sefydliad hwn ei datblygu o'r dechrau, fwy neu lai. Mae'n datblygu, ond mae pellter i fynd.

Soniodd Alun am rôl gyfnewidiol y pwyllgor a gwnaeth sylwadau ar y ffordd y mae pawb wedi gweithio gyda'i gilydd, sy'n wir. Diolchaf yn fawr iawn iddynt am hynny. Mae'n adroddiad cadarnhaol, ac os yw'r gwersi'n cael eu dysgu ohono, bydd y Cynulliad nesaf, gyda'i pwerau deddfu llawn, ar ei ennill.

Gwerthfawrogaf yr hyn a ddywedodd Kirsty am fod yn ansicr ynghylch beth i'w ddisgwyl a sut rydym wedi delio â darnau rhyfedd o ddeddfwriaeth. Mae'r cwpanau jeli pitw bach wedi cosi fy chwilfrydedd yn aml, fel y mae dŵr mwynol potel. Ers y dadleuon niferus

on the labels of bottled water, I have been intrigued to look.

gawsom ar yr hyn sydd i'w gynnwys ar labeli dŵr potel, mae wedi procio fy chwilfrydedd i edrych.

Many Members will see that Rhodri Morgan has been a great asset to the committee. Thank you, Rhodri, for your time and the way in which, with your jovial humour and your stories, you have kept the committee entertained. However, you have also made some crucial, clear and fundamental points, which you have underlined in a humorous way that has enabled everyone to take those points on board.

Bydd llawer o Aelodau yn gweld bod Rhodri Morgan wedi bod yn gaffaeliad mawr i'r pwyllgor. Diolch i chi, Rhodri, am eich amser a'r ffordd yr ydych, drwy'ch hiwmor llawen a'ch straeon, wedi diddanu'r pwyllgor. Fodd bynnag, yr ydych hefyd wedi gwneud pwyntiau hanfodol, clir a sylfaenol, a danlinellwyd gennych mewn ffordd ddoniol a alluogai pawb i ystyried y pwyntiau hynny.

To finish, I will thank everyone who has sat on the committee and, once again, I thank the staff who have supported us so ably. I hope that this committee report stands the next Assembly in good stead for its new law-making powers. Thank you very much.

I gloi, diolch i bawb sydd wedi bod ar y pwyllgor ac, unwaith eto, diolch i'r staff sydd wedi ein cefnogi mor fedrus. Gobeithio y bydd yr adroddiad pwyllgor hwn o fudd i'r Cynulliad nesaf o ran ei bwerau deddfu newydd. Diolch yn fawr iawn.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to note the Constitutional Affairs Committee report. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

5.45 p.m.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

'Gofal gydag Urddas?' 'Dignified Care?'

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendments 2, 3 and 4 in the name of Peter Black.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Peter Black.

Cynnig NDM4705 Nick Ramsay

Motion NDM4705 Nick Ramsay

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1. Yn nodi â chryn bryder adroddiad y Comisiynydd Pobl Hyn 'Gofal gydag Urddas' a gyhoeddwyd ar 14 Mawrth 2011 yn ymwneud â sut y caiff pobl hyn eu trin mewn ysbytai yng Nghymru;

1. Notes with great concern the report of the Older People's Commissioner 'Dignified Care' published on 14 March 2011 on the treatment of older people in Welsh hospitals;

2. *Yn gresynu wrth bob un enghraifft o sut y chwalwyd urddas, parch a phreifatrwydd pobl hyn pan oeddent yn sâl yn yr ysbyty;*

3. *Yn mynegi pryder difrifol am y materion sy'n deillio o safonau gwael o ran cyfathrebu, gofal ymataliaeth, arweinyddiaeth glinigol a gwybodaeth arbenigol mewn ysbytai acíwt a chymunedol.*

4. *Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod yr holl staff sy'n gofalu am bobl hyn yn cael lefelau priodol o wybodaeth a sgiliau drwy gyfrwng addysg a hyfforddiant parhaus.*

Nick Ramsay: I move the motion.

I am pleased to have the opportunity to open this debate, which we have tabled in the light of the 'Dignified Care?' report that was published by the Commissioner for Older People in Wales a couple of weeks ago. If any of you have not had a chance to look at this report, you should do so because it is probably one of the best reports that I have seen about the NHS and ways in which older people's care can be improved. We will also be supporting the Liberal Democrat amendments, but we will reject the Welsh Assembly Government's amendment 1. While I acknowledge that it is not wholly negative and that I agree with some of its sentiments, it weakens the motion and trivialises the content of this report.

The 'Dignified Care?' report is revealing, and, at times, harrowing. It has concentrated the minds of many who did not otherwise think about the quality of in-patient care for older people. I thank Ruth Marks, her office and many others for putting this subject at the top of the agenda where it belongs. It is important that these issues are spoken about.

The first part of the report discusses the ward environment and its impact on the dignity afforded to people in their day-to-day care. Many hospitals, particularly community hospitals, are not purpose-built to cater for the needs of older people, particularly patients with dementia. There are harrowing

2. *Deplores each of the examples of how older people have been stripped of their dignity, respect and privacy while sick in hospital;*

3. *Expresses grave concern at the issues arising from poor communication, poor continence care, clinical leadership and specialist knowledge in both acute and community hospitals;*

4. *Calls on the Assembly Government to ensure that all staff caring for older patients acquire appropriate levels of knowledge and skill through continuing education and training.*

Nick Ramsay: Cynigaf y cynnig.

Yr wyf yn falch o gael y cyfle i agor y ddadl hon, yr ydym wedi ei chyflwyno yng ngoleuni'r adroddiad 'Gofal Gydag Urddas?' a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru ychydig wythnosau yn ôl. Os nad oes unrhyw un ohonoch wedi cael cyfle i edrych ar yr adroddiad hwn, dylech wneud hynny am ei fod, mae'n siŵr, yn un o'r adroddiadau gorau a welais am y GIG a'r ffyrdd y gellid gwella gofal i bobl hŷn. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond byddwn yn gwrthod gwelliant 1 gan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er fy mod yn cydnabod nad yw'n gwbl negyddol ac fy mod yn cytuno â rhai o'i fwriadau, mae'n gwanhau'r cynnig ac yn bychanu cynnwys yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad 'Gofal Gydag Urddas?' yn datgelu llawer, ac, ar adegau, yn ddirdynnol. Mae wedi dod â'r pwnc i sylw llawer nad oeddent fel arall yn meddwl am ansawdd gofal cleifion mewnol i bobl hŷn. Diolch i Ruth Marks, ei swyddfa a sawl un arall am roi'r pwnc hwn ar frig yr agenda lle y dylai fod. Mae'n bwysig bod y materion hyn yn cael eu trafod.

Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn trafod amgylchedd y ward a'i effaith ar yr urddas a roddir i bobl yn eu gofal bob dydd. Nid yw llawer o ysbytai, yn enwedig ysbytai cymunedol, wedi eu hadeiladu yn benodol i ddarparu ar gyfer anghenion pobl hŷn, yn enwedig cleifion â demensia. Mae ystadegau

statistics in the report. References were made throughout the inquiry to the cramped conditions on wards, and the inconvenient location and inadequate availability of day room, bathroom and shower facilities.

Individual case studies are described in the report. One lady was given a bed with no chair or cabinet in a makeshift storage room, but due to a loss of speech was unable to communicate her distress to staff. A number of patients also commented that when they felt tired or unwell, the presence of a restless or distressed patient was unsettling. This highlights why ward facilities must be appropriate for different patient groups, including those with dementia. The second point of our motion deplures each example of how older people have been stripped of their dignity, respect and privacy.

I am aware that Ruth Marks finds it frustrating that a lot of the changes that need to be made in the light of this report are not too difficult to make. It is not rocket science. For instance, on the right to privacy, your doctor would not dream of speaking to you in the waiting room of a GP surgery about your medical status. He would not dream of discussing confidential aspects of your life in front of other people, but, too often, as identified in this report, when older people go into hospital, that is what is happening; people's problems are being discussed in front of other people. That may be due to issues of capacity or problems with not having adequate facilities, but that is not our concern. The concern is that this is happening, it should not be happening and that action needs to be taken to see that it does not.

I have mentioned the layout of wards. I look forward to hearing what the Minister for Health and Social Services has to say in response to the report and our comments. I would like her in particular to outline her intentions with regard to the refurbishment of existing hospital stock, although I am aware that an announcement was made today on the Llanfrechfa critical centre. Along with a mix of single rooms, the ideal solution would ultimately involve en suite bathrooms and toilet facilities. This would not entail a vast

dirdynnol yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd trwy gydol yr ymchwiliad at yr amodau cyfyng ar wardiau, y lleoliad anghyfleus ac argaeledd annigonol o'r ystafell ddydd, yr ystafell ymolchi a chyfleusterau cawod.

Disgrifir achosion unigol yn yr adroddiad. Roedd gwely i un wraig heb gadair na chabinet mewn ystafell storio dros dro, ond o ganlyniad i golli lleferydd, nid oedd hi'n gallu cyfleu ei gofid i staff. Soniodd nifer o gleifion hefyd am y ffaith, pan oeddent yn teimlo wedi blino neu'n sâl, bod presenoldeb claf aflonydd neu drallodus yn ofidus. Mae hyn yn amlygu pam y mae'n rhaid i gyfleusterau ward fod yn briodol ar gyfer grwpiau o gleifion gwahanol, gan gynnwys y rhai â demensia. Mae'r ail bwynt yn ein cynnig yn gresynu at bob enghraifft o sarnu urddas, parch a phreifatrwydd pobl hŷn.

Yr wyf yn ymwybodol bod Ruth Marks yn ei chael yn rhwystredig nad yw llawer o'r newidiadau sydd angen eu gwneud o ganlyniad i'r adroddiad hwn yn rhai rhy anodd i'w gwneud. Nid yw'n arbennig o gymhleth. Er enghraifft, o ran yr hawl i breifatrwydd, fyddai eich meddyg ddim yn breuddwydio trafod eich statws meddygol gyda chi yn ystafell aros y feddygfa. Ni fyddai'n breuddwydio trafod agweddau cyfrinachol eich bywyd o flaen pobl eraill, ond, yn rhy aml, fel mae'r adroddiad hwn yn ddweud, pan fydd pobl hŷn yn mynd i'r ysbyty, dyna beth sy'n digwydd; mae problemau pobl yn cael eu trafod o flaen pobl eraill. Gallai hynny fod o ganlyniad i problemau capasiti neu ddiffyg cyfleusterau digonol, ond nid dyna yw ein pryder. Y pryder yw bod hyn yn digwydd, ni ddylai fod yn digwydd a bod angen cymryd camau er mwyn iddo beidio digwydd.

Rwyf wedi sôn am gynllun y wardiau. Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w ddweud mewn ymateb i'r adroddiad a'n sylwadau. Hoffwn iddi yn benodol amlinellu ei bwriadau mewn perthynas ag adnewyddu'r stoc ysbyty presennol, er fy mod yn gwybod bod cyhoeddiad wedi'i wneud heddiw ynglŷn â chanolfan critigol Llanfrechfa. Ynghyd â chymysgedd o ystafelloedd sengl, yr ateb delfrydol yn y pen draw yw cynnwys

amount of additional work, nor would it drive the Welsh Assembly Government in a different direction to that which it is saying it is already going.

There are pressing problems that relate to interpersonal care and continence management. While the majority of people questioned said that they experienced no problems using their emergency buzzer, others identified problems, especially with regard to staff responding to buzzer calls. Problems ranged from a lack of buzzers, a lack of a prompt response and even instances where buzzers were placed out of people's reach. In some instances, the lack of responsiveness was attributed to a lack of concern, rightly or wrongly. In one instance—a small, but suggestive example—it took 30 minutes for an elderly gentleman to be brought a sick bowl after he requested it. However, by that time, he had already been sick and it was too late. I am not attacking or criticising the staff in these situations—they work hard and do the best that they can; what I am criticising is the lack of effective guidance and the lack of an adequate structure to support staff in our hospitals.

I have mentioned continence, and one of the most concerning issues in this report is the management of continence. It was subject to many negative comments throughout the report. Some visitors often found their relatives in a soiled state and would take on toileting duties themselves. Others witnessed falls as a result of a patient trying to reach a toilet unassisted in order to avoid being incontinent. Other responders found that some patients were purposely not drinking and depriving themselves of fluids in order to mitigate the possibility of being incontinent. Disgracefully, some people were told that the hospital did not have the facilities to wash soiled clothing and that patients' relatives were expected to take clothing home with them, sometimes on public transport. This is supposed to be twenty-first century Wales.

At all levels of nursing, staff must be trained. They must be prepared to deal with the issues

ystafelloedd ymolchi en suite a chyfleusterau toiled. Ni fyddai hyn yn golygu llawer iawn o waith ychwanegol, nac ychwaith yn cymell Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd ar drywydd gwahanol i'r hyn y mae'n dweud ei fod eisoes yn mynd.

Mae problemau dirfawr o ran gofal rhyngpersonol a rheoli ymataliaeth. Er bod y rhan fwyaf o bobl a holwyd wedi dweud nad oeddent wedi cael unrhyw broblem wrth ddefnyddio eu seinwyr argyfwng, dywedodd eraill eu bod, yn enwedig mewn perthynas â staff sy'n ymateb i alwadau seinydd. Yr oedd problemau yn amrywio o ddiffyg seinwyr, diffyg ymateb prydlon a hyd yn oed achosion lle roedd seinwyr allan o gyrraedd pobl. Mewn rhai achosion, priodolwyd y diffyg ymateb i ddiffyg consym, yn gam neu'n gymwys. Mewn un achos—enghraifft fach, ond awgrymog—cymerodd 30 munud i ddyn oedrannus gael ei bowlen chwydu ar ôl iddo ofyn amdani. Fodd bynnag, erbyn hynny, roedd eisoes wedi bod yn sâl ac roedd yn rhy hwyr. Nid wyf yn ymosod neu'n beirniadu'r staff yn y sefyllfaoedd hyn—maent yn gweithio'n galed ac yn gwneud eu gorau glas; yr hyn yr wyf yn ei feirniadu yw'r diffyg arweiniad effeithiol a'r diffyg strwythur digonol i gefnogi staff yn ein hysbytai.

Yr wyf wedi sôn am ymataliaeth, ac un o'r materion sy'n achosi'r pryder mwyaf yn yr adroddiad hwn yw rheoli ymataliaeth. Roedd yn destun llawer o sylwadau negyddol ar hyd yr adroddiad. Yr oedd rhai ymwelwyr yn aml yn canfod eu perthnasau mewn cyflwr budr ac yn ymgymryd â'r dyletswyddau toiled eu hunain. Gwelodd eraill glaf yn syrthio wrth geisio cyrraedd toiled heb gymorth er mwyn osgoi gwlychu ei hun. Darganfu ymatebwyr eraill fod rhai cleifion yn ymwrthod rhag yfed ac yn amddifadu eu hunain o hylifau er mwyn lleihau'r posibilrwydd o fod yn anymataliol. Mae'n gywilyddus bod rhai pobl yn dweud nad oedd gan yr ysbyty y chyfleusterau i olchi dillad budr a bod disgwyl i berthnasau cleifion fynd â'r dillad adref gyda nhw, weithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus. Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain yw hyn i fod.

Ar bob lefel nyrsio, rhaid i staff gael hyfforddiant. Rhaid iddynt fod yn barod i

of continence and cleanliness. Untimely assistance with toileting, avoidable incontinence and the inappropriate use of continence pads have been recurring features in the treatment of many older patients. Perhaps, in her response to this debate, the Minister will tell us what she is doing to address these shortcomings. The third point of our motion:

‘Expresses grave concern at the issues arising from poor communication, poor continence care, clinical leadership and specialist knowledge in both acute and community hospitals’.

Ward culture plays an important part in shaping and aiding an older person’s recovery at hospital. While progress has been made in the way that staff engage with patients, many older people commented that they had been spoken down to or even humiliated. In one case, a terminally ill patient who could not speak or use the toilet was mocked and belittled about her state of undress. Unfortunately, those were the last words that she heard before passing away.

It is worrying that some patients were provided with too little assistance during meal times. According to the relative of one patient, no account was taken of the fact that he was unable to see, had severely trembling hands and, as a result, was unable to pick up a container of water to drink if he had wanted to.

These issues are not easy to speak about. Too often, in the past, they have probably been swept under the carpet. It is understandable because once you appreciate the scale of some of these issues, you realise the difficulties involved in dealing with them, but this report gives us an opportunity as an Assembly to look afresh at how our hospitals are not dealing with people in the way that they should be. As I said, there were also good comments, and I do not want to paint a completely negative picture, but those good comments do not take away from the difficulties that are being experienced. We accept that resources are limited and that we need to act in accordance with the best

ddelio â materion ymataliaeth a glanweithdra. Mae cymorth annhymig i fynd i’r toiled, anymataliaeth y gellir ei osgoi a’r defnydd amhriodol o badiâu ymataliaeth wedi bod yn nodweddion rheolaidd wrth drin llawer o gleifion hŷn. Efallai, yn ei hymateb i’r ddadl hon, y bydd y Gweinidog yn dweud wrthym beth y mae’n ei wneud i fynd i’r afael â’r diffygion hyn. Mae trydydd pwynt ein cynnig:

‘Yn mynegi pryder difrifol o ran y materion sy’n codi o gyfathrebu gwael, gofal ymataliaeth gwael, arweinyddiaeth glinigol a gwybodaeth arbenigol mewn ysbytai aciwt a chymunedol’.

Mae diwylliant y ward yn chwarae rhan bwysig wrth lunio a chynorthwyo adferiad person hŷn yn yr ysbyty. Er bod cynnydd wedi ei wneud yn y ffordd y mae staff yn ymgysylltu â chleifion, dywedodd llawer o bobl hŷn fod pobl wedi siarad i lawr â nhw neu eu bychanu hyd yn oed. Mewn un achos, cafodd claf â salwch terfynol nad oedd yn gallu siarad neu ddefnyddio’r toiled ei gwawdio a’i bychanu am ei bod heb ei gwisgo’n iawn. Yn anffodus, dyna’r geiriau olaf iddi eu clywed cyn marw.

Mae’n destun gofid bod rhai cleifion yn cael cymorth annigonol yn ystod amser bwyd. Yn ôl perthynas un claf, ni ystyriwyd y ffaith nad oedd yn gallu gweld, bod ganddo ddwylo crynedig difrifol ac, o ganlyniad, nid oedd yn gallu codi cwpan o ddŵr i’w yfed pe bai wedi dymuno gwneud hynny.

Nid yw’r materion hyn yn rhai hawdd i siarad amdanynt. Yn rhy aml, yn y gorffennol, mae’n bur debyg iddynt gael eu hanwybyddu. Mae’n ddealladwy oherwydd unwaith y byddwch yn gwerthfawrogi pa mor fawr yw rhai o’r problemau hyn, byddwch yn sylweddoli yr anawsterau o ran delio â nhw, ond mae’r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i ni fel Cynulliad i edrych o’r newydd ar sut nad yw’n hysbytai yn delio â phobl yn y ffordd y dylent. Fel y dywedais, roedd hefyd sylwadau da, ac nid wyf am beintio darlun cwbl negyddol, ond nid yw’r sylwadau da hynny yn tynnu sylw oddi wrth yr anawsterau sy’n cael eu profi. Rydym yn derbyn bod adnoddau’n gyfyngedig a bod

clinical advice about the most appropriate use of scarce resources, but, at the end of the day, we are dealing with human beings and it is not right simply to carry out a tick-box exercise. Hence, we are calling on the Assembly Government

‘to ensure that all staff caring for older patients acquire appropriate levels of knowledge and skill through continuing education and training.’

There has been a movement toward specialism in other clinical circles and it has the potential to deliver significant improvements. There is no reason to doubt that dementia patients, for example, would not benefit in the same way.

It seems that we are nowhere near getting to grips with the serious impact that an ageing population will have over the next couple of decades. As we see people enjoying longer lives, we will undoubtedly face different health challenges. Many practical steps can be taken, but to make them effective, we need to appreciate and celebrate growing old instead of fearing it. Many people feel frustrated that they have paid their taxes, brought up families and saved all their lives, but still experience what they view as substandard care when they need it and when they are at their most vulnerable.

The contents of this report are, in some cases, truly shocking. If the measure of a civilised society is how we care for our older people, we should all be deeply concerned about the failings that have been identified by the older people’s commissioner. As I have said, some of these issues are not easy to talk about and some of them are not easy to put right, but we owe it to the people of Wales, our constituents and patients in hospital to do what we can to start putting them right. Minister, I know that you have many demands on your time, you receive many reports and you have much feedback from officers, but I urge you to do all that you can to respond to this report in the way that it should be responded to. Once again, I commend the older people’s commissioner for highlighting these concerns. These issues

angen i ni weithredu yn unol â’r cyngor clinigol gorau am y defnydd mwyaf priodol o adnoddau prin, ond, ar ddiwedd y dydd, rydym yn delio â bodau dynol ac nid yw’n iawn i gynnal ymarfer ticio blychau. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad

‘I sicrhau bod yr holl staff sy’n gofalu am gleifion hŷn yn caffael lefelau priodol o wybodaeth a sgiliau drwy addysg a hyfforddiant parhaus.’

Bu symudiad tuag at arbenigedd mewn cylchoedd clinigol eraill ac mae ganddo’r potensial i gyflawni gwelliannau sylweddol. Nid oes unrhyw reswm i amau bod cleifion demensia, er enghraifft, yn elwa yn yr un ffordd.

Mae’n ymddangos nad ydym nunlle’n agos at fynd i’r afael â’r effaith ddifrifol mae poblogaeth sy’n heneiddio yn ei gael dros yr ychydig ddegawdau nesaf. Wrth i ni weld pobl yn mwynhau bywydau hirach, yn bendant byddwn yn wynebu gwahanol sialensiau iechyd. Gellir cymryd nifer o gamau ymarferol, ond i’w gwneud yn effeithiol, mae angen i ni werthfawrogi a dathlu tyfu’n hen yn hytrach nag ofni hynny. Mae llawer o bobl yn teimlo’n rhwystredig eu bod wedi talu eu trethi, magu teuluoedd ac wedi cynilo gydol eu bywydau, ond yn dal i brofi yr hyn y maent yn ei weld fel gofal is na’r safon pan fyddant ei angen a phan fyddant ar eu mwyaf bregus.

Mae cynnwys yr adroddiad hwn, mewn rhai achosion, wir yn frawychus. Os mai mesur o gymdeithas wâr yw’r ffordd yr ydym yn gofalu am ein pobl hŷn, dylem i gyd fod yn pryderu’n fawr am y diffygion a nodwyd gan y comisiynydd pobl hŷn. Fel y dywedais, nid yw rhai o’r materion hyn yn hawdd i siarad amdanynt, ac nid yw rhai ohonynt yn hawdd i’w datrys, ond mae gennym ddyletswydd i bobl Cymru, ein hetholwyr a chleifion yn yr ysbyty i wneud yr hyn a allwn i ddechrau eu datrys. Weinidog, gwn bod llawer o alwadau ar eich amser, eich bod yn derbyn llawer o adroddiadau a bod gennych lawer o adborth gan swyddogion, ond yr wyf yn eich annog i wneud eich gorau glas i ymateb i’r adroddiad hwn yn y modd y dylid ymateb iddo. Unwaith eto, cymeradwyaf y comisiynydd pobl hŷn am dynnu sylw at y pryderon hyn.

have probably not been spoken about as they should have been for a long time. It is only by talking about these issues that we can put in place the effective policies that we would like to see to get to grips with and improve the situation.

Gwelliant 1 Jane Hutt

Dileu popeth ac yn ei le rhoi:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ‘Gofal gydag Urddas?’ yn ddefnyddiol wrth dynnu sylw at rai materion difrifol iawn mewn perthynas â’r gofal nyrsio a ddarperir mewn rhai sefydliadau;

2. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ymdrin â’r materion canlynol:

(a) cyfathrebu- drwy’r rhaglen Trawsnewid Gofal wrth Erchwyn y Gwely a mwy o hyfforddiant i staff;

(b) gofal ymataliaeth—drwy’r fenter Hanfodion Gofal;

(c) maetheg – drwy’r ‘Llwybr Gofal Maethol’ Cymru gyfan a siartiau bwyd a maeth;

(ch) arweinyddiaeth glinigol a gwybodaeth arbenigol—drwy’r rhaglen Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu;

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n ystyried adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ac y bydd yn ymateb erbyn y dyddiad cau ar 14 Mehefin.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I move amendment 1.

Gwelliant 2 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu’r defnydd a wneir o gyllidebau

Mae’r rhain yn faterion nad ydynt wedi cael eu trafod fel y dylent ers amser maith. Dim ond drwy siarad amdanynt y gallwn roi ar waith y polisiau effeithiol y byddem yn hoffi eu gweld i fynd i’r afael â’r sefyllfa, a’i gwella.

Amendment 1 Jane Hutt

Delete all and replace with:

To propose that the National Assembly for Wales :

1. Notes that the report of the Older People’s Commissioner ‘Dignified Care?’ is helpful in highlighting some very serious issues in respect of nursing care provided in some settings;

2. Recognises that the Welsh Assembly Government has already commenced work to address issues of :

a) communication—through the Transforming Care at the Bedside programme and more training for staff;

b) continence care—through the Fundamentals of Care initiative;

c) nutrition—through the all Wales ‘Nutritional Care Pathway’ and food and nutrition charts;

d) clinical leadership and specialist knowledge—through the Free to Lead, Free to Care programme;

3. Notes that the Welsh Assembly Government is considering the report of the Older People’s Commissioner and will be responding by the deadline of 14 June.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Cynigiau welliant 1.

Amendment 2 Peter Black

Add as a new point at end of motion:

Calls on the Welsh Assembly Government to increase the use of personalised budgets for

personol ar gyfer pobl sy'n cael gofal er mwyn eu galluogi i ddatblygu rhaglen o ofal sy'n fwy addas i'w hanghenion.

Gwelliant 3 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r bwlch gweithredu rhwng y nifer o orchmynion polisi, adroddiadau, mentrau ac ymgyrchoedd sydd wedi cael eu hanelu at wella gofal ac amddiffyn y rheini sydd fwyaf agored i niwed.

Gwelliant 4 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu i sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiad Gofal gydag Urddas yn cael eu gweithredu'n ddiymdroi.

Veronica German: I move amendments 2, 3 and 4.

I thank the Conservative group for bringing forward this important debate on a significant report that is a sad indictment of how we treat some of our most vulnerable citizens. I do not think that anybody in this Chamber would be happy about some of the situations that are portrayed in the report. I am, therefore, disappointed that the Government's amendment 1 fails to fully acknowledge the commissioner's findings. I thank Ruth Marks and her team for undertaking this investigation, writing the report and setting out a clear set of recommendations as a way forward for the future. It is particularly poignant to read first-hand accounts of the experiences of older people in hospitals, as well as those of their families and friends.

We have had a raft of initiatives and programmes from this and previous Governments aimed at ensuring that people are properly looked after. They are clearly not delivering; if they were, we would not be debating this report. As Nick pointed out, the situation is not all bad and that offers a ray of hope; there are many wards where nurses, healthcare assistants and doctors provide very

people in receipt of care in order to allow them to develop a programme of care that is most suitable for their needs.

Amendment 3 Peter Black

Add as a new point at end of motion:

Notes the implementation gap between the numerous policy imperatives, reports, initiatives and campaigns which have been aimed at improving care and protecting those most vulnerable.

Amendment 4 Peter Black

Add as a new point at end of motion:

Calls on the Welsh Assembly Government to take action to ensure the urgent implementation of the recommendations contained in the Dignified Care report.

Veronica German: Cynigiau welliannau 2, 3 a 4.

Diolch i'r grŵp Ceidwadol am gyflwyno'r ddatl bwysig hon ar adroddiad arwyddocaol sy'n adlewyrchiad trist o'r ffordd rydym yn trin rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed. Nid wyf yn credu y byddai neb yn y Siambr yn hapus am rai o'r sefyllfaoedd sy'n cael eu portreadu yn yr adroddiad. Yr wyf, felly, yn siomedig nad yw gwelliant 1 y Llywodraeth yn cydnabod yn llawn ganfyddiadau'r comisiynydd. Diolch i Ruth Marks a'i thîm am gynnal yr ymchwiliad hwn, am ysgrifennu'r adroddiad a nodi set glir o argymhellion fel ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol. Mae'n arbennig o ingol i ddarllen adroddiadau uniongyrchol o brofiadau pobl hŷn mewn ysbytai, yn ogystal â rhai eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Rydym wedi cael lluo o fentrau a rhaglenni gan y Llywodraeth hon a Llywodraethau blaenorol gyda'r nod o sicrhau bod pobl yn cael eu gwarchod yn briodol. Mae'n amlwg nad ydynt yn cyflawni; os oeddent, ni fyddem yn trafod yr adroddiad hwn. Fel y dywedodd Nick, nid yw'r sefyllfa yn ddrwg i gyd ac mae hynny'n rhoi gobaith; mae llawer o wardiau lle mae cleifion sydd yng ngofal

positive experiences for the patients in their care. We have to remember that and learn from their good practice because that is where the hope for the future lies. If we can give patients a positive experience even when the facilities are sometimes not ideal, it can certainly be done everywhere.

As I said, sometimes facilities are not ideal, and Nick has already pointed to poor access to bathroom and toilet facilities. However, I will contradict what Nick said about en suite facilities, because they are not always what everybody wants. It may be surprising, but if you go to the new hospital in Ebbw Vale, you will find a raft of people who are not happy about being on their own with en suite facilities, even though you would have expected that they would be. It is about having a mix of facilities and being able to cater for everybody's needs.

Even with the best will in the world, the efforts of staff are often hampered by understaffing and management issues. It is vital that we ensure that the right skill mix is available on wards as well as sufficient numbers of staff, because the issue is not only about the number of bodies but what they can do. Staffing must be based on need and ward managers must be fully involved in the assessment and selection of staff under their supervision. I was amazed to learn that nursing directors do not have a direct impact on which staff work on their wards; it is operations managers who make those decisions.

We all know that looking after people with dementia requires particular skills and I take my hat off to the people who do so because it is incredibly difficult work. However, our ageing population means that increasing numbers of staff will need to have these skills, because more of us will end up suffering from dementia. Dementia often comes with a raft of other conditions. Few people will have only dementia; they might have other physical problems or those physical problems might be the ones that are

nyrsys, cynorthwywyr gofal iechyd a meddygon yn cael profiadau cadarnhaol iawn. Mae'n rhaid cofio hynny a dysgu o'u harfer da oherwydd dyna lle mae'r gobaith am y dyfodol. Os gallwn roi profiad cadarnhaol i gleifion yn eu gofal hyd yn oed pan na fydd y cyfleusterau weithiau yn ddelfrydol, gellid yn bendant ei wneud ym mhobman.

